# 360 Safe Cymru

Polisi Diogelwch Ar-lein i Ysgolion (gydag atodiadau)

YSGOLION MYNACH, PONTRHYDFENDIGAID A SYR JOHN RHYS

# Cynnwys


Cynnwys ........ 1
Cyflwyniad ........ 3
Nodiadau canllaw ........ 5
Polisi Diogelwch Ar-lein ........ 6
Cwmpas y Polisi Diogelwch Ar-lein ........ 7
Datblygu, monitro ac adolygu polisïau ........ 7
Amserlen ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu ........ 8
Proses ar gyfer monitro effaith y Polisi Diogelwch Ar-lein ........ 8
Polisi ac arweinyddiaeth ........ 9
Cyfrifoldebau ........ 9
Grŵp Diogelwch Ar-lein ........ 17
Safonau proffesiynol ........ 17
Polisi ........ 18
Polisi Diogelwch Ar-lein ........ 18
Defnydd derbyniol ........ 19
Gweithredoedd defnyddwyr ........ 20
Adrodd ac ymateb ........ 24
Ymateb i Gamau Gweithredu'r Dysgwyr ........ 28
Ymateb i Gamau Gweithredu'r Staff ........ 30
Defnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Ysgolion ........ 32
Addysg ........ 34
Rhaglen Addysg Diogelwch Ar-lein ........ 34
Cyfraniad Dysgwyr ........ 36
Staff/gwirfoddolwyr ........ 37
Llywodraethwyr ........ 38
Teuluoedd ........ 38
Oedolion ac Asiantaethau ........ 39
Technoleg ........ 40
Hidlo ........ 40
Monitro ........ 42
Diogelwch Technegol ........ 42
Dyfeisiau ........ 45
Cyfryngau cymdeithasol ........ 48
Delweddau digidol a fideos ........ 50
Negeseuon diogelwch ar-lein ........ 51
Diogelwch Data ........ 52

Seiberddiogelwch ........ 55
Canlyniadau ........ 56
Atodiadau ........ 58
A2 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer dysgwyr hŷn ........ 59
A3 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer disgyblion iau ........ 63
A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni/Gofalwyr a ffurflenni caniatâd ........ 65
A5 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Staff (a Gwirfoddolwyr) ........ 73
A6 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol ar gyfer Defnyddwyr Cymunedol ........ 78
A7 Templed Cylch Gorchwyl Grŵp Diogelwch Ar-lein ........ 80
A8 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Cyber Choices ........ 83
A9 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnydd - siart llif ........ 84
A10 Cofnod o adolygu dyfeisiau/gwefannau ........ 86
A11 Log Adrodd ........ 87
B1 Log Archwiliad o Anghenion Hyfforddi ........ 88
C1 Templed Polisi Diogelwch Technegol (yn cynnwys hidlo a chyfrineiriau) ........ 89
C2 Cyngor a Chanllawiau ar Ddata Personol ........ 99
C3 Templed Polisi Rheoli8 Dyfeisiau (gan gynnwys ‘Dewch â’ch Dyfais eich Hun’) ........ 114
C4 Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol ........ 119
C5 Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgol – Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion ........ 125
Deddfwriaeth ........ 144
Dolenni i sefydliadau a dogfennau eraill ........ 151

# Cyflwyniad

Mae'r fersiwn hon o dempledi'r polisi diogelwch ar-lein wedi cael ei diweddaru ym mis Ionawr 2025. Dylai ysgolion sydd eisoes wedi defnyddio'r polisi adolygu'r rhannau sydd wedi'u hamlygu mewn gwyrdd yn y fersiwn hon, sy'n dangos pethau sydd wedi cael eu hychwanegu neu eu newid. Yn benodol, mae templedi'r polisi wedi cael eu diweddaru fel a ganlyn:

- I fynd i'r afael â'r diweddariadau yn y canllawiau cenedlaethol i ysgolion
- I ychwanegu cyfeiriadau at y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn amryw o leoedd yn nhempled y polisi
- Atodiad newydd (A9) "Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Dewisiadau Seiber"
- Atodiad newydd (C5) ar "Ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Ysgolion"
- Templedi newydd (wedi'u diweddaru'n helaeth) o'r Cytundebau Defnydd Derbyniol ar gyfer disgyblion a staff/gwirfoddolwyr (Atodiadau A2 i A4)
- Siart llif newydd a haws ei ddefnyddio ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch ar-lein

Nod portffolio ysgol neu leoliad addysg y templedi Polisi Diogelwch ar-lein [1] hyn yw helpu arweinwyr lunio **Polisi Diogelwch Ar-lein** addas sy'n ystyried yr holl faterion presennol a pherthnasol, mewn cyd-destun ysgol gyfan, a'u cysylltu â pholisïau perthnasol eraill, megis polisïau diogelu, ymddygiad a gwrth-fwlio yr ysgol.

Mae'r gofyniad bod dysgwyr yn gallu defnyddio technolegau digidol yn briodol ac yn ddiogel yn cael sylw fel rhan o'r ddyletswydd gofal ehangach y mae pawb sy'n gweithio mewn ysgol yn rhwym wrthi. Mae'n rhaid i ysgolion, drwy eu Polisi Diogelwch Ar-lein, gyflawni eu rhwymedigaethau statudol er mwyn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed posib, a hynny ar y safle ac oddi arno. Bydd y polisi hefyd yn rhan o warchodaeth yr ysgol rhag her gyfreithiol, yng nghyswllt defnyddio technolegau digidol.

Mae'r polisïau templed hyn yn awgrymu datganiadau polisi a fyddai, ym marn Llywodraeth Cymru, yn hanfodol mewn unrhyw Bolisi Diogelwch Ar-lein ysgol, yn seiliedig ar arfer da. Ar ben hynny, mae amrywiaeth o ddatganiadau eraill y dylai ysgolion roi sylw iddynt, o ystyried eu hamodau penodol.

Bydd Polisi Diogelwch Ar-lein effeithiol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pob ysgol a bydd y drafodaeth a'r ymgynghoriad sydd yn digwydd yn ystod ysgrifennu neu adolygu'r polisi yn rhan bwysig o'r broses. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y polisi yn cael ei berchnogi a'i dderbyn gan gymuned gyfan yr ysgol.

[1] Er hwylustod, defnyddir y term 'ysgol' drwy'r portffolio hwn o dempledi, ond gellir ei ddiffinio (a'i ddiwygio) fel 'ysgolion' neu 'lleoliadau addysg' fel y bo'n briodol.

Awgrymir y dylid ymgynghori â'r canlynol wrth lunio'r polisi hwn: llywodraethwyr/pwyllgorau rheoli[2]; staff addysgu a staff cefnogi; dysgwyr; defnyddwyr y gymuned; staff addysgu a staff cefnogi; dysgwyr; defnyddwyr y gymuned ac unrhyw grwpiau perthnasol eraill.

Oherwydd natur gyfnewidiol technolegau digidol, mae'n arfer da i ysgolion adolygu eu Polisi Diogelwch Ar-lein o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn amlach os oes angen. Bydd angen ymateb i unrhyw ddatblygiadau newydd arwyddocaol yn y defnydd o'r technolegau, i fygythiadau newydd i ddiogelwch ar-lein neu i unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi codi. Dylid rhoi sylw i natur gyfnewidiol heriau a storïau celwydd ar-lein, ac mae canllawiau ar gael ar Hwb i'ch helpu gyda hyn.

Mae Deddf Addysg 2002 a Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ac ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed. Bydd Arolygwyr Estyn yn craffu'n fanylach ar arferion diogelwch ar-lein ysgolion yn ystod arolygiadau. Hefyd, mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgol ac eithafol ar y rhyngrwyd.

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Ebrill 2022) yn nodi:

> 7.16 Dylai arolygiadau gan Estyn a'r awdurdod lleol ddilysu gallu sefydliadau addysgol i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, ymateb iddynt a'u datrys.

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein (Tachwedd 2022) yn nodi:

> Ein nod ni, Llywodraeth Cymru, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yw helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cynnwys anghyfreithlon, niweidiol ac anwir ar y rhyngrwyd a hyrwyddo ymddygiad diogel, cyfrifol ac ystyriol ar-lein.
>
> Mewn byd digidol lle mae technoleg bellach yn rhan annatod o lawer o agweddau ar ein bywydau, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ddatblygu'n unigolion sy'n ddigidol-gadarn. Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein yn fater diogelu hanfodol bwysig yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym wedi ymrwymo i feithrin a hyrwyddo'r defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg i blant a phobl ifanc drwy sicrhau bod strwythur cymorth o'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n fedrus a theuluoedd yn ymwybodol o sut i gefnogi eu plant yn eu bywydau ar-lein. Ein bwriad yw amddiffyn plant

[2] Er hwylustod, defnyddir y term 'llywodraethwyr' drwy'r portffolio hwn o dempledi, ond gellir ei ddiffinio (a'i ddiwygio) fel 'llywodraethwyr' neu 'bwyllgorau rheoli' fel y bo'n briodol.

a phobl ifanc rhag niwed drwy gefnogi teuluoedd, ymarferwyr, llywodraethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i greu diwylliant lle mae cadw plant yn ddiogel ar-lein yn fusnes i bawb.

Nod Cwricwlwm i Gymru yw sicrhau bod pob un o’n dysgwyr yn meddu ar sgiliau digidol lefel uchel. Rydym am sicrhau bod ein pobl ifanc yn gymwys ac yn gadarn yn ddigidol a’u bod yn datblygu’n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol.

Gan ei bod yn cynnig datganiadau dewisol a nodiadau canllaw, mae'r portffolio hwn o dempledi yn debygol o fod yn llawer hirach na fydd y ddogfen bolisi. Wrth ymdrin â mater cymhleth sy’n newid yn gyson, amcan y polisi yw bod yn gryno ac yn hawdd ei ddeall er mwyn bod yn effeithiol a chael ei fabwysiadu. Mae’r templedi’n seiliedig ar bolisïau a gweithdrefnau arferion gorau cyfredol a gall ysgolion eu haddasu i gyd-fynd â’u gofynion.

## Nodiadau canllaw

- Yn y templedi hyn, bydd adrannau sy’n cynnwys gwybodaeth neu arweiniad mewn testun GLAS. Rhagwelir y bydd ysgolion yn addasu neu’n dileu’r adrannau hyn o’u dogfen bolisi derfynol, ond penderfyniad i'r grŵp ysgol sy’n llunio’r polisi fydd hwn.
- Cynghorir yn gryf bod adrannau sydd wedi’u fformatio mewn print TRWM yn cael eu cadw, gan y dylent fod yn rhan hanfodol o Bolisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol.
- Pan fo adrannau yn y templed wedi’u fformatio mewn *italig* rhagwelir y bydd ysgolion eisiau ystyried yn ofalus pa un ai i gynnwys neu hepgor yr adran neu’r datganiad hwnnw yn eu polisi terfynol.
- Mae rhan gyntaf y ddogfen hon (y 50 tudalen gyntaf) yn darparu templed ar gyfer Polisi Diogelwch Ar-lein cyffredinol i ysgolion. Mae'r atodiadau’n cynnwys templedi cytundeb defnydd derbyniol a thempledi polisi penodol manylach. Penderfyniad yr ysgol yw dewis pa rai o'r dogfennau hyn y maent am eu diwygio a'u mabwysiadu.

# Ysgolion

# Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys

# Polisi Diogelwch Ar-lein

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gofalwyr, ymwelwyr, a defnyddwyr cymunedol) sydd â mynediad at systemau digidol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol ac sy'n eu defnyddio. Mae hefyd yn berthnasol i'r defnydd o ddyfeisiau personol ar safle'r ysgol (pan ganiateir hynny).

## Cwmpas y Polisi Diogelwch Ar-lein

Mae'r Polisi Diogelwch Ar-lein hwn yn amlinellu ymrwymiad [RHOWCH ENW'R YSGOL] i ddiogelu aelodau o gymuned ein hysgol ar-lein yn unol ag egwyddorion llywodraeth agored a'r gyfraith. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaeth a gafodd ei defnyddio i gynhyrchu'r templed Polisi Diogelwch Ar-lein a'r canllaw hwn fel yr amlinellir yn yr Atodiad 'Deddfwriaeth'.

Mae'r Polisi Diogelwch Ar-lein hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gofalwyr, ymwelwyr, a defnyddwyr cymunedol) sydd â mynediad at systemau digidol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol ac sy'n eu defnyddio. Mae hefyd yn berthnasol i'r defnydd o ddyfeisiau personol ar safle'r ysgol (pan ganiateir hynny).

Bydd [RHOWCH ENW'R YSGOL] yn delio â digwyddiadau o'r fath yn y polisi hwn a pholisïau ymddygiad a gwrth-fwlio cysylltiedig a, lle bo'n hysbys, bydd yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am ddigwyddiadau o ymddygiad diogelwch ar-lein amhriodol sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol.

## Datblygu, monitro ac adolygu polisïau

Mae'r Polisi Diogelwch Ar-lein hwn wedi cael ei ddatblygu gan [*rhowch enw'r grŵp/pwyllgor ee y Grŵp Diogelwch Ar-lein*] sy'n cynnwys: (dileu / ychwanegu fel sy'n berthnasol)

- *pennaeth/uwch arweinwyr*
- *arweinydd diogelwch ar-lein*
- *staff - gan gynnwys athrawon/ymarferwyr addysg/staff cymorth/staff technegol*
- *llywodraethwyr*
- *rhieni a gofalwyr*
- *defnyddwyr cymunedol*

Ymgynghorwyd â chymuned yr ysgol gyfan mewn amrywiaeth o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

## Amserlen ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu

| | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y Polisi Diogelwch Ar-lein hwn gan *gorff llywodraethu'r ysgol* ar: | |
| Bydd y canlynol yn monitro sut bydd y Polisi Diogelwch Ar-lein hwn yn cael ei roi ar waith: | |
| Bydd monitro yn digwydd yn rheolaidd: | |
| Bydd y *corff llywodraethu* yn derbyn adroddiad gan y grŵp monitro ar weithredu'r Polisi Diogelwch Ar-lein (bydd yn cynnwys manylion dienw am achosion diogelwch ar-lein) yn rheolaidd: | |
| Bydd y Polisi Diogelwch Ar-lein yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n amlach yng ngoleuni datblygiadau newydd arwyddocaol o ran defnyddio technolegau, bygythiadau newydd i ddiogelwch ar-lein neu unrhyw achosion sydd wedi codi. Rhagwelir y bydd y dyddiad adolygu nesaf ar: | |
| Os bydd yna achosion diogelwch ar-lein difrifol, dylid hysbysu'r personau / asiantaethau allanol hyn: | |

## Proses ar gyfer monitro effaith y Polisi Diogelwch Ar-lein

Bydd yr ysgol yn monitro effaith y polisi drwy wneud y canlynol: (dileu / ychwanegu fel sy'n berthnasol)

- *cofnodion o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt*
- *logiau monitro gweithgarwch ar y rhyngrwyd (gan gynnwys safleoedd yr ymwelwyd â nhw)*
- *data mewnol yn monitro gweithgarwch ar y rhwydwaith*
- *arolygon/holiaduron ar gyfer:*
    - *dysgwyr*
    - *rhieni a gofalwyr*
    - *staff.*

# Polisi ac arweinyddiaeth

## Cyfrifoldebau

Er mwyn sicrhau bod aelodau o gymuned ein hysgol yn cael eu diogelu ar-lein, mae'n bwysig bod pob aelod o'r gymuned honno'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymddygiad ar-lein diogel a chyfrifol, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd ac o arferion da mewn mannau eraill, gan roi gwybod am ymddygiadau, pryderon a chamddefnydd amhriodol ar-lein cyn gynted ag y daw'r rhain i'r amlwg. Er mai ymdrech tîm fydd hon, mae'r adrannau canlynol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau diogelwch ar-lein unigolion[3] a grwpiau yn yr ysgol.

### Penaethiaid ac uwch arweinwyr

- Dyletswydd y pennaeth yw sicrhau diogelwch (gan gynnwys diogelwch ar-lein) holl aelodau cymuned yr ysgol a meithrin diwylliant o ddiogelu. Fodd bynnag, caniateir dirprwyo'r cyfrifoldebau bob dydd dros ddiogelwch ar-lein i aelod priodol o'r uwch dîm arwain.
- Dylai'r pennaeth ac (o leiaf) un aelod arall o'r uwch dîm arwain fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau sydd angen eu dilyn mewn achos o gyhuddiad difrifol yn ymwneud â diogelwch ar-lein yn erbyn aelod o staff.4
- Mae'r pennaeth/uwch arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn cael hyfforddiant addas i'w galluogi i gyflawni eu rolau ac i roi hyfforddiant i gyd-weithwyr eraill pan fo hynny'n berthnasol.
- Bydd y pennaeth/uwch arweinwyr yn sicrhau bod system yn ei lle i allu monitro a rhoi cymorth i'r rhai sy'n monitro diogelwch ar-lein mewnol yr ysgol.
- Bydd y pennaeth/uwch arweinwyr yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd gan yr Arweinydd Diogelwch Ar-lein.

### Llywodraethwyr

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn nodi

> 2.38 "Dylai pob llywodraethwr, gan gynnwys cadeirydd y llywodraethwyr, allu cael hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant er mwyn sicrhau lefel sylfaenol a chyson o ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys y Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, ond nid yw wedi'i gyfyngu

[3] Mewn ysgolion bach gall rhai o'r rolau a restrir gael eu cyfuno, ond mae'n bwysig sicrhau eu bod yn amlwg yn rolau ar wahân mewn achosion o'r fath.

[4] Gweler y siart llif am ymdrin â digwyddiadau diogelwch ar-lein yn 'Ymateb i achosion o gamddefnyddio' a gweithdrefnau disgyblu Adnoddau Dynol/corff perthnasol arall.

iddynt. Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad addysg yn bodloni gofynion statudol a dylai pob llywodraethwr wybod beth i'w wneud os bydd ganddo bryderon ynglŷn â phlentyn."

3.61. "Dylai'r person diogelu dynodedig gydgysylltu â'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, er mwyn i'r llywodraethwr dynodedig allu adrodd ar faterion sy'n ymwneud â diogelu i'r corff llywodraethu, ni waeth a yw'r mater yn digwydd ar-lein neu all-lein. Ni ddylid trafod achosion amddiffyn plant penodol mewn adroddiadau i'r corff llywodraethu, ond dylid adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr a enwebwyd a'r person diogelu dynodedig gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd."

Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi Diogelwch Ar-lein ac am adolygu effeithiolrwydd y polisi ee drwy ofyn y cwestiynau yn nogfen Llywodraeth Cymru a UKCIS Pump o gwestiynau allweddol i gyrff llywodraethu i helpu i herio eu hysgol i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol. Gwneir hyn gan (nodwch enw'r grŵp llywodraethwyr/pwyllgor). Bydd yr aelodau hyn yn derbyn gwybodaeth reolaidd ynglŷn â digwyddiadau diogelwch ar-lein ac adroddiadau monitro. Dylai aelod o'r corff llywodraethu ymgymryd â rôl y Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein[5]

a chyflawni'r canlynol:

- cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein
- derbyn adroddiadau'n rheolaidd (wedi'u creu a'u gwneud yn ddienw) am ddigwyddiadau diogelwch ar-lein
- gwirio bod y ddarpariaeth a amlinellir yn y Polisi Diogelwch Ar-lein (ee darpariaeth addysg diogelwch ar-lein a hyfforddiant staff yn digwydd yn ôl y bwriad)
- adrodd i'r grŵp llywodraethwyr / cyfarfod perthnasol.
- *aelodaeth o Grŵp Diogelwch Ar-lein yr ysgol*
- *adolygu'r logiau rheoli gwasanaethau hidlo a monitro'r logiau hidlo yn achlysurol (pan fo hynny'n bosibl)*

Bydd y corff llywodraethu hefyd yn cefnogi'r ysgol i annog rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i gymryd rhan mewn gweithgareddau diogelwch ar-lein.

### Arweinydd Diogelwch Ar-lein

SYLWER: Awgrymir yn gryf y dylai pob ysgol benodi aelod o staff i ysgwyddo cyfrifoldebau bob dydd sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein; efallai bydd rhai ysgolion yn dewis cyfuno'r gwaith hwn â swyddogaethau'r Person Diogelu Dynodedig (DSP). Efallai y bydd ysgolion yn dewis penodi person sydd â phrofiad o ymwneud â llesiant plant, yn hytrach nag aelod staff technegol. Gorau oll os oes

[5] Awgrymir cyfuno'r rôl hon â rôl y llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu. Mewn sefyllfaoedd eraill, efallai mai'r person hwn yw'r pwyllgor rheoli ar gyfer amddiffyn plant

ganddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o dechnolegau newydd. Ond yr ysgol fydd yn penderfynu ar hynny.

Bydd yr arweinydd diogelwch ar-lein yn:

- arwain y Grŵp Diogelwch Ar-lein
- gweithio'n agos o ddydd i ddydd gyda'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP), lle nad yw'r rolau hyn yn cael eu cyfuno
- cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros faterion diogelwch ar-lein, bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o bryderon difrifol ynghylch amddiffyn plant
- chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o sefydlu ac adolygu polisïau/dogfennau diogelwch ar-lein yr ysgol
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o addysg diogelwch ar-lein ar draws yr ysgol a thu hwnt, ac ymrwymiad i hynny
- cysylltu ag arweinwyr y cwricwlwm i sicrhau bod y cwricwlwm diogelwch ar-lein yn cael ei gynllunio a'i ymgorffori
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn mewn achosion o ddigwyddiadau diogelwch ar-lein a bod angen rhoi gwybod ar unwaith am y digwyddiadau hynny
- derbyn adroddiadau ar ddigwyddiadau diogelwch ar-lein[6] a chreu cofnod o ddigwyddiadau er mwyn eu defnyddio i ddatblygu diogelwch ar-lein yn y dyfodol
- rhoi hyfforddiant a chyngor i staff/ llywodraethwyr/ rhieni/ gofalwyr/ dysgwyr (neu ganfod ffynonellau priodol o hynny)
- cysylltu â staff technegol (ysgol/awdurdod lleol), staff bugeiliol a staff cefnogi (fel sy'n berthnasol)
- cyfarfod yn rheolaidd gyda'r llywodraethwr diogelwch ar-lein i drafod materion cyfredol, adolygu digwyddiadau (yn ddienw) a hidlo a monitro cofnodion os yw hynny'n bosibl
- mynychu cyfarfodydd/grwpiau perthnasol y corff llywodraethu
- adrodd yn gyson i'r pennaeth/uwch dîm arwain.
- cysylltu â'r awdurdod lleol/corff perthnasol

### Person Diogelu Dynodedig (DSP)

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn nodi:

[6] _Bydd angen i'r ysgol benderfynu sut byddant yn ymateb i'r digwyddiadau hyn ac a yw'r ymchwiliad/gweithred yn gyfrifoldeb yr arweinydd diogelwch ar-lein neu aelod arall o staff ee pennaeth/uwch arweinydd/Uwch Berson Dynodedig/athro dosbarth/pennaeth blwyddyn, ac ati.

2.14. "Rhaid i'r pennaeth/prifathro benodi'r nifer priodol o bersonau diogelu dynodedig a dirprwy bersonau diogelu dynodedig ar gyfer ei leoliad addysg a dylai sicrhau bod y person diogelu dynodedig:

- yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol, a dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd
- yn gallu cael y lefelau gofynnol o hyfforddiant a chymorth i gyflawni'r rôl, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch ar-lein
- yn cael amser i fynychu a darparu adroddiadau a chyngor i gynadleddau achos a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill yn ôl yr angen
- yn meddu ar yr offer TG priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol."

SYLWER: Mae'n bwysig pwysleisio mai materion diogelu ac nid materion technegol yw'r rhain; mae technoleg yn cynnig dulliau ychwanegol o ddatblygu materion diogelu. Efallai bydd ysgolion yn dewis cyfuno rôl y Person Diogelu Dynodedig â'r arweinydd diogelwch ar-lein. Os nad yw rolau'r Person Diogelu Dynodedig a'r arweinydd diogelwch ar-lein wedi cael eu cyfuno, awgrymir eu bod yn cydweithio'n agos am fod materion diogelu yn aml yn gysylltiedig â diogelwch ar-lein.

Dylai'r Person Diogelu Dynodedig *g*ael hyfforddiant ar faterion diogelwch ar-lein a bod yn ymwybodol o'r materion diogelu difrifol sy'n gallu codi o'r canlynol:

- rhannu data personol (Gweler y 'Polisi data personol' yn yr Atodiad.)
- mynediad i ddeunydd anghyfreithlon/amhriodol
- cyswllt amhriodol ar-lein gydag oedolion/dieithriaid
- digwyddiadau neu bosibiliadau o feithrin perthynas at bwrpas rhyw (*grooming*)
- bwlio ar-lein.

### Arweinwyr Cwricwlwm

Mae adnodd archwilio diogelwch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn awgrymu:

> "Dylai'r cwricwlwm ategu polisïau presennol yn y lleoliad addysg ar faterion pwysig a darparu digon o wybodaeth am reoli risg, e.e. mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg ar gyffuriau, alcohol a thybaco, atal damweiniau, gwrth-fwlio, diogelwch ar-lein, eithafiaeth a radicaleiddio."

Bydd Arweinwyr y Cwricwlwm yn gweithio gyda'r arweinydd diogelwch ar-lein i ddatblygu rhaglen addysg diogelwch ar-lein wedi'i chynllunio a'i chydlynu. Bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy (newid/dileu fel sy'n berthnasol):

- rhaglen ar wahân

- y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- addysg rhyw a pherthnasoedd
- Maes dysgu a phrofiad addysg iechyd a llesiant
- gwasanaethau a rhaglenni bugeiliol
- drwy fentrau a chyfleoedd cenedlaethol perthnasol ee Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ac Wythnos Gwrth-fwlio.

### Staff dysgu a chymorth

Mae staff yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- ymwybyddiaeth gyfredol o faterion/tueddiadau diogelwch ar-lein ac o bolisi ac arferion Diogelwch Ar-lein cyfredol yr ysgol
- eu bod yn deall bod diogelwch ar-lein yn rhan greiddiol o ddiogelu
- eu bod wedi darllen, deall a llofnodi cytundeb defnydd derbyniol (CDD) y staff a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- eu bod yn dilyn yr holl ddeddfwriaethau a chanllawiau perthnasol, er enghraifft, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a rheoliadau GDPR y DU
- eu bod yn rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw gamddefnydd neu broblem a amheuir i *(nodwch yr unigolyn perthnasol)* ar gyfer ymchwiliad/gweithredu, yn unol â gweithdrefnau diogelu'r ysgol
- bod pob achos o gyfathrebu'n ddigidol â dysgwyr, rhieni a gofalwyr ac eraill yn cael ei wneud ar lefel broffesiynol, *gan ddefnyddio systemau a dyfeisiau swyddogol yr ysgol yn unig* (pan fydd y staff yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, dylent ddefnyddio dim ond gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr ysgol at ddibenion gwaith sydd wedi cael eu gwerthuso er mwyn cydymffurfio â gofynion goruchwylio a diogelwch y sefydliad)
- bod materion diogelwch ar-lein yn rhan annatod o bob agwedd o'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill
- sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn dilyn y Polisi Diogelwch Ar-lein a'r cytundebau defnydd derbyniol, bod ganddynt ddealltwriaeth dda o sgiliau ymchwil a'r angen i osgoi llên-ladrad a chynnal rheoliadau hawlfraint
- eu bod yn goruchwylio ac yn monitro'r defnydd o dechnolegau digidol, dyfeisiau symudol, camerâu ac ati, mewn gwersi a gweithgareddau eraill yr ysgol (lle maent yn cael eu caniatáu) ac yn gweithredu polisïau cyfredol sy'n ymwneud â'r dyfeisiau hyn
- mewn gwersi lle mae defnyddio'r rhyngrwyd wedi'i gynllunio, dylai dysgwyr gael eu cyfeirio at wefannau sydd wedi'u gwirio fel rhai addas i'w defnyddio, *a bod prosesau yn eu lle i ddelio ag unrhyw ddeunydd anaddas sy'n cael ei ddarganfod wrth chwilio ar y rhyngrwyd*

- pan fydd gwersi'n cael eu cyflwyno drwy ffrydio byw neu fideogynadledda, rhaid i staff roi ystyriaeth lawn i Ffrydio byw a fideogynadledda: egwyddorion diogelu a chanllawiau ymarfer, sy'n amlinellu ystyriaethau allweddol i sicrhau arfer diogel wrth ffrydio byw.
    - Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Paragraff 7.6) yn nodi: "Mae diogelu yn un o egwyddorion annatod dysgu digidol ac mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles dysgwyr dros bob ystyriaeth arall. Rhaid i ddiogelu fod yn rhan annatod o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno gwersi ffrydio byw er mwyn sicrhau bod dysgwyr wedi'u hamddiffyn yn briodol."
- eu bod yn cadw at bolisi diogelwch technegol yr ysgol, o ran defnyddio dyfeisiau, systemau a chyfrineiriau, a'u bod yn deall hanfodion seiberddiogelwch
- bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o'r ffordd mae'r dysgwyr sydd dan eu gofal yn defnyddio technolegau digidol oddi allan i'r ysgol, er mwyn bod yn ymwybodol o broblemau diogelwch ar-lein a allai ddatblygu wrth ddefnyddio'r technolegau hyn
- eu bod yn ymwybodol o fanteision a pheryglon defnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn yr ysgol, ac yn defnyddio'r gwasanaethau hyn mewn ffordd dryloyw, gan flaenoriaethu goruchwyliaeth ddynol. Dylai Deallusrwydd Artiffisial ategu, nid cymryd lle, penderfyniadau a wneir gan bobl. Rhaid i'r staff sicrhau bod y penderfyniadau terfynol, yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar bobl, yn cael eu gwneud gan bobl, eu bod yn ffeithiol gywir, a'u bod yn cael eu gwerthuso'n feirniadol.
- mae ganddynt agwedd dim goddefgarwch tuag at ddigwyddiadau o fwlio ar-lein, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, casineb ac ati
- maent yn modelu ymddygiad ar-lein diogel, cyfrifol a phroffesiynol yn eu defnydd eu hunain o dechnoleg, gan gynnwys y tu allan i'r ysgol ac wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

### Rheolwr rhwydwaith/staff technegol

SYLWER: Os oes gan yr ysgol wasanaeth TGCh wedi ei reoli a ddarperir gan gontractwr allanol neu bartner cymorth addysg, cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn cyflawni'r holl fesurau diogelwch ar-lein a fyddai fel arall yn gyfrifoldeb staff technegol yr ysgol, fel yr awgrymir isod. Mae hefyd yn bwysig bod y darparwr gwasanaeth a reolir yn gwbl ymwybodol o Bolisi a gweithdrefnau Diogelwch Ar-lein yr ysgol.

Mae'r rheolwr rhwydwaith / staff technegol (neu ddarparwr gwasanaeth a reolir/awdurdod lleol) yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn ymwybodol o Bolisi Diogelwch Ar-lein a Pholisi Diogelwch Technegol yr ysgol ac yn eu dilyn er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol yn unol â pholisi'r ysgol
- bod seilwaith technegol yr ysgol yn ddiogel ac nad oes modd iddi gael ei chamddefnyddio na dioddef ymosodiadau maleisus

- bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion technegol diogelwch ar-lein angenrheidiol (o leiaf) sy'n cael eu nodi gan yr awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru drwy'r Safonau Digidol Addysg neu gorff perthnasol arall
- mai dim ond drwy bolisi diogelu cyfrineiriau sy'n cael ei orfodi'n briodol y bydd defnyddwyr yn cael mynediad i'r rhwydwaith ac i'r dyfeisiau
- maent yn ymwybodol o'r wybodaeth dechnegol ddiweddaraf am ddiogelwch ar-lein er mwyn cyflawni'r rôl diogelwch ar-lein yn effeithiol a rhoi gwybod i eraill am ddiweddariadau pan fo hynny'n berthnasol
- bod y defnydd o'r systemau technegol a chyfathrebu'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn gallu rhoi gwybod am unrhyw gamddefnydd/camddefnydd honedig i (nodwch yr unigolyn perthnasol) ar gyfer ymchwiliad a gweithredu
- bod y *polisi hidlo* *(*os oes un yn bodoli*)*, yn cael ei weithredu a'i ddiweddaru'n gyson ac nad cyfrifoldeb un unigolyn yn unig yw ei weithredu (gweler atodiad 'Templed Polisi Diogelwch Technegol' am ymarfer da).
- *bod meddalwedd/systemau monitro (os oes rhai'n bodoli) yn cael eu gweithredu a'u diweddaru fel y cytunwyd ym mholisïau'r ysgol neu bartner cymorth technoleg addysg*

### Dysgwyr

- Maen nhw'n gyfrifol am ddefnyddio systemau technolegau digidol yr ysgol yn unol â'r cytundeb defnydd derbyniol i ddysgwyr (dylai hyn gynnwys dyfeisiau personol – pan ganiateir hynny), a dylid adolygu hyn yn flynyddol.
- Dylent ddeall pwysigrwydd adrodd ar gam-drin, camddefnydd neu fynediad i ddeunydd amhriodol, a gwybod sut i wneud hynny
- Dylent wybod beth i'w wneud os ydyn nhw neu rywun maen nhw'n ei adnabod yn teimlo'n agored i niwed wrth ddefnyddio technoleg ar-lein

- Dylent osgoi llên-ladrad a glynu wrth reoliadau hawlfraint, gan gymryd gofal wrth ddefnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol er mwyn gwarchod eu heiddo deallusol eu hunain ac eiddo deallusol eraill, a sicrhau cywirdeb cynnwys sy'n dod o wasanaethau Deallusrwydd Artiffisial

- Bydd disgwyl iddyn nhw wybod a dilyn Polisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol
- Dylent ddeall pwysigrwydd dilyn arferion diogelwch ar-lein da wrth ddefnyddio technolegau digidol y tu allan i'r ysgol a sylweddoli bod Polisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol yn berthnasol y tu allan i'r ysgol, os yw'n ymwneud â bod yn aelod o'r ysgol.

### Rhieni a gofalwyr

Mae gan rieni a gofalwyr ran hanfodol mewn sicrhau bod plant yn deall yr angen i ddefnyddio'r rhyngrwyd/dyfeisiau symudol mewn ffordd briodol.

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein (Tachwedd 2022) yn nodi:

> *"Rydym wedi ymrwymo i feithrin a hyrwyddo'r defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg i blant a phobl ifanc drwy sicrhau bod strwythur cymorth o'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n fedrus a theuluoedd yn ymwybodol o sut i gefnogi eu plant yn eu bywydau ar-lein. Ein bwriad yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed drwy gefnogi teuluoedd, ymarferwyr, llywodraethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i greu diwylliant lle mae cadw plant yn ddiogel ar-lein yn fusnes i bawb."*

Bydd yr ysgol yn manteisio ar bob cyfle i helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y materion hyn drwy wneud y pethau canlynol:

- darparu copi iddynt o gytundeb defnydd derbyniol y dysgwyr (bydd angen i'r ysgol benderfynu a ydynt am i rieni/gofalwyr gydnabod y rhain drwy lofnod)
- cyhoeddi gwybodaeth am ddefnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol o ran negeseuon sy'n ymwneud â'r ysgol
- gofyn am eu caniatâd ynghylch delweddau digidol, gwasanaethau cwmwl ac ati (edrychwch ar y Cytundeb Defnydd Derbyniol i rieni/gofalwyr yn yr atodiad)
- *darparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr wella eu dealltwriaeth o ddiogelwch ar-lein drwy gynnal nosweithiau rhieni/gofalwyr, cylchlythyrau, llythyrau, gwefan, Hwb, platfform dysgu, a gwybodaeth am lenyddiaeth ac ymgyrchoedd diogelwch ar-lein lleol/cenedlaethol (fel y bo'n berthnasol)*

*Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gefnogi'r ysgol i wneud y canlynol:*

- *atgyfnerthu'r negeseuon diogelwch ar-lein a roddir i ddysgwyr yn yr ysgol*
- *defnydd eu plant o'u dyfeisiau personol yn yr ysgol (lle caniateir eu defnyddio)*

### Defnyddwyr cymunedol

Bydd disgwyl i ddefnyddwyr cymunedol sydd yn cael mynediad i systemau/gwefan/Hwb/platfformau dysgu yr ysgol fel rhan o ddarpariaeth ehangach yr ysgol, lofnodi Cytundeb Defnydd Derbyniol defnyddiwr cymunedol cyn cael mynediad i systemau'r ysgol. (Gellir gweld templed cytundeb defnydd derbyniol defnyddwyr cymunedol yn yr atodiadau).

*Mae'r ysgol yn annog cyfranogiad asiantaethau/aelodau o'r gymuned sy'n gallu cyfrannu'n werthfawr at y ddarpariaeth diogelwch ar-lein ac sy'n mynd ati i rannu ei gwybodaeth a'i harferion da gydag ysgolion eraill a'r gymuned.*

## Grŵp Diogelwch Ar-lein

Mae'r Grŵp Diogelwch Ar-lein yn grŵp ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolaeth eang o gymuned yr ysgol. Mae'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a monitro'r Polisi Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys effaith y cynlluniau. Yn ddibynnol ar faint neu strwythur yr ysgol, efallai bydd y grŵp yma yn rhan o'r grŵp diogelu. Bydd y grŵp hefyd yn gyfrifol am adrodd yn gyson i'r uwch arweinwyr a'r corff llywodraethu.

Dyma aelodau'r Grŵp Diogelwch Ar-lein (diwygiwch fel sy'n briodol):

- arweinydd diogelwch ar-lein
- Person Diogelu Dynodedig (DSP)
- uwch arweinwyr
- llywodraethwr diogelwch ar-lein
- staff technegol
- athrawon a staff cymorth
- dysgwyr
- rhieni/gofalwyr
- cynrychiolwyr cymunedol

Bydd aelodau'r Grŵp Diogelwch Ar-lein (neu grŵp dynodedig arall) yn cynorthwyo'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein (neu unigolyn perthnasol arall) gyda'r canlynol:

- cynhyrchu/adolygu/monitro polisi/dogfennau Diogelwch Ar-lein yr ysgol
- cynhyrchu/adolygu/monitro polisi hidlo'r we yn yr ysgol a gofyn am newidiadau hidlo
- mapio ac adolygu'r ddarpariaeth addysg diogelwch ar-lein - sicrhau perthnasedd, ehangder a dilyniant a'r sylw a roddir i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- adolygu'r rhwydwaith/hidlo'r we/monitro/cofnodi digwyddiadau, lle bo hynny'n bosibl
- annog cyfraniad dysgwyr at ymwybyddiaeth staff, tueddiadau diweddar a darpariaeth diogelwch ar-lein yr ysgol
- ymgynghori â'r rhanddeiliaid - gan gynnwys staff/rhieni/gofalwyr ynglŷn â darpariaethau diogelwch ar-lein
- monitro'r camau gwella sy'n cael eu hadnabod trwy ddefnyddio'r teclyn hunan adolygu 360 gradd safe Cymru.

Gellir gweld templed cylch gorchwyl Grŵp Diogelwch Ar-lein yn yr atodiadau.

## Safonau proffesiynol

Disgwylir y bydd safonau proffesiynol cenedlaethol yn cael eu cymhwyso i ddiogelwch ar-lein fel mewn agweddau eraill ar fywyd yr ysgol, hynny yw:

- bod pwyslais cyson ar bwysigrwydd canolog llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, a chadernid digidol. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i ennill sgiliau ar draws pob maes dysgu a bydd pob cyfle yn cael ei gymryd i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr
- bod parodrwydd i ddatblygu a chymhwyso technegau newydd sy'n addas ar gyfer dysgu bwriadol mewn dull strwythuredig ac ystyriol ac i ddysgu o'r profiad, gan gymryd gofal i osgoi risgiau a allai fod yn gysylltiedig â mabwysiadu technolegau sy'n datblygu, ee, offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol
- bod ymarferwyr yn gallu myfyrio ar eu hymarfer, yn unigol ac ar y cyd, yn erbyn safonau ymarfer effeithiol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a chadarnhau a dathlu eu llwyddiannau
- bod polisïau a phrotocolau ar waith ar gyfer defnyddio technoleg cyfathrebu ar-lein rhwng y staff ac aelodau eraill o'r ysgol a'r gymuned ehangach, gan ddefnyddio mecanweithiau ysgolion sydd wedi'u cymeradwyo'n swyddogol.
- *pan fydd Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio i fonitro'r ffordd mae staff yn cyfathrebu, bod cydbwysedd rhwng hynny a pharch at breifatrwydd, a bod tryloywder ynghylch yr hyn sy'n cael ei fonitro a pham.*

# Polisi

## Polisi Diogelwch Ar-lein

Polisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol:

- gosod disgwyliadau ar gyfer defnyddio technolegau digidol yn ddiogel ac yn gyfrifol ar gyfer dysgu, gweinyddu a chyfathrebu
- dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni'r polisi
- yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar y cyd, gan ystyried digwyddiadau diogelwch ar-lein a newidiadau/tueddiadau mewn technoleg ac ymddygiad cysylltiedig
- sefydlu canllawiau i staff ar sut y gallant ddefnyddio technolegau digidol yn gyfrifol, diogelu eu hunain a'r ysgol a sut y gallant ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i helpu i ddiogelu dysgwyr yn y byd digidol
- disgrifio sut bydd yr ysgol yn helpu i baratoi dysgwyr i fod yn ddiogel ac yn gyfrifol wrth ddefnyddio technolegau ar-lein
- sefydlu gweithdrefnau clir i ganfod, adrodd, ymateb a chofnodi camddefnydd o dechnolegau digidol a digwyddiadau diogelwch ar-lein, gan gynnwys mecanweithiau cymorth allanol
- yn cael ei ategu gan gyfres o gytundebau defnydd derbyniol cysylltiedig
- ar gael i staff adeg cynefino a thrwy sianelau cyfathrebu arferol (i'w disgrifio)
- i'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol.

# Defnydd derbyniol

**Mae'r ysgol wedi diffinio'r hyn mae'n ei ystyried yn ddefnydd derbyniol/annerbyniol a dangosir hyn yn y tablau isod.**

## Cytundebau defnydd derbyniol

Dogfen sy'n amlinellu disgwyliadau'r ysgol o ran y defnydd cyfrifol o dechnoleg gan ei defnyddwyr yw'r Cytundeb Defnydd Derbyniol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, maent yn cael eu llofnodi neu eu cydnabod gan eu staff fel rhan o'u hamodau gwaith. Efallai y bydd rhai hefyd yn mynnu bod dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn eu llofnodi, ond mae'n bwysicach bod y rhain yn cael eu deall a'u dilyn yn hytrach na dim ond eu llofnodi.

**Mae'r Polisi a'r atodiadau Diogelwch Ar-lein yn diffinio defnydd derbyniol yn yr ysgol. Yn yr atodiadau ceir cytundebau defnydd derbyniol ar gyfer y canlynol:**

- dysgwyr – wedi'u gwahaniaethu yn ôl oed. Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r rheolau defnydd derbyniol mewn sesiynau cynefino, ar ddechrau pob blwyddyn ysgol ac yn cael eu hatgyfnerthu'n rheolaidd yn ystod gwersi, gwasanaethau boreol a thrwy bosteri/sgriniau o amgylch yr ysgol. *Anogir grwpiau dysgu (i'w disgrifio) i awgrymu fersiynau addas i blant o'r rheolau.*
- bydd staff a gwirfoddolwyr yn cytuno ac yn llofnodi'r Cytundeb Defnydd Derbyniol
- mae Cytundeb Defnydd Derbyniol rhieni/gofalwyr yn rhoi gwybod iddynt am y disgwyliadau o ddefnydd derbyniol ar gyfer eu plant ac yn gofyn am ganiatâd ar gyfer delweddau digidol, defnyddio systemau cwmwl ac ati.
- bydd yn ofynnol i ddefnyddwyr cymunedol sy'n defnyddio systemau technoleg ddigidol ysgolion lofnodi Cytundeb Defnydd Derbyniol.

Bydd y cytundebau defnydd derbyniol yn cael eu cyfleu/atgyfnerthu drwy'r canlynol: (diwygiwch fel y bo'n briodol)

- llawlyfr i fyfyrwyr
- cyflwyniad a llawlyfr staff
- sgriniau ("splash screens")
- arwyddion digidol
- posteri/hysbysiadau o amgylch mannau lle mae technoleg yn cael ei defnyddio
- cyfathrebu â rhieni/gofalwyr
- wedi'u cynnwys mewn sesiynau addysg
- gwefan yr ysgol

- cymorth gan gymheiriaid.

Bydd angen i ysgolion drafod a chytuno pa weithgareddau sy'n dderbyniol/annerbyniol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl maint/strwythur yr ysgol ac oedran y dysgwyr. Argymhellir y dylai'r ysgol drafod a chytuno ar y gweithgareddau hyn a chwblhau'r tablau canlynol fel canllawiau i aelodau o gymuned yr ysgol:

| | Gweithredoedd defnyddwyr | Derbyniol | Derbyniol ar adegau penodol | Derbyniol i ddefnyddwyr enwebedig | Annerbyniol | Annerbyniol ac anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni fydd gan y defnyddwyr fynediad at gynnwys ar-lein (gan gynnwys apiau, gemau, gwefannau) er mwyn postio, lawrlwytho, lanlwytho, trosglwyddo data, cyfathrebu na rhannu, deunydd, cynigion na sylwadau sy'n cynnwys neu sy'n gysylltiedig â'r canlynol: | Unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, er enghraifft:<br>• Delwedd o gam-drin plant yn rhywiol*<br>• Camfanteisio/hudo/cam-drin plant yn rhywiol<br>• Terfysgaeth<br>• Annog neu gynorthwyo mewn hunanladdiad<br>• Troseddau'n ymwneud â delweddau rhywiol h.y. dial a phornograffi eithafol<br>• Cymell a bygythiadau o drais<br>• Trosedd casineb<br>• Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus - aflonyddu a stelcian<br>• Troseddau cysylltiedig â chyffuriau<br>• Troseddau arfau / arfau tanio<br>• Twyll a throseddau ariannol, gan gynnwys gwyngalchu arian<br><br>Noder, dylai ysgolion gyfeirio at ganllawiau ynghylch delio â 'secstio' (delweddau noeth/hanner noeth sydd wedi'u cynhyrchu gan unigolyn) - [canllawiau ynghylch delio â digwyddiadau lle mae delweddau noeth a hanner noeth yn cael eu rhannu.] | | | | | X |
| Ni fydd defnyddwyr yn ymgymryd â gweithgareddau y gellid eu hystyried yn seiberdrosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (1990) | • Defnyddio enw defnyddiwr neu ID a chyfrinair unigolyn arall i gael mynediad at ddata, rhaglen neu rannau o system nad oes gan y defnyddiwr hawl i'w defnyddio (hyd yn oed os yw'r mynediad cychwynnol wedi'i awdurdodi)<br>• Cael mynediad heb awdurdod at rwydweithiau, data a ffeiliau'r ysgol, drwy ddefnyddio cyfrifiaduron/dyfeisiau<br>• Creu neu ledaenu firysau cyfrifiadurol neu ffeiliau niweidiol eraill | | | | | X |

| | Gweithredoedd defnyddwyr | Derbyniol | Derbyniol ar adegau penodol | Derbyniol i ddefnyddwyr enwebedig | Annerbyniol | Annerbyniol ac anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Datgelu neu gyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu berchnogol (ee gwybodaeth gyllidol/personol, cronfeydd data, codau mynediad a chyfrineiriau cyfrifiadurol/rhwydwaith)<br>• Analluogi/Amharu swyddogaethau rhwydwaith drwy ddefnyddio cyfrifiaduron/dyfeisiau<br>• Defnyddio offer profi treiddio (heb ganiatâd perthnasol)<br><br>D.S. Bydd angen i ysgolion benderfynu a ddylid delio â'r rhain yn fewnol ynteu gan yr heddlu. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau difrifol neu droseddau sy'n digwydd dro ar ôl tro. O dan yr agenda 'Prevent' Seiberdroseddu, mae gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol gylch gwaith i atal dysgwyr rhag ymwneud â seiberdroseddu a ffrwyno eu gweithgarwch mewn ffyrdd cadarnhaol – darllenwch fwy am hyn: Rhaglen Cyber Choices yr NCA (Saesneg yn unig) | | | | | |
| Ni fydd defnyddwyr yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn anghyfreithlon ond sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol ym mholisïau'r ysgol: | Cael gafael ar ddeunyddiau/gweithgareddau amhriodol ar-lein mewn ysgol, gan gynnwys pornograffi, gamblo, cyffuriau. (Yn ôl arferion hidlo'r ysgol a/neu Cytundeb Defnydd Derbyniol) | | | X | X | |
| | Hyrwyddo unrhyw fath o wahaniaethu | | | | X | |
| | Defnyddio systemau'r ysgol i redeg busnes preifat | | | | X | |
| | Defnyddio systemau, apiau, gwefannau neu fecanweithiau eraill sy'n osgoi hidlo neu broses arall o ddiogelu sy'n cael ei defnyddio gan yr ysgol | | | | X | |

| | Gweithredoedd defnyddwyr | Derbyniol | Derbyniol ar adegau penodol | Derbyniol i ddefnyddwyr enwebedig | Annerbyniol | Annerbyniol ac anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Torri amodau hawlfraint ac eiddo deallusol (gan gynnwys drwy ddefnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol) | | | | X | |
| | Defnydd annheg (lawrlwytho/lanlwytho ffeiliau mawr sy'n rhwystro eraill rhag defnyddio'r rhyngrwyd) | | | X | X | |
| | Unrhyw wybodaeth arall a allai sarhau pobl neu ddiffygio cyfanrwydd ethos yr ysgol neu ddwyn anfri ar yr ysgol | | | | X | |

| Dylid ystyried y gweithgareddau canlynol pan fyddant yn cael eu cynnal at ddibenion nad ydynt yn rhai addysgiadol.<br><br>Efallai y bydd ysgolion yn dymuno ychwanegu rhagor o weithgareddau at y rhestr hon. | Staff ac oedolion eraill | | | | Dysgwyr: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ni chaniateir | Caniateir | Caniateir ar adegau penodol | Caniateir i staff penodol | Ni chaniateir | Caniateir | Caniateir ar adegau penodol | Caniateir gyda chaniatâd/ymwybyddiaeth staff |
| Gemau ar-lein | | | | | | | | |
| Siopa/masnach ar-lein | | | | | | | | |
| Rhannu ffeiliau | | | | | | | | |
| Y cyfryngau cymdeithasol | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Negeseuon/sgwrsio | | | | | | | | |
| Ffrydio adloniant ee Netflix, Disney+ | | | | | | | | |
| Darlledu fideos ee YouTube, Twitch, TikTok | | | | | | | | |
| Caniateir dod â ffonau symudol i'r ysgol | | | | | | | | |
| Defnyddio ffonau symudol i ddysgu yn yr ysgol | | | | | | | | |
| Defnyddio ffonau symudol yn ystod cyfnodau cymdeithasol yn yr ysgol | | | | | | | | |
| Tynnu lluniau ar ffonau symudol / camerâu | | | | | | | | |
| Defnyddio dyfeisiau personol eraill ee tabledi, dyfeisiau chwarae gemau | | | | | | | | |
| Defnyddio cyfeiriadau e-bost personol yn yr ysgol, neu ar rwydwaith yr ysgol | | | | | | | | |
| Defnyddio e-bost yr ysgol ar gyfer e-byst personol | | | | | | | | |
| Defnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial sydd heb gael eu cymeradwyo gan yr ysgol | | | | | | | | |

Efallai y bydd yr ysgol hefyd eisiau ychwanegu rhai o'r datganiadau polisi canlynol sy'n ymwneud â'r defnydd o dechnolegau cyfathrebu, yn hytrach na'r tabl uchod, neu yn ychwanegol iddo:

Wrth ddefnyddio technolegau cyfathrebu, mae'r ysgol yn ystyried yr arferion canlynol fel enghreifftiau o rai da:

- wrth gyfathrebu'n broffesiynol, dylai staff sicrhau bod yr offer cyfathrebu a ddefnyddiant yn cael eu cymeradwyo'n swyddogol gan yr ysgol

- mae'n rhaid i unrhyw gyfathrebu digidol rhwng y staff â'r dysgwyr neu rieni/gofalwyr (e-bost, cyfryngau cymdeithasol, platfform dysgu ac ati) fod yn broffesiynol o ran naws a chynnwys. *Ni ddylid defnyddio cyfeiriadau e-bost personol, negeseuon testun na chyfryngau cymdeithasol ar gyfer y math hwn o gyfathrebu.*
- dylid disgwyl i staff ddilyn arferion da wrth ddefnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol, a hynny er mwyn gwarchod eu henw da proffesiynol eu hunain, yn ogystal ag enw da'r ysgol a'i chymuned
- yn unol â pholisi'r ysgol, dylai dysgwyr roi gwybod i'r person enwebedig yn syth os ydynt yn cael unrhyw neges sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, os yw natur y neges yn sarhaus, yn wahaniaethol, yn fygythiol, neu'n neges sy'n bwlio. Ni ddylid ateb y fath negeseuon
- *dylid dilyn polisïau a chaniatâd perthnasol wrth bostio gwybodaeth ar-lein ee gwefan yr ysgol a' chyfryngau cymdeithasol. Dim ond cyfeiriadau e-bost yr ysgol y dylid eu defnyddio i adnabod aelodau o staff a dysgwyr.*

## Adrodd ac ymateb

Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar waith ar gyfer canfod a rhoi gwybod am achosion, neu achosion tybiedig, o broblemau/digwyddiadau diogelu ar-lein ac mae'n deall, oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant, bod ein staff mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol y materion hyn.

Rydym yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod bod ganddynt gyfrifoldeb i roi gwybod am faterion o'r fath a'u bod yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod, a'u bod yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr a allai ddatgelu materion o'r fath.

Rydym hefyd yn deall nad yw systemau adrodd bob amser yn ymateb i anghenion dysgwyr a bod angen i ni nodi problemau ac ymyrryd yn gynnar er mwyn diogelu dysgwyr yn well. *Er mwyn gwneud hyn, dylai ysgolion "gydnabod bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fynych iawn ym mywydau disgyblion ifanc a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ataliol a rhagweithiol i ddelio â'r mater." (Estyn, 2021)*

Dylai ysgolion ddeall bod ymddygiad ar-lein yn newid, mae risg y gall ysgolion, drwy dynnu sylw at ymddygiadau penodol, wthio plant a phobl ifanc yn anfwriadol tuag at yr union gynnwys y maent yn ceisio eu hamddiffyn ohono. Felly, dylid rhoi sylw penodol i'r modd y mae ysgolion yn rhannu gwybodaeth am heriau a storïau celwydd ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau ar Hwb.

Bydd yr ysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch ar-lein i holl ddefnyddwyr yr ysgol, ond mae'n cydnabod y gall digwyddiadau ddigwydd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol (gan effeithio ar yr ysgol) a fydd angen ymyrryd. Bydd yr ysgol yn sicrhau canlynol:

- bod llwybrau adrodd clir sy'n cael eu deall a'u dilyn gan holl aelodau cymuned yr ysgol sy'n gyson â gweithdrefnau diogelu'r ysgol, ac â pholisïau chwythu'r chwiban, cwynion a rheoli honiadau. (Efallai y bydd ysgolion yn dymuno ystyried defnyddio systemau adrodd ar-lein/dienw, y gall pob aelod o gymuned yr ysgol eu defnyddio)
- bydd holl aelodau cymuned yr ysgol yn cael gwybod am yr angen i roi gwybod ar unwaith am faterion/digwyddiadau diogelwch ar-lein
- ymdrinnir ag adroddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl eu cael
- bod gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig, yr Arweinydd Diogelwch Ar-lein a staff cyfrifol eraill y sgiliau a'r hyfforddiant priodol i ddelio â'r gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch ar-lein
- os oes unrhyw amheuaeth bod delweddau o gam-drin plant, unrhyw weithgarwch anghyfreithlon arall neu'r posibilrwydd o niwed difrifol yn rhan o'r digwyddiad (gweler y siart lif a'r siart camau gweithredu i ddefnyddwyr isod), rhaid uwchgyfeirio'r digwyddiad drwy weithdrefnau diogelu arferol yr ysgol a rhoi gwybod i'r heddlu. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid ynysu unrhyw ddyfais sy'n gysylltiedig i gefnogi ymchwiliad posibl gan yr heddlu. Yn ogystal â delweddau o gam-drin plant, byddai digwyddiadau o'r fath yn cynnwys:
  - digwyddiadau o feithrin perthynas i bwrpas rhyw (*grooming*)
  - anfon deunydd anweddus i blentyn
  - deunydd ar gyfer oedolion sydd o bosibl yn torri'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus
  - deunydd hiliol troseddol
  - hyrwyddo eithafiaeth neu derfysgaeth
  - ymddygiad, gweithgaredd neu ddeunydd troseddol arall
- bydd unrhyw bryder am gamddefnydd gan staff yn cael ei adrodd i'r Pennaeth ar unwaith, oni bai fod y pryder yn ymwneud â'r Pennaeth, ac os felly, caiff y gŵyn ei chyfeirio at Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r awdurdod lleol
- pan fydd Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio i ategu prosesau monitro a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, bydd goruchwyliaeth ddynol yn dal i gael ei defnyddio er mwyn dehongli cynildeb a chyd-destun na fyddai Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn eu synhwyro o bosibl
- cyn belled nad oes amheuaeth o weithgarwch anghyfreithlon, gellir gwirio dyfeisiau gan ddefnyddio'r gweithdrefnau canlynol:
  - dylai un neu fwy o aelodau staff uwch fod yn rhan o'r broses hon. Mae hyn yn hanfodol i amddiffyn unigolion os caiff y cyhuddiadau eu hadrodd yn ddiweddarach.
  - cynnal y weithdrefn gan ddefnyddio cyfrifiadur dynodedig na fydd yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr ac y gellir ei gludo oddi ar y safle gan yr heddlu os oes angen (pe digwydd i weithgarwch anghyfreithiol gael ei amau'n ddiweddarach). Defnyddio'r un cyfrifiadur drwy gydol y weithdrefn.
  - mae'n bwysig sicrhau bod gan staff perthnasol fynediad priodol i'r rhyngrwyd er mwyn iddynt allu cynnal y weithdrefn, ond bod y gwefannau a'r cynnwys yr ymwelir â hwy yn cael eu monitro'n agos a'u cofnodi (i ddarparu amddiffyniad pellach).

- cofnodi URL unrhyw safle sy'n cynnwys y camddefnydd honedig a disgrifio natur y cynnwys sy'n achosi pryder. Efallai y bydd rhaid hefyd gofnodi a chadw sgrinluniau o'r cynnwys ar y peiriant sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymchwiliad. Gallai'r rhain gael eu hargraffu, eu llofnodi a'u hatodi i'r ffurflen (ac eithrio mewn achosion o ddelweddau o gam-drin plant yn rhywiol - gweler isod).
- ar ôl i hyn gael ei gwblhau a'i archwilio'n llawn bydd angen i'r grŵp benderfynu a oes sylwedd i'r pryder hwn ai peidio. Os oes, bydd angen gweithredu'n briodol a gall hyn gynnwys y camau canlynol:
    - ymateb mewnol neu weithdrefnau disgyblu
    - ymwneud gan awdurdod lleol (fel y bo'n berthnasol)
    - ymwneud a/neu weithredu gan yr heddlu

- mae'n bwysig bod y rhai sy'n adrodd am ddigwyddiad diogelwch ar-lein yn hyderus y caiff yr adroddiad ei drin o ddifrif ac y delir ag ef yn effeithiol
- mae strategaethau cefnogi ar waith ee cymorth gan gymheiriaid ar gyfer y rheini sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiad diogelwch ar-lein neu sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiad o'r fath
- dylid cofnodi digwyddiadau (rhowch y manylion yma). (Mae templed o gofnod adrodd i'w weld yn yr atodiad, ond bydd llawer o ysgolion yn defnyddio cofnodion sy'n cael eu cynnwys gyda'u systemau gwybodaeth reoli (MIS).
- mae staff perthnasol yn ymwybodol o ffynonellau allanol o gymorth ac arweiniad wrth ddelio â materion diogelwch ar-lein, ee awdurdod lleol; yr heddlu; Llinell Gymorth i Weithwyr Proffesiynol ar Ddiogelwch Ar-lein; Rhoi Gwybod am Gynnwys Niweidiol; CEOP; Cadw'n ddiogel ar-lein ar Hwb
- bydd y rhai sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad yn derbyn adborth am ganlyniad yr ymchwiliad a chamau dilynol (fel y bo'n berthnasol)
- bydd dysgu o'r digwyddiad (neu batrwm o ddigwyddiadau) yn cael ei ddarparu (fel sy'n berthnasol ac yn ddienw) i'r:
    - *Grŵp Diogelwch Ar-lein i ystyried diweddariadau i bolisïau neu raglenni addysg ac i adolygu pa mor effeithiol yr ymdriniwyd â'r adroddiad*
    - *staff, drwy gyfarfodydd briffio rheolaidd*
    - *dysgwyr, drwy wasanaethau/gwersi*
    - *rhieni/gofalwyr, drwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, gwefan*
    - *llywodraethwyr, drwy ddiweddariadau diogelu rheolaidd*
    - *awdurdod lleol/asiantaethau allanol, fel y bo'n berthnasol*

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y siart llif isod ar gael i staff i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer delio â digwyddiadau diogelwch ar-lein.

Person Diogelu Dynodedig yn cael gwybod am ddigwyddiad Diogelwch Ar-lein[1]

Cymryd camau diogelu angenrheidiol ar unwaith i warchod unigolion

Deunyddiau neu weithgarwch amhriodol neu anaddas

Canfod/amau deunyddiau neu weithgarwch anghyfreithlon

Cynnull Cyfarfod Adolygu Digwyddiad Diogelu

Ymchwilio i ddigwyddiad a thrafod â'r dysgwr / staff / i gael gwybod beth ddigwyddodd

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am y digwyddiad, fel y mae'n berthnasol

Rhoi sylw i lesiant y rheini sy'n rhan o'r digwyddiad.

Sicrhau bod y Log Digwyddiadau yn cael ei ddiweddaru, a gwneud yn siŵr ei fod ar gael yn ôl yr angen

Adolygu polisïau a phrosesau, dod o hyd i gyfleoedd i ddysgu

Sicrhau bod diweddariadau i arferion yn cael eu rhannu â'r staff

Gweithredu newidiadau a monitro'r sefyllfa.

Llesiant plentyn a allai fod mewn perygl

Cynnwys staff, gwirfoddolwr neu oedolyn arall

Dilyn y trefniadau diogelu sydd wedi'u sefydlu, a rhoi gwybod i'r Heddlu ar unwaith

Cyfeirio at Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol, a dilyn prosesau AD

Cadw a diogelu tystiolaeth yn unol â chyngor yr Heddlu/y Swyddog Diogelu Dynodedig/Diogelu. Cofiwch, PEIDIWCH ag ymchwilio eich hun.

Aros am ymateb yr Heddlu

Os na ddaw cadarnhad o gynnwys neu weithgarwch anghyfreithlon, dylid cyfeirio at weithdrefnau mewnol

Os daw cadarnhad o gynnwys neu weithgarwch anghyfreithlon, caniatáu i'r Heddlu neu'r awdurdod perthnasol gwblhau eu hymchwiliad, a gofyn am gyngor gan y corff proffesiynol

Pan gaiff yr achos ei atgyfeirio at yr Heddlu, mae'n bosibl y bydd yr aelod o staff neu wirfoddolwr yn cael ei atal o'i rôl dros dro tra bydd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo. Gwnewch yn siŵr bod cyngor y Swyddog Diogelu Dynodedig a phrosesau AD yn cael eu rhoi ar waith a'u dilyn yn gywir bob amser

[1] Mae'r siart llif isod yn darparu proses amlinellol arfaethedig ar gyfer delio â digwyddiadau diogelwch ar-lein. Efallai y byddwch am ei addasu a'i gysoni ag arferion a pholisïau diogelu perthnasol i sicrhau bod dull cyson o ddelio â digwyddiadau diogelu yn eich lleoliad.

[2] Fel arfer bydd y Cyfarfod Adolygu Digwyddiad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad difrifol er mwyn penderfynu ar y camau nesaf, a bydd fel arfer yn dilyn unrhyw gamau diogelu brys sydd wedi cael eu cymryd (nodyn: mae'n bosibl na fydd angen Cyfarfod Adolygu Digwyddiad ar gyfer digwyddiadau llai difrifol).

**Camau gweithredu gan ysgolion**

Mae'n fwy tebygol mai'r ysgol fydd yn delio â digwyddiadau sy'n cynnwys camddefnydd amhriodol yn hytrach nag anghyfreithlon. Mae'n bwysig ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted â phosibl mewn modd cymesur, a bod aelodau o gymuned yr ysgol yn ymwybodol y deliwyd â ddigwyddiadau. Y bwriad yw ymdrin â digwyddiadau o gamddefnydd drwy weithdrefnau ymddygiad/disgyblu arferol fel a ganlyn: (bydd angen i'r ysgol gytuno ar eu hatebion a thicio'r colofnau perthnasol. Efallai y bydd hefyd am ychwanegu testun i'r golofn neu'r colofnau ar y chwith er mwyn egluro rhai materion. Mae ysgolion yn dweud bod y siartiau isod wedi bod yn ddefnyddiol mewn cyfarfodydd staff/sesiynau hyfforddiant).

# Ymateb i Gamau Gweithredu'r Dysgwyr

| Digwyddiadau | Cyfeirio at athro / tiwtor dosbarth | Cyfeirio at Bennaeth yr Adran / Prif Athro / Dirprwy Bennaeth | Cyfeirio at y Pennaeth | Cyfeirio at yr Heddlu/Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyfeirio at gymorth technegol yr awdurdod lleol i gael cyngor/camau gweithredu | Hysbysu rhieni/gofalwyr | Tynnu hawliau mynediad i'r rhwydwaith/rhyngrwyd/dyfeisiau | Rhoi rhybudd | Mwy o gosb, yn unol â pholisi ymddygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrchu'n fwriadol neu geisio cael mynediad at ddeunydd sy'n gallu cael ei ystyried yn anghyfreithlon (gweler y rhestr mewn adran gynharach ar weithgareddau anaddas/amhriodol). | | X | X | X | | | | | |
| Cael neu geisio cael mynediad at rwydwaith yr ysgol, gan ddefnyddio cyfrif defnyddiwr arall (staff neu ddysgwyr) neu ganiatáu i eraill gael mynediad at rwydwaith yr ysgol drwy rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau | | | | | | | | | |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill. | | | | | | | | | |
| Gyrru e-bost, testun neu neges sy'n cael ei ystyried yn un sarhaus, sy'n aflonyddu neu sydd â natur bwlio | | | | | | | | | |
| Lawrlwytho, lanlwytho, neu rannu ffeiliau heb awdurdod. | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol. | | | | | | | | | |
| Cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig ar ddamwain a pheidio hysbysu rhywun am y digwyddiad. | | | | | | | | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad at ddeunydd sarhaus neu bornograffig yn fwriadol. | | | | | | | | | |
| Cael neu drosglwyddo deunydd sydd yn torri hawlfraint person arall neu'n torri'r Ddeddf Diogelu Data. | | | | | | | | | |
| Defnyddio dyfeisiau digidol heb awdurdod (gan gynnwys tynnu lluniau) | | | | | | | | | |
| Defnyddio gwasanaethau ar-lein heb awdurdod | | | | | | | | | |
| Gweithgareddau a all ddwyn anfri ar yr ysgol neu ddifetha gonestrwydd neu ethos yr ysgol. | | | | | | | | | |
| Torri'r rheolau uchod yn barhaus, yn dilyn rhybuddion neu sancsiynau blaenorol. | | | | | | | | | |

# Ymateb i Gamau Gweithredu'r Staff

| Digwyddiadau | Cyfeirio at y rheolwr llinell | Cyfeirio at y Prif Athro/Pennaeth | Cyfeirio at awdurdod lleol/Ymddiriedolaeth Aml-academi/Adnoddau Dynol | Cyfeirio at yr Heddlu | Cyfeirio at yr Awdurdod Lleol / Staff Cymorth Technegol ar gyfer gweithredu o ran hidlo, ac ati | Rhoi rhybudd | Atal dros dro | Camau disgyblu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrchu'n fwriadol neu geisio cael mynediad at ddeunydd sy'n gallu cael ei ystyried yn anghyfreithlon (gweler y rhestr mewn adran gynharach ar weithgareddau anaddas/amhriodol). | | X | X | X | | | | |
| Gweithredoedd sy'n torri rheolau diogelu data neu seiberddiogelwch / rhwydwaith. | | | | | | | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad at ddeunydd sarhaus neu bornograffig yn fwriadol. | | | | | | | | |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill neu achosi difrod bwriadol i galedwedd neu feddalwedd. | | | | | | | | |
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol. | | | | | | | | |
| Lawrlwytho, lanlwytho, neu rannu ffeiliau heb awdurdod. | | | | | | | | |
| Torri rheoliadau hawlfraint / eiddo deallusol neu drwyddedu (gan gynnwys drwy ddefnyddio gwasanaethau | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol) | | | | | | | | |
| Caniatáu i eraill gael mynediad at rwydwaith ysgol drwy rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau neu geisio cael mynediad at rwydwaith yr ysgol neu gael mynediad ato, gan ddefnyddio cyfrif rhywun arall. | | | | | | | | |
| Gyrru e-bost, neges testun neu neges sy'n cael ei hystyried yn un sarhaus, sy'n aflonyddu neu sydd â natur bwlio. | | | | | | | | |
| Defnyddio negeseuon e-bost/rhwydweithio cymdeithasol personol i gyfathrebu'n ddigidol â dysgwyr a rhieni/gofalwyr. | | | | | | | | |
| Defnydd personol amhriodol o dechnolegau digidol ee cyfryngau cymdeithasol/ cyfeiriad e-bost personol. | | | | | | | | |
| Defnydd diofal o ddata personol / sensitif, ee dangos, dal neu drosglwyddo data mewn modd anniogel. | | | | | | | | |
| Camau gweithredu a allai beryglu statws proffesiynol yr aelod o staff. | | | | | | | | |
| Gweithgareddau a all ddwyn anfri ar yr ysgol neu ddifetha gonestrwydd neu ethos yr ysgol. | | | | | | | | |
| Peidio â rhoi gwybod am ddigwyddiadau, boed rheini wedi'u achosi gan weithredoedd bwriadol neu ddamweiniol. | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Torri'r rheolau uchod yn barhaus, yn dilyn rhybuddion neu sancsiynau blaenorol. | | | | | | | | |

## Defnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Ysgolion

Mae templed polisi manylach ar gael yn yr atodiadau, gan gynnwys matrics asesiad risg ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.

### Datganiad o fwriad

Mae technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) eisoes yn cael ei defnyddio'n eang mewn amgylcheddau masnachol ac mae'n dod yn fwyfwy cyffredin ym myd addysg. Rydym yn cydnabod bod integreiddio adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg yn rhoi inni lawer o gyfleoedd, gan gynnwys y potensial i wella profiadau addysgol a helpu staff gyda rhai tasgau gweinyddol. Fodd bynnag, wrth eu defnyddio, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, cyfrifoldeb, moeseg, ymddiriedaeth, diogelu data a chynwysoldeb.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod i systemau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eu risgiau eu hunain, ond bod modd lliniaru'r rhain drwy ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol, gan ddiwygio'r rhain yn ôl yr angen i roi sylw i'r risgiau hyn.

Byddwn yn addysgu staff a dysgwyr am sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn ffordd ddiogel a moesegol, gan eu paratoi ar gyfer dyfodol lle mae technolegau deallusrwydd artiffisial yn debygol o chwarae rhan gynyddol.

Fel bob amser, diogelu staff a dysgwyr fydd yn flaenllaw yn ein polisi a'n hymarfer.

### Datganiadau Polisi

- Mae'r ysgol yn cydnabod manteision posibl defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn cyd-destun addysgol - gan gynnwys gwella dysgu ac addysgu, gwella prosesau gweinyddol, rheoli llwyth gwaith, a pharatoi staff a dysgwyr am ddyfodol y bydd technoleg deallusrwydd artiffisial yn rhan annatod ohono. Anogir staff i ddefnyddio adnoddau sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i'w helpu gyda'u gwaith lle bo hynny'n briodol, o fewn y fframweithiau isod ac mae gofyn iddynt fod yn broffesiynol-gyfrifol ac atebol am y maes hwn o'u gwaith.
- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol, gan gyfeirio at y canllawiau yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

- Byddwn yn rhoi hyfforddiant perthnasol i staff *a llywodraethwyr* ar fanteision defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, sut gellir ei ddefnyddio a'r risgiau posibl. Byddwn yn helpu staff i weld pa anghenion hyfforddi a datblygu sydd ganddynt er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd perthnasol.
- Byddwn yn ceisio cynnwys gwersi am ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fel y bo'n briodol yn arlwy'r cwricwlwm, gan helpu dysgwyr i ddeall sut mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gweithio, beth yw ei fanteision, ei risgiau a'i effeithiau moesegol a chymdeithasol posibl. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd paratoi dysgwyr drwy roi iddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r strategaethau i allu defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gyfrifol.
- Fel y nodir yn y cytundeb defnydd derbyniol gan staff, bydd staff yn cael eu cefnogi i ymgysylltu ag adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gyfrifol, gan sicrhau bod data personol a sensitif yn cael ei ddiogelu.
- Bydd staff bob amser yn sicrhau bod adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a ddefnyddir yn cydymffurfio â GDPR y DU a rheoliadau diogelu data eraill, gan wirio gyda'r Swyddog Diogelu Data fod yr adnoddau'n cydymffurfio â safonau a osodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) cyn eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â'r ysgol.
- Bydd gofyn i'r holl staff ystyried yn ofalus cyn defnyddio unrhyw adnodd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a gofyn am farn uwch arweinwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd.
- Dylai staff bob amser ddefnyddio cyfrifon a ddarperir gan yr ysgol at ddibenion gwaith. Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu ffurfweddu i gydymffurfio â gofynion diogelwch a goruchwyliaeth y sefydliad, gan leihau'r risg y bydd rheolau data'n cael eu torri.
- Byddwn yn diogelu gwybodaeth sensitif. Ni fydd ysgolion nac ymarferwyr yn mewnbynnu unrhyw ddata personol, data dysgwyr neu wybodaeth sensitif neu gyfrinachol arall i adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau, pan gaiff deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ei ddefnyddio, na fydd yn tramgwyddo cytundebau eiddo deallusol na hawlfraint. Cymerir gofal i geisio sicrhau nad yw eiddo deallusol, gan gynnwys eiddo deallusol y dysgwyr, yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi modelau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol heb ganiatâd priodol.
- Rhaid i'r staff roi gwybod i'r timau mewnol perthnasol ar unwaith am unrhyw achosion o gamddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, torri rheolau data neu allbynnau amhriodol.
- Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r holl adnoddau sy'n cael eu defnyddio, eu diben a'u risgiau posibl. (Mae matricsau asesu risgiau ynghlwm fel atodiad)
- Rydym yn ymwybodol o'r risg bosibl o ragfarn a gwahaniaethu yn yr allbynnau gan adnoddau deallusrwydd artiffisial ac rydym wedi sefydlu ymyraethau a phrotocolau i ddelio ag unrhyw faterion a allai godi. Pan fyddwn yn caffael ac yn gweithredu systemau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, byddwn yn dilyn gofal a diwydrwydd dyladwy i flaenoriaethu tegwch a diogelwch.
- *Bydd yr ysgol yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut caiff deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ei ddefnyddio yn yr ysgol (gallai hyn fod drwy'r "Canllaw Deallusrwydd Artiffisial yn ein Hysgol")*

- *Os bydd staff yn defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i'w helpu yn eu hymarfer dysgu ac addysgu, gwneir hyn mewn ffordd bwrpasol, ystyriol, gyda ffocws clir ar sicrhau effaith a dealltwriaeth a lliniaru risgiau.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod dogfennau negeseuon e-bost, cyflwyniadau ac allbynnau eraill dan ddylanwad deallusrwydd artiffisial yn cynnwys labeli neu nodiadau clir sy'n nodi y cafwyd cymorth deallusrwydd artiffisial i'w cynhyrchu.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod yr holl gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei wirio a'i adolygu cyn cael ei rannu neu ei gyhoeddi er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gywir.*
- Bydd defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn ffordd amhriodol, gan gynnwys torri safonau diogelu data, camddefnyddio gwybodaeth sensitif, neu fethu â glynu wrth y cytundeb hwn, yn arwain at gamau disgyblu fel y diffinnir yn y Polisi Disgyblu Staff.

# Addysg

## Rhaglen Addysg Diogelwch Ar-lein

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein'. yn nodi:

"Mewn byd digidol lle mae technoleg bellach yn rhan annatod o lawer o agweddau ar ein bywydau, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ddatblygu'n unigolion sy'n ddigidol-gadarn. Mae cadernid digidol yn ymwneud â'r angen i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a strategaethau er mwyn i blant a phobl ifanc allu:

- rheoli eu profiad ar-lein yn ddiogel ac yn gyfrifol a diogelu eu hunaniaeth ddigidol ar yr un pryd
- nodi a lliniaru risgiau er mwyn cadw'n ddiogel rhag niwed ar-lein
- deall pwysigrwydd defnyddio ffynonellau dibynadwy a defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i adnabod camwybodaeth
- gofyn am help pan fydd ei angen arnynt
- dysgu o'u profiadau ac adfer pan fydd pethau'n mynd o chwith
- ffynnu a chael budd o'r cyfleoedd a gynigir gan y rhyngrwyd."

"Mae meithrin cadernid digidol ymhlith ein plant a'n pobl ifanc yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion cyflawn a chytbwys sy'n cydnabod effaith eu gweithredoedd. Mae sicrhau bod

> ein plant a'n pobl ifanc yn defnyddio technoleg yn gyfrifol er mwyn meithrin diwylliant lle nad yw'r rhyngrwyd yn amharu ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn hanfodol.
>
> Mae cefnogi datblygiad cymdeithasol a diwylliannol ein plant a'n pobl ifanc, gan gynnwys hyrwyddo gwerthoedd megis goddefgarwch a pharch tuag at eraill ym mhob amgylchedd, yn amcan cyffredinol arall yr aethom ati i'w gyflawni drwy ein gweithgareddau addysg diogelwch ar-lein."

Mae Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol gan gyfoedion, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol yn nodi:

> "Mae pobl ifanc yn profi cam-drin a chamfanteisio'n gynyddol ar-lein a/neu yn ddigidol. Bydd hyn yn fwy anodd i leoliadau addysg ei ganfod, gan fod rhywfaint ohono'n debygol o ddigwydd y tu allan i ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried effaith hyn ar fywydau pobl ifanc pan nad ydynt ar-lein."

Tra bo rheoleiddio ac atebion technegol yn bwysig iawn, rhaid i'w defnydd gael ei gydbwyso ag addysgu dysgwyr i weithredu'n gyfrifol. Mae addysgu dysgwyr am ddiogelwch ar-lein felly'n rhan hanfodol o ddarpariaeth diogelu'r ysgol. Mae angen cymorth a chefnogaeth yr ysgol ar ddysgwyr i adnabod ac osgoi risgiau i ddiogelwch ar-lein a datblygu eu gwytnwch.

Dylai diogelwch ar-lein fod yn ffocws ym mhob rhan o'r cwricwlwm a dylai staff atgyfnerthu negeseuon diogelwch ar-lein ar draws y cwricwlwm. Dylai'r cwricwlwm diogelwch ar-lein fod yn eang, yn berthnasol a darparu cynnydd, gyda chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol a bydd yn cael ei ddarparu yn y ffyrdd canlynol (efallai y bydd yn rhaid i ddatganiadau gael eu haddasu, yn dibynnu ar strwythur yr ysgol ac oedran y dysgwyr).

- cwricwlwm diogelwch ar-lein wedi'i gynllunio ar draws pob blwyddyn oedran ac ystod o bynciau, (ee DCF/ABCh/RSE/Iechyd a Lles) a dylid ailymweld â meysydd pwnc yn rheolaidd
- dylid atgyfnerthu negeseuon diogelwch ar-lein hanfodol fel rhan o raglen gwasanaethau boreol a gweithgareddau tiwtorial/bugeiliol sydd wedi'u chynllunio.
- mae'n cynnwys/defnyddio cynlluniau a chyfleoedd cenedlaethol perthnasol ee Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ac Wythnos Gwrth-fwlio
- bydd y rhaglen ar gael i ddysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd, fel y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheini sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae dysgwyr y credir eu bod mewn mwy o berygl ar-lein (ee plant mewn gofal, dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, dysgwyr sy'n profi colled neu drawma neu broblemau iechyd meddwl) yn cael addysg diogelwch ar-lein wedi'i thargedu neu wedi'i gwahaniaethu

- dylid addysgu dysgwyr ymhob gwers i fod yn ymwybodol iawn o'r cynnwys/deunyddiau maen nhw'n dod ar eu traws ar-lein, a'u harwain i ddilysu cywirdeb yr wybodaeth (gan gynnwys pan fydd yr wybodaeth wedi dod o wasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol)
- dylid addysgu dysgwyr i gydnabod ffynhonnell yr wybodaeth a ddefnyddir ac i barchu hawlfraint / eiddo deallusol wrth ddefnyddio deunydd a gafwyd ar y rhyngrwyd, yn enwedig drwy ddefnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol
- dylid helpu dysgwyr i allu adeiladu gwytnwch o ran radicaleiddio drwy ddarparu amgylchedd diogel i drafod materion dadleuol a'u helpu i ddeall sut gallant ddylanwadu a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Sylwer: mae dyletswyddau ychwanegol ar ysgolion o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, sy'n gofyn i ysgolion sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgol a deunyddiau eithafol ar y rhyngrwyd.
- *dylid helpu dysgwyr i ddeall yr angen am gytundeb defnydd derbyniol dysgwyr a'u hannog i fabwysiadu defnydd diogel a chyfrifol yn yr ysgol a'r tu allan iddi*
- *dylai staff weithredu fel modelau rôl o ran defnyddio technolegau digidol, y rhyngrwyd a dyfeisiau symudol.*
- *pan fydd gwersi wedi cael eu cynllunio i ddefnyddio'r rhyngrwyd, yr arfer gorau fyddai cyfeirio'r dysgwyr at wefannau sydd wedi'u gwirio fel eu bod yn addas i'w defnyddio a bod prosesau yn eu lle i ddelio ag unrhyw ddeunydd anaddas y maent yn dod ar ei draws wrth chwilio'r rhyngrwyd.*
- *pan fydd dysgwyr yn cael rhyddid i chwilio'r rhyngrwyd, dylai staff fod yn wyliadwrus wrth oruchwylio'r dysgwyr a monitro cynnwys y gwefannau/adnoddau (gan gynnwys systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol) y mae'r dysgwyr yn ymweld â nhw*
- *oherwydd rhesymau addysgiadol, rhaid derbyn o bryd i'w gilydd bod ar ddysgwyr angen ymchwilio pynciau a fyddai fel arfer yn cael eu gwahardd wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd (ee hiliaeth, cyffuriau, gwahaniaethu). Mewn sefyllfa o'r fath, gall staff ofyn i staff technegol (neu berson enwebedig arall) dynnu'r safleoedd hynny oddi ar y rhestr hidlo dros dro ar gyfer y cyfnod astudio. Dylid gallu archwilio unrhyw gais i wneud hyn, a dangos rhesymau clir dros yr angen.*
- bydd y rhaglen addysg diogelwch ar-lein yn cael ei harchwilio a'i gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau ansawdd y dysgu a'r canlyniadau.

## Cyfraniad Dysgwyr

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn nodi:

> "Pa mor ddiogel y mae dysgwyr yn teimlo? Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan blant yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed, a'r hawl i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau. i ba raddau y mae lleoliad addysg yn teimlo'n ddiogel i ddysgwyr yw gofyn iddynt ac arsylwi ar y ffordd y maent yn rhyngweithio â staff.."

Mae'r ysgol yn cydnabod, yn dysgu oddi wrth, ac yn defnyddio sgiliau a gwybodaeth dysgwyr wrth ddefnyddio technolegau newydd. Rydym yn cydnabod y potensial i hyn siapio'r strategaeth diogelwch ar-lein ar gyfer cymuned yr ysgol a sut mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad personol pobl ifanc. Caiff eu cyfraniad ei gydnabod drwy: (diwygiwch fel bo'n berthnasol)

- *dulliau i gasglu adborth a barn dysgwyr.*
- *penodi arweinwyr digidol/llysgenhadon gwrth-fwlio/mentoriaid cymheiriaid (neu grwpiau tebyg)*
- *mae gan y Grŵp Diogelwch Ar-lein gynrychiolaeth o blith dysgwyr*
- *mae dysgwyr yn cyfrannu at y rhaglen addysg diogelwch ar-lein ee. addysg i gymheiriaid, arweinwyr digidol yn arwain gwersi i ddysgwyr iau, ymgyrchoedd diogelwch ar-lein*
- *dysgwyr yn dylunio/diweddaru cytundebau defnydd derbyniol*
- *cyfrannu'n weithredol at ddigwyddiadau diogelwch ar-lein gyda chymuned ehangach yr ysgol ee. nosweithiau rhieni, rhaglenni dysgu teuluol ac ati.*

## Staff/gwirfoddolwyr

Mae'n hanfodol bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelwch ar-lein ac yn deall eu cyfrifoldebau, fel yr amlinellir yn y polisi hwn. Bydd yr hyfforddiant canlynol yn cael ei gynnig: (dewis/dileu fel bo'n briodol)

- bydd rhaglen ffurfiol o hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein, seiberddiogelwch, a diogelu data ar gael i'r holl staff. Caiff y rhaglen hon ei diweddaru a'i hategu. Cynhelir archwiliad o anghenion hyfforddiant diogelwch ar-lein yr holl staff yn gyson. *Disgwylir y bydd rhai o'r staff yn nodi anghenion hyfforddiant diogelwch ar-lein o dan y broses rheoli perfformiad*
- bydd yr hyfforddiant yn rhan annatod o hyfforddiant diogelu / diogelu data a seiberddiogelwch blynyddol yr ysgol ar gyfer yr holl staff
- bydd pob aelod newydd o staff gael hyfforddiant diogelwch ar-lein fel rhan o'r rhaglen gynefino er mwyn sicrhau eu bod yn deall polisi diogelwch ar-lein a chytundebau defnydd derbyniol yr ysgol yn llwyr. Mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at reoli ystafell ddosbarth, ymddygiad proffesiynol, enw da ar-lein a'r angen i fodelu ymddygiad cadarnhaol
- *bydd yr Arweinydd Diogelwch Ar-lein a'r Person Diogelu Dynodedig yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd trwy fynychu hyfforddiant allanol (ee. Digwyddiadau Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb, gan y Consortiwm Rhanbarthol/SWGfL/ALl/sefydliadau perthnasol eraill) a thrwy adolygu dogfennau sy'n cynnig arweiniad gan sefydliadau perthnasol eraill.*
- *bydd y Polisi Diogelwch Ar-lein a'r diweddariadau iddo, yn cael ei gyflwyno i staff er mwyn iddynt ei drafod mewn cyfarfodydd staff/tîm neu ddiwrnodau HMS.*
- *bydd yr Arweinydd Diogelwch Ar-lein (neu berson penodedig arall) yn darparu cyngor/arweiniad/hyfforddiant i unigolion yn ôl yr angen.*

## Llywodraethwyr

**Dylai llywodraethwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant/sesiynau ymwybyddiaeth diogelwch ar-lein,** yn enwedig y rhai sy'n aelodau o unrhyw is-bwyllgor/grŵp sy'n gysylltiedig â thechnoleg/diogelwch ar-lein/iechyd a diogelwch/diogelu. Gellir cynnig hyn mewn sawl ffordd:

- Hyfforddiant Hwb – Diogelwch ar-lein ar gyfer llywodraethwyr
- bod yn bresennol mewn hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu sefydliad perthnasol arall (ee SWGfL).
- cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant/gwybodaeth yr ysgol i staff neu rieni (gall hyn olygu bod yn bresennol mewn gwasanaethau boreol/gwersi).

Bydd lefel uwch o hyfforddiant ar gael i'r Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein (o leiaf), a dylai gynnwys hyfforddiant ar systemau monitro a hidlo a ddefnyddir gan yr ysgol, diogelu data, seiberddiogelwch a datblygiadau newydd ym maes technolegau digidol.

Dylai ysgolion ystyried darparu cyfrif Hwb i bob llywodraethwr er mwyn defnyddio'r offer a'r gwasanaethau diogel sydd ar gael ee Microsoft Outlook, Teams ac ati yn ogystal â darparu hyfforddiant penodol ar raglenni. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen i lywodraethwyr ddefnyddio cyfrifon e-bost personol, gan leihau'r risg i ddata.

## Teuluoedd

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein'. yn nodi:

> "Mae meithrin cadernid digidol yn ein plant a'n pobl ifanc hefyd yn dibynnu ar gadernid ein teuluoedd a'n cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i feithrin a hyrwyddo'r defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg i blant a phobl ifanc drwy sicrhau bod strwythur cymorth o'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n fedrus a theuluoedd yn ymwybodol o sut i gefnogi eu plant yn eu bywydau ar-lein. Ein bwriad yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed drwy gefnogi teuluoedd, ymarferwyr, llywodraethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i greu diwylliant lle mae cadw plant yn ddiogel ar-lein yn fusnes i bawb."

Dim ond dealltwriaeth gyfyng iawn o risgiau a materion diogelwch ar-lein sydd gan lawer o rieni a gofalwyr, ond maent yn chwarae rhan hanfodol yn addysg eu plant ac mewn monitro/rheoleiddio ymddygiad eu plant ar-lein. Mae'n debygol nad yw rhieni'n sylweddoli pa mor aml mae plant a phobl ifanc yn dod ar draws deunydd amhriodol a all fod yn niweidiol ar-lein, ac nad ydynt yn siŵr sut i ymateb.

Bydd yr ysgol yn ceisio darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr a chodi eu hymwybyddiaeth trwy: (dewis/dileu fel bo'n briodol)

- *cyfathrebu, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion diogelwch ar-lein, gweithgareddau'r cwricwlwm a llwybrau adrodd*
- *cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ar faterion diogelwch ar-lein drwy weithdai ymwybyddiaeth/ nosweithiau rhieni/gofalwyr ac ati*
- *y dysgwyr – annog nhw i drosglwyddo i'w rhieni y negeseuon diogelwch ar-lein maen nhw wedi'u dysgu mewn gwersi a gan ddysgwyr sy'n arwain sesiynau mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr.*
- *llythyrau, cylchlythyrau, gwefan, platfform dysgu, Hwb*
- digwyddiadau/ymgyrchoedd amlwg *ee Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel*
- cyfeirio at y gwefannau/cyhoeddiadau perthnasol*, ee Hwb Cadw'n ddiogel ar-lein, The UK Safer Internet Centre Childnet International (gweler yr Atodiad am ragor o ddolenni/adnoddau).*
- *Rhannu arferion da gydag ysgolion eraill mewn clystyrau a/neu'r awdurdod lleol*

## Oedolion ac Asiantaethau

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein' yn defnyddio'r wybodaeth hunanadolygu y mae ysgolion yng Nghymru yn ei chofnodi yn adnodd 360 safe Cymru. Mae'r data hyn yn dangos bod ysgolion sy'n dangos y perfformiad cryfaf, ymysg dangosyddion eraill,

*'yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y negeseuon pwysig hyn ynglŷn â diogelwch ar-lein, yn aml drwy'r dysgwyr eu hunain sy'n rhannu'r negeseuon a ddysgwyd yn yr ysgol. Bydd yr ysgol hefyd yn rhannu ei harferion da â'r gymuned ehangach ac ysgolion eraill a bydd yn defnyddio'r adnoddau cymunedol gwerthfawr sydd ar gael iddynt gan asiantaethau megis yr heddlu'.*

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, bydd yr ysgol yn darparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol lleol ac aelodau o'r gymuned ehangach allu elwa o wybodaeth a phrofiad diogelwch ar-lein yr ysgol. Bydd hyn yn cael ei gynnig drwy sawl ffordd:

- darparu cyrsiau i deuluoedd ddysgu defnyddio technolegau digidol newydd a diogelwch ar-lein
- negeseuon diogelwch ar-lein sy'n targedu teuluoedd a pherthnasoedd.
- bydd yr ysgol yn darparu gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein i'r gymuned ehangach drwy ei phlatfform dysgu, ei gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- cefnogi grwpiau cymunedol ee sefydliadau blynyddoedd cynnar, gwarchodwyr plant, grwpiau ieuenctid/chwaraeon/gwirfoddol i wella eu darpariaethau diogelwch ar-lein (dylai lleoliadau blynyddoedd cynnar gyfeirio at y Pecyn Cymorth Diogelwch Ar-lein i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar)

Mae'r ysgol yn cydnabod y gefnogaeth a'r cyngor y gall grwpiau ac asiantaethau allanol eu darparu ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad at raglenni a digwyddiadau'r ysgol.

*Mae'r ysgol wedi ymrwymo i rannu ei harferion da gydag ysgolion a lleoliadau addysg eraill.*

# Technoleg

Os oes gan yr ysgol wasanaeth TGCh wedi'i reoli a ddarperir gan gontractwr allanol, cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod darparwr y gwasanaeth a reolir yn cyflawni'r holl fesurau amddiffyn a diogelwch ar-lein a fyddai fel arall yn gyfrifoldeb yr ysgol. Mae hefyd yn bwysig bod darparwr y gwasanaeth a reolir yn gwbl ymwybodol o Bolisi Diogelwch Ar-lein a chytundebau defnydd derbyniol yr ysgol a bod gan yr ysgol Gytundeb Prosesu Data mewn grym gyda'r darparwr. Dylai'r ysgol hefyd wirio polisïau ei hawdurdod lleol/corff perthnasol arall ar y materion technegol a diogelu data hyn os nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod. Bydd angen i'r ysgol hefyd sicrhau bod ei Hasesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn cyfeirio at y contract hwn.

Yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod isadeiledd a rhwydwaith yr ysgol mor ddiogel ag sy'n rhesymol bosib a bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu cymeradwyo yn y polisi hwn yn cael eu gweithredu. Dylai'r ysgol sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ac dylai esbonio bod pawb yn gyfrifol am ddiogelwch ar-lein a diogelu data. (Bydd gan ysgolion seilwaith technegol a syniadau gwahanol iawn am sut i ymdrin â'r materion technegol hyn - felly mae'n hanfodol bod yr adran hon yn cael ei thrafod yn llawn gan ystod eang o staff - staff technegol, addysgiadol a gweinyddol, cyn cytuno ar y datganiadau hyn a'u hychwanegu at y polisi). Mae templed manylach o bolisi diogelwch technegol yn yr Atodiad.

## Hidlo

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn nodi:

> 7.7. "Mae'n hollbwysig bod safonau hidlo yn addas i'r diben ar gyfer dysgu ac addysgu yr unfed ganrif ar hugain, gan ganiatáu'r mynediad sydd ei angen ar ysgolion a diogelu plant a phobl ifanc ar yr un pryd. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod hidlyddion priodol a systemau monitro priodol ar waith a chyfeirio at safonau hidlo'r we fel rhan o Safonau Digidol Addysg i ysgolion yng Nghymru. Nod y safonau yw helpu ysgolion i ddarparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol i ddysgu ynddo, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol."

- mae uwch arweinwyr a staff technegol yn cytuno ar bolisïau hidlo'r ysgol, ac mae systemau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd mewn ymateb i newidiadau mewn technoleg a phatrymau o ddigwyddiadau ac ymddygiadau diogelwch ar-lein

- mae'r ysgol yn rheoli mynediad at gynnwys ar draws ei systemau i bob defnyddiwr. Mae'r rheolau hidlo sydd ar waith yn bodloni'r safonau a nodir yn Safonau a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hidlo'r we mewn ysgolion a Rheolau hidlo priodol yr UK Safer Internet Centre. (Bydd angen i'r ysgol benderfynu ar rinweddau darpariaeth allanol/mewnol y gwasanaeth hidlo - gweler yr Atodiad).
- mae mynediad pob defnyddiwr i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo.
- mae cynnwys anghyfreithlon (ee delweddau lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol) yn cael ei hidlo gan ddarparwr y gwasanaeth hidlo neu'r darparwr band eang drwy ddefnyddio rhestr CAIC yr Internet Watch Foundation yn ogystal â rhestr yr heddlu o gynnwys terfysgol anghyfreithlon, a gynhyrchir ar ran y Swyddfa Gartref. Mae rhestrau cynnwys yn cael eu diweddaru'n rheolaidd (Cofiwch am y dyletswyddau ychwanegol ar ysgolion o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 sy'n gofyn i ysgolion sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgol ac eithafol ar-lein - gweler yr Atodiad am wybodaeth ar 'hidlo/monitro priodol')
- mae llwybrau sefydledig ac effeithiol sy'n galluogi defnyddwyr i roi gwybod am gynnwys amhriodol a gweithredir ar hyn mewn modd amserol gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig wrth gadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru
- gweithredir proses glir sy'n delio â cheisiadau am newidiadau hidlo (gweler yr Atodiad am ragor o fanylion).
- mae'r ysgol wedi darparu hidlyddion gwell/gwahaniaethol ar lefel defnyddwyr (sy'n caniatáu lefelau hidlo gwahanol i wahanol oedrannau/cyfnodau a gwahanol grwpiau defnyddwyr: staff/dysgwyr ayb)
- bydd dysgwyr iau yn defnyddio peiriannau chwilio sy'n addas i'r oedran/plentyn *ee* Google safe search, SWGfL Swiggle
- mae dull priodol a chytbwys o ddarparu mynediad at gynnwys ar-lein yn ôl rôl a/neu angen
- mae logiau hidlo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn rhybuddio'r ysgol am achosion o dorri'r polisi hidlo, er mwyn gweithredu arnynt.
- *bydd Mae dyfeisiau a ddarperir gan yr ysgol yn cynnwys hidlyddion yn yr ysgol beth bynnag yw eu lleoliad.*
- *lle caniateir defnyddio dyfeisiau symudol personol, mae gwahaniad clir rhwng hidlydd rhwydwaith yr ysgol a'r hidlydd rhwydwaith gwesteion cysylltiedig.*
- *mae'r system yn rheoli mynediad at gynnwys drwy wasanaethau heblaw am borwr (ee apiau a thechnolegau symudol eraill)*

Os bydd angen, bydd yr ysgol yn gofyn am gyngor gan safle Riportio Cynnwys Niweidiol SWGfL ac yn riportio digwyddiadau yna hefyd.

# Monitro

Mae'r ysgol yn monitro traffig y rhwydwaith ar lefel leol, yn dilyn canllawiau Monitro Priodol yr UK Safer Internet Centre ac yn diogelu defnyddwyr a systemau'r ysgol drwy'r canlynol:

- mae polisïau monitro'r ysgol yn derbyn sêl bendith uwch arweinwyr a staff technegol, ac mae'r systemau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn ymateb i newidiadau ym myd technoleg a phatrymau mewn ymddygiad a digwyddiadau diogelwch ar-lein.
- arweinydd staff sy'n gyfrifol am reoli'r strategaeth a'r prosesau monitro.
- monitro corfforol (oedolion yn goruchwylio yn yr ystafell ddosbarth)
- logio defnydd o'r rhyngrwyd, ac mae hynny'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd
- *mae dyfeisiau a ddarperir gan yr ysgol yn cael eu monitro yn yr ysgol, beth bynnag fo'u lleoliad.*
- caiff cofnodion monitro a hidlo eu dadansoddi'n rheolaidd ac adroddir am achosion o dorri rheolau i uwch arweinwyr
- mae monitro yn galluogi rhybuddion i gael eu paru â defnyddwyr a dyfeisiau.
- mae proses glir ar gyfer blaenoriaethu ymateb i rybuddion sy'n gofyn am ymyriad diogelu cyflym.
- mae rheoli rhybuddion diogelu difrifol yn gyson â pholisi ac arfer diogelu.
- *pan ddefnyddir prosesau monitro â chymorth Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, bydd y pwrpas a'r cwmpas yn cael eu cyfleu'n eglur*
- *mae rhybuddion rhagweithiol yn rhoi gwybod i'r ysgol am achosion o dorri'r polisi hidlo, gan ganiatáu ymyrraeth effeithiol.*
- *lle bo modd, mae staff technegol yr ysgol yn monitro ac yn cofnodi gweithgarwch defnyddwyr ar systemau technegol yr ysgol yn rheolaidd*

Mae defnyddwyr yn cael gwybod, drwy'r cytundebau defnydd derbyniol, bod y monitro hyn ar waith. (efallai bydd ysgolion yn dymuno ychwanegu manylion y rhaglenni monitro a ddefnyddir).

# Diogelwch Technegol

Efallai bydd ysgolion yn dymuno mabwysiadu polisi diogelwch technegol manylach ac mae templed o bolisi o'r fath yn yr atodiad – Templed Polisi Diogelwch Technegol. Dylent hefyd ddarllen y canllawiau sydd ar gael yn yr adran ar Safonau Digidol Addysg ar Hwb.

Mae gan yr ysgol bolisi diogelwch technegol clir, a bydd systemau yn cael eu rheoli mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion technegol sy'n cael eu hawgrymu (efallai bod amlinelliad o'r rhain ym mholisi ac arweiniad yr awdurdod lleol a chyrff perthnasol arall):

- mae hyfforddiant diogelwch systemau ar gael i bob defnyddiwr staff

- bydd adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o ddiogelwch systemau technegol yr ysgol a chymorth technegol yr ysgol
- mae gweinyddion, systemau diwifr a cheblau yn cael eu cadw mewn lle diogel a dylid cyfyngu ar fynediad pobl atynt
- mae trefniadau wrth gefn cadarn a dilys, gan gynnwys cadw copïau oddi ar y safle neu yn y cwmwl, a brydd y rhain yn gadarn drwy eu dyluniad (mae hyn yn arfer da i helpu i atal colli data o ymosodiadau meddalwedd gwystlo)
- bydd gan bob defnyddiwr hawliau mynediad i systemau technegol a dyfeisiau'r ysgol, sydd wedi cael eu diffinio'n glir. Bydd Rheolwr y Rhwydwaith (neu unigolyn arall) yn cofnodi manylion yr hawliau mynediad sydd ar gael i grwpiau o ddefnyddwyr. Bydd y Grŵp Diogelwch Ar-lein (neu grŵp arall) yn adolygu'r rhain unwaith y flwyddyn o leiaf
- Dylai model rheoli mynediad wedi ei ddogfennu fod yn ei le, sy'n diffinio hawliau mynediad i systemau a dyfeisiau'r ysgol yn glir. Dylid adolygu hyn yn flynyddol. Mae gan bob defnyddiwr (staff a dysgwyr) gyfrifoldeb am ddiogelwch eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair ac ni ddylent ganiatáu i ddefnyddwyr eraill gael mynediad i'r systemau gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi. Gallai rhannu cyfrineiriau neu enw defnyddiwr a chyfrineiriau arwain at drosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Rhaid i ddefnyddwyr roi gwybod ar unwaith am unrhyw amheuaeth neu dystiolaeth y bu tor diogelwch
- bydd holl rwydweithiau a systemau'r ysgol yn cael eu diogelu gan gyfrineiriau diogel. Ni ddylid rhannu cyfrineiriau ag unrhyw un. Bydd xxxxx (rhowch enw neu deitl) yn rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair i bawb a bydd yn cadw cofnod cyfredol o ddefnyddwyr a'u henwau defnyddwyr (gweler yr adran ar greu cyfrineiriau yn y 'templed o bolisi diogelwch technegol' yn yr Atodiad)
- mae cyfrineiriau prif gyfrifon systemau'r ysgol yn cael eu cadw mewn man diogel ee sêff dan glo yr ysgol. Mae'n syniad da defnyddio dull dilysu dau ffactor ar gyfer cyfrifon o'r fath (ceir rhagor o ganllawiau yn y 'templed o bolisi diogelwch technegol' yn yr Atodiad)
- mae systemau ar waith ar gyfer adfer/ailosod cyfrineiriau
- dylai cyfrineiriau fod yn hir. Mae arferion da yn nodi bod cyfrineiriau sy'n cynnwys dros 12 nod yn anoddach i'w cracio. Mae cyfrineiriau sy'n defnyddio cyfuniad o eiriau nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd, ac sy'n cynnwys dros 16 nod yn arbennig o anodd eu dyfalu. Mae cyfrineiriau hir yn fwy diogel nag unrhyw ofynion arbennig eraill fel llythrennau bach a phriflythrennau, rhifau a nodau arbennig. Dylid annog defnyddwyr i beidio â defnyddio rhifau mewn trefn neu batrwm o rifau yn eu cyfrineiriau. Dylai cyfrineiriau/codau cyfrin fod yn hawdd eu cofio ond yn anodd eu dyfalu. Edrychwch ar y Canllaw i deuluoedd ar seiberddiogelwch i gael rhagor o wybodaeth.
- Dim ond os bydd hynny'n angenrheidiol, mae modd cadw cofnod o enwau defnyddwyr a chyfrineiriau dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen ar ffurf electronig neu bapur, ond mae'n rhaid iddynt gael eu storio'n ddiogel pan na fydd y defnyddiwr eu hangen. *Ni ddylai cyfrineiriau fod mor gymhleth ar gyfer y cyfnod sylfaen (er enghraifft, o leiaf 8 nod) ac ni ddylent gynnwys nodau*

*arbennig. Pan fydd gan systemau allanol wahanol ofynion o ran cyfrineiriau, dylid annog defnyddio geiriau neu ymadroddion ar hap*

- dylai gofynion cyfrineiriau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 ac uwch gynyddu wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r ysgol
- mae (nodwch enw neu deitl swydd) yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion trwyddedau meddalwedd yn gywir ac wedi'u diweddaru ac y gwneir archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod nifer y trwyddedau a brynwyd yn cyfateb i nifer y cyfrifiaduron y gosodwyd meddalwedd arnynt (Gallai nifer annigonol o drwyddedau olygu bod yr ysgol yn torri'r Ddeddf Hawlfraint, a gallai hynny arwain at ddirwyon neu gostau trwyddedu annisgwyl. Ni ddylai fod angen i ysgolion sy'n defnyddio Hwb yn unig ac nad oes ganddynt gynhyrchion trwyddedig eraill greu na chynnal y cofnodion hyn)
- mae system briodol yn ei lle (dylid ei disgrifio) er mwyn i ddefnyddwyr adrodd wrth y person priodol am unrhyw ddigwyddiadau gwirioneddol neu bosib o dorri rheolau diogelwch ar-lein, fel y cytunwyd
- mae mesurau diogelwch yn eu lle (efallai y bydd ysgolion eisiau darparu rhagor o fanylion ac y bydd angen gofyn i'r darparwr gwasanaeth neu'r partner cymorth technoleg addysg ynglŷn â hyn) i ddiogelu'r gweinyddwyr, muriau gwarchod, llwybryddion, systemau di-wifr, gweithfannau, dyfeisiau symudol ac ati rhag unrhyw ymgais ddamweiniol neu faleisus a allai fygwth diogelwch systemau a data'r ysgol. Mae'r rhain yn cael eu profi'n gyson. Mae seilwaith a gweithfannau unigol yr ysgol yn cael eu diogelu gan feddalwedd firws cyfredol.
- Mae systemau a meddalwedd rhaglenni'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda chlytiau diogelwch
- mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) i ddarparu mynediad dros dro i systemau'r ysgol i "westeion" (ee athrawon dan hyfforddiant, athrawon llanw, ymwelwyr)
- mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) ynghylch faint o ddefnydd personol y caniateir i ddefnyddwyr (staff/dysgwyr/defnyddwyr cymunedol) ac aelodau eu teulu ei gael ar ddyfeisiau'r ysgol wrth eu defnyddio y tu allan i'r ysgol
- mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) sy'n caniatáu neu'n gwahardd staff rhag lawrlwytho ffeiliau gweithredadwy a gosod rhaglenni ar ddyfeisiau'r ysgol.
- mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau symudol (ee cof bach/CDs/DVDs) ar ddyfeisiau'r ysgol.
- mae systemau ar waith sy'n atal data personol / sensitif rhag cael ei rannu heb awdurdod, oni bai fod y data wedi cael ei amgryptio'n ddiogel neu ei ddiogelu drwy ddull arall. (Gweler templed polisi data personol ysgolion yn yr atodiad am ragor o fanylion). Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol er mwyn osgoi mewnbynnu gwybodaeth sensitif – fel data personol, cynlluniau strategol neu ddogfennau mewnol – mewn systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol trydydd parti, oni bai eu bod

wedi cael eu harchwilio'n benodol at y diben hwnnw. Rhaid i staff adnabod a diogelu data sensitif bob amser.

- defnyddir amgryptio ar gyfer trosglwyddo data sensitif neu fregus ac ar ddyfeisiadau a reolir gan yr ysgol
- defnyddir dilysu ffactor deuol ar gyfer data sensitif neu fynediad y tu allan i rwydwaith dibynadwy
- pan fydd systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn cael eu defnyddio ar gyfer diogelwch technegol, bydd eu heffeithiolrwydd yn cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i fonitro'n gyson am wendidau.
- pan fydd systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn cael eu defnyddio, bydd yr ysgol yn gweithio gyda chyflenwyr i ddeall sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu hyfforddi, a bydd yn mynd ati'n gyson i adolygu digwyddiadau wedi'u fflagio er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bob defnyddiwr – ee, osgoi rhagfarn.

## Dyfeisiau

Gall dyfeisiau technoleg symudol fod yn eiddo i/cael eu darparu gan yr ysgol neu fod yn eiddo personol. Gall y rhain gynnwys: ffôn clyfar, tabled, dyfeisiau clyfar y gellir eu gwisgo, gliniadur neu dechnoleg arall sydd fel rheol yn gallu defnyddio rhwydwaith di-wifr yr ysgol. Felly, mae gan y ddyfais fynediad i'r rhyngrwyd ehangach, a all gynnwys platfform dysgu'r ysgol a gwasanaethau eraill ar y cwmwl, fel e-bost a storio data.

Dylai'r holl ddefnyddwyr ddeall mai prif bwrpas defnyddio dyfeisiau symudol/personol yng nghyd-destun ysgol yw at ddibenion addysgol. Dylai'r polisi dyfeisiau fod yn gyson ac yn rhyng-gysylltiedig â pholisïau eraill perthnasol yr ysgol, gan gynnwys y polisïau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt – diogelu, ymddygiad, gwrth-fwlio, defnydd derbyniol, a pholisïau perthnasol i ddwyn neu ddifrod maleisus. Dylid cynnwys addysgu am ddefnydd diogel a phriodol o ddyfeisiau fel rhan o raglen addysgol ynglŷn â diogelwch ar-lein yr ysgol.

Wrth baratoi polisi dyfeisiau, dylai'r ysgol ystyried y problemau a'r risgiau posib. Gallai hyn gynnwys:

- risgiau diogelwch o ran caniatáu cyswllt â rhwydwaith eich ysgol
- hidlo dyfeisiau personol
- offer yn torri ac yswiriant
- mynediad i ddyfeisiau i'r holl ddysgwyr
- osgoi tarfu posib ar yr ystafell ddosbarth
- cyflymder cyswllt y rhwydwaith, y mathau o ddyfeisiau
- cyfleusterau gwefru
- cyfanswm cost perchnogaeth.

Cyn gweithredu polisi dyfeisiau, rhaid i ysgolion gynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) (mae'r dudalen yn cynnwys dolen i Asesiad sampl). Pe bai'r Asesiad yn canfod risg uchel i ddata personol nad oes modd ei reoli, yna mae'n rhaid i'r ysgol roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y risg weddillol hon ac fe'ch cynghorir i beidio â bwrw ymlaen â hynny. Y sefyllfa ddelfrydol yw bod ysgolion yn dod o hyd i ddull addas o gael mynediad o bell (fel VPN) sy'n rhoi mynediad diogel a saff i staff at ddata personol.

Mae'n bosib gweithredu amrywiaeth o ddyfeisiau.

I ddarllen mwy am hyn, trowch at Addysg - canllawiau digidol i ysgolion a'r canllawiau Dod â'ch Dyfais eich Hun gan Lywodraeth Cymru.

Mae templed manylach o bolisi dyfeisiau i'w weld yn yr Atodiad Templed Polisi Rheoli Dyfeisiau. Fodd bynnag, gall yr ysgol ddewis yn hytrach gynnwys yr agweddau hyn o'r polisi mewn cytundeb defnydd derbyniol cynhwysfawr, yn hytrach na mewn polisi dyfeisiau ar wahân. Awgrymir bod yr ysgol yn amlinellu prif bwyntiau eu polisi yn y ddogfen bolisi gyffredinol hon. Mae rhestr wirio o bwyntiau i'w hystyried wedi'i chynnwys isod.

- Mae cytundebau defnydd derbyniol yr ysgol ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn amlinellu'r disgwyliadau ynghylch defnyddio dyfeisiau.
- Mae'r ysgol yn caniatáu'r canlynol: (dylai'r ysgol lenwi'r tabl isod i ddynodi pa ddyfeisiadau a ganiateir ac i ddiffinio eu mynediad i systemau ysgol).

| | Eiddo'r ysgol ar gyfer defnyddiwr unigol | Eiddo'r ysgol ar gyfer nifer o ddefnyddwyr | Dyfeisiau awdurdodedig[7] | Eiddo myfyriwr | Eiddo staff | Eiddo ymwelydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy/Nac ydy[8] | Ydy/Nac ydy[8] | Ydy/Nac ydy[8] |
| Cysylltiad llawn i'r rhwydwaith | Oes | Oes | Oes | | | |

[7] Dyfeisiau awdurdodedig – prynwyd gan y dysgwr/teulu drwy gynllun a drefnir gan yr ysgol. Gellir rhoi mynediad llawn i'r rhwydwaith i'r ddyfais yma, fel pe bai'n eiddo i'r ysgol.

[8] Dylai'r ysgol ychwanegu isod unrhyw ofynion penodol o ran defnyddio dyfeisiau personol yn yr ysgol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyngrwyd yn unig | | | | | | |
| Dim mynediad rhwydwaith | | | | | | |

Agweddau y bydd yr ysgol o bosib am eu hystyried a'u cynnwys yn eu Polisi Diogelwch Ar-lein, polisi dyfeisiau neu gytundebau defnydd derbyniol:

Dyfeisiau sy'n eiddo i/cael eu darparu gan yr ysgol:

- *i bwy fyddant yn cael eu dosbarthu*
- *ble, pryd a sut y caniateir eu defnyddio – amseroedd/lleoliadau/y tu allan i'r ysgol (nodwch yr angen i rai ardaloedd gael eu nodi'n glir fel parthau dim dyfeisiau symudol)*
- *a yw defnydd personol yn cael ei ganiatáu*
- *lefelau mynediad i'r rhwydweithiau/rhyngrwyd (gweler uchod)*
- *rheoli dyfeisiau/gosod apiau/newid gosodiadau/monitro*
- *capasiti'r rhwydwaith/band eang*
- *cymorth technegol*
- *hidlo dyfeisiau*
- *mynediad i wasanaethau cwmwl*
- *defnyddio ar dripiau/digwyddiadau y tu allan i'r ysgol*
- *diogelu data*
- *tynnu lluniau, storio/defnyddio delweddau*
- *prosesau gadael, beth sy'n digwydd i ddyfeisiau/meddalwedd/apiau/data wedi'i storio os yw'r defnyddiwr yn gadael yr ysgol*
- *atebolrwydd am ddifrod*
- *hyfforddiant staff.*

Dyfeisiau personol

- *pa ddefnyddwyr sy'n cael defnyddio dyfeisiau symudol personol yn yr ysgol (staff/dysgwyr/ymwelwyr)*
- *cyfyngiadau ar ble, pryd a sut gallant gael eu defnyddio yn yr ysgol*
- *os ydynt yn cael eu defnyddio i gefnogi'r dysgu, sut bydd staff yn cynllunio eu gwersi gan ystyried yr amrywiaeth posibl o fodelau dyfeisiau a systemau gweithredu gwahanol*
- *storio*
- *a fydd staff yn cael defnyddio dyfeisiau personol ar gyfer materion yn ymwneud â'r ysgol*
- *lefelau mynediad i rwydweithiau/rhyngrwyd (ee mynediad, neu ddim, i'r rhyngrwyd/wi-fi i westeion/rhwydwaith)*

- *capasiti'r rhwydwaith/band eang*
- *cymorth technegol (gall hyn fod yn ddatganiad clir nad oes cymorth technegol ar gael)*
- *hidlo cysylltiad y rhyngrwyd ar gyfer y dyfeisiau hyn a monitro mynediad*
- *rheoli trwyddedau meddalwedd ar gyfer dyfeisiau sy'n eiddo personol. (mae cytundeb trwyddedu cenedlaethol Microsoft drwy Hwb yn caniatáu i athrawon a dysgwyr osod rhaglenni craidd Microsoft ar ddyfeisiau personol)*
- *diogelu data*
- *tynnu lluniau, storio/defnyddio delweddau*
- *atebolrwydd am golled/difrod neu ddiffygion ar ôl cael mynediad i'r rhwydwaith (ymwadiad ynglŷn â chyfrifoldebau'r ysgol fwy na thebyg).*
- *adnabod/labelu dyfeisiau personol*
- *sut i roi gwybod i ymwelwyr am ofynion yr ysgol*
- *sut y bydd addysg am ddefnyddio dyfeisiau symudol yn ddiogel ac yn gyfrifol yn cael ei chynnwys yn rhaglen addysgol yr ysgol ynglŷn â diogelwch ar-lein*
- *sut byddai'r ysgol yn delio â chamddefnydd*

## Cyfryngau cymdeithasol

O ganlyniad i boblogrwydd defnyddio pob math o gyfryngau cymdeithasol, a hynny at ddibenion proffesiynol a phersonol, mae polisi sy'n pennu canllawiau clir i staff ar reoli risg ac ymddygiad ar-lein yn hollbwysig. Un o'r prif negeseuon yw sicrhau bod y dysgwyr, yr ysgol ac unigolion yn cael eu hamddiffyn wrth gyhoeddi unrhyw ddeunydd ar-lein. Mae'r Arferion a'r egwyddorion ar gyfer defnydd ysgolion o'r cyfryngau cymdeithasol ar wefan Hwb yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Gosodir disgwyliadau ymddygiad proffesiynol ar gyfer staff gan y Cyngor Gweithlu Addysg, ond rhaid i bob oedolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddeall bod natur eu gwaith a'u cyfrifoldebau yn eu rhoi mewn swydd gyfrifol, a dylai eu hymddygiad adlewyrchu hynny.

Mae gan yr holl ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd gofal i ddarparu amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion a staff. Yn anuniongyrchol, gall ysgolion ac awdurdodau lleol gael eu gweld yn gyfrifol am weithredoedd eu gweithwyr yn ystod eu cyflogaeth. Os bydd aelod o staff yn poenydio, yn bwlio ar-lein, yn gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd, neu yn difenwi trydydd parti, gall beri i'r ysgol neu'r awdurdod lleol fod yn atebol i'r dioddefwr. Rhaid penderfynu ar gamau rhesymol er mwyn atal niwed rhagweladwy. Disgwylir i'r holl staff sy'n gweithio mewn unrhyw sefydliad addysgol ddilyn yr ymddygiad proffesiynol a bennir gan y Cyngor Gweithlu Addysg a pharchu dysgwyr, eu teuluoedd, eu cydweithwyr a'r ysgol.

Er mwyn sicrhau bod camau rhesymol yn eu lle i leihau'r perygl o niwed, mae'r ysgol yn darparu'r mesurau canlynol:

- sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chyhoeddi
- darparu addysg/hyfforddiant ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys defnydd derbyniol, cyfyngiadau oed, peryglon cyfryngau cymdeithasol, polisi ar ddelweddau digidol a fideos, gwirio gosodiadau, diogelu data ac adrodd ar faterion
- rhoi arweiniad clir ar adrodd, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefn a sancsiynau
- asesiad risg, gan gynnwys risg cyfreithiol
- darparu canllawiau i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr

Dylai staff yr ysgol sicrhau:

- nad oes unrhyw gyfeiriad tuag at ddysgwyr, rhieni/gofalwyr nac at staff yr ysgol ar gyfryngau cymdeithasol
- nad ydynt yn trafod materion personol ar-lein sy'n ymwneud ag aelodau o gymuned yr ysgol
- nad yw barn bersonol yn cael ei phriodoli i'r ysgol nac i'r awdurdod lleol
- bod gosodiadau diogelwch ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol personol yn cael eu gwirio'n aml i leihau'r perygl o golli gwybodaeth bersonol
- maent yn fodelau rôl cadarnhaol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Pan fydd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol yr ysgol yn cael eu sefydlu, dylid sicrhau bod ganddynt y canlynol:

- proses ar gyfer cymeradwyaeth uwch swyddogion
- prosesau clir ar gyfer gweinyddu a monitro'r cyfrifon – gan gynnwys o leiaf dau aelod o staff
- cod ymddygiad ar gyfer defnyddwyr y cyfrifon
- systemau ar gyfer adrodd a delio â cham-drin a chamddefnydd
- dealltwriaeth o sut y gellir ymdrin ag achosion o dan weithdrefnau disgyblu'r ysgol

### Defnydd personol

- cyfathrebu personol yw'r cyfathrebu a wneir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Ym mhob achos, os defnyddir cyfrif personol sy'n gysylltiedig â'r ysgol neu'n effeithio ar yr ysgol, rhaid datgan yn glir nad yw'r aelod o staff yn cyfathrebu ar ran yr ysgol/coleg gydag ymwadiad priodol. Mae cyfathrebu personol o'r fath oddi mewn i gwmpas y polisi hwn
- mae unrhyw gyfathrebu personol nad yw'n cyfeirio at yr ysgol, nac yn effeithio arni, y tu allan i gwmpas y polisi hwn.
- os oes amheuaeth o ddefnydd personol gormodol o gyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol, ac os credir bod hynny'n ymyrryd â dyletswyddau perthnasol, efallai y cymerir camau disgyblu.
- *mae'r ysgol yn caniatáu mynediad rhesymol a phriodol i safleoedd cyfryngau cymdeithasol preifat*

**Monitro cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus**

- Fel rhan o ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol, bydd yr ysgol yn monitro'r Rhyngrwyd yn gyson am sylwadau cyhoeddus am yr ysgol.
- bydd yr ysgol yn ymateb yn effeithiol i sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol a wneir gan eraill, yn unol â pholisi neu broses benodol
- pan fydd rhieni/gofalwyr yn mynegi pryderon am yr ysgol ar y cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn eu hannog i gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol, yn breifat, i ddatrys y mater. Os nad oes modd datrys hyn, dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am drefn gwyno'r ysgol.

Bydd defnydd yr ysgol o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer dibenion proffesiynol yn cael ei wirio'n rheolaidd gan uwch arweinydd a'r Grŵp Diogelwch Ar-lein i sicrhau cydymffurfio â pholisïau cyfryngau cymdeithasol, diogelu data, cyfathrebu, delweddau digidol a fideos. Os nad yw'r ysgol yn gallu datrys unrhyw faterion yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol, gellir gofyn am gymorth gan y Llinell Gymorth i Weithwyr Proffesiynol ar Ddiogelwch Ar-lein (Saesneg yn unig).

Mae'r templed polisi cyfryngau cymdeithasol yn Atodiad C4 yn darparu canllaw manylach ar gyfrifoldebau'r ysgol ac ar arferion da.

# Delweddau digidol a fideos

Mae datblygiad technolegau delweddu digidol wedi creu manteision sylweddol wrth addysgu. Maent yn caniatáu i staff a dysgwyr allu defnyddio delweddau y maent wedi eu recordio eu hunain, neu wedi eu lawrlwytho o'r rhyngrwyd, ar unwaith. Ond, mae angen i staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chyhoeddi delweddau digidol ar y rhyngrwyd. Gall y fath ddelweddau arwain at achosion o fwlio ar-lein. Gall delweddau digidol aros ar y rhyngrwyd am byth a gallant achosi niwed neu gywilydd i unigolion yn y tymor byr neu'r tymor hir. Mae'n beth cyffredin i gyflogwyr edrych ar y rhyngrwyd am wybodaeth am ddarpar weithwyr neu weithwyr presennol.

Bydd yr ysgol yn hysbysu ac yn addysgu defnyddwyr ynglŷn â'r peryglon hyn ac yn gweithredu polisïau i leihau'r tebygolrwydd o niwed posib: (dewis / dileu fel sy'n briodol):

- os yw lleoliad neu ysgol a gynhelir yn dewis defnyddio ffrydio byw neu fideogynadledda, rhaid i gyrff llywodraethol, prifathrawon, a staff ystyried yn llawn y canllawiau a'r polisïau diogelu cenedlaethol a lleol, gan roi sylw i'r arweiniad yn yr Arferion ac egwyddorion diogelu ar gyfer ffrydio byw a fideogynadledda a pharagraff 7.6 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- wrth ddefnyddio delweddau digidol, dylai staff hysbysu ac addysgu'r dysgwyr am y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu lluniau, defnyddio, rhannu, cyhoeddi a dosbarthu delweddau. Yn benodol, dylent adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â chyhoeddi eu delweddau eu hunain ar y rhyngrwyd ee ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol

- yn unol ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni/gofalwyr dynnu lluniau digidol/fideo o'u plant yn nigwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei gwmpasu gan y Ddeddf Diogelu Data). I barchu preifatrwydd pawb, ac er diogelwch mewn rhai achosion, ni ddylid eu cyhoeddi/eu gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni/gofalwyr wneud sylw ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys *dysgwyr* eraill yn y delweddau digidol/fideo
- *mae gan staff a gwirfoddolwyr hawl i dynnu lluniau digidol/fideo i gefnogi nodau addysgiadol, ond rhaid dilyn polisïau'r ysgol ynglŷn â rhannu, storio, dosbarthu a chyhoeddi'r delweddau hyn. Rhaid i staff/gwirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r dysgwyr hynny na ddylid tynnu eu lluniau na chyhoeddi'r lluniau. Dim ond ar gyfarpar yr ysgol y dylid tynnu'r lluniau hynny. Ni ddylid defnyddio cyfarpar personol y staff i'r fath bwrpas.*
- *dylid cymryd gofal wrth dynnu delweddau digidol/fideo bod dysgwyr wedi'u gwisgo'n addas ac nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a all ddwyn anfri ar yr unigolyn neu'r ysgol*
- *ni ddylai dysgwyr dynnu lluniau, defnyddio, rhannu, cyhoeddi na dosbarthu delweddau o eraill heb ganiatâd.*
- *bydd lluniau sy'n cynnwys dysgwyr a gyhoeddir ar y wefan neu yn rhywle arall yn cael eu dewis yn ofalus ac yn cydymffurfio ag arweiniad ar arferion da wrth ddefnyddio delweddau o'r fath.*
- *ni ddefnyddir enwau llawn dysgwyr ar wefannau nac ar flogiau, yn enwedig rhai sydd wedi'u cysylltu â lluniau*
- rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan rieni neu ofalwyr cyn tynnu lluniau o ddysgwyr i'w defnyddio yn yr ysgol neu eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol/cyfryngau cymdeithasol. (gweler cytundeb defnydd derbyniol rhieni a gofalwyr yn yr Atodiad). Nid oes angen caniatâd ar gyfer delweddau sy'n cael eu tynnu at ddibenion mewnol yn unig
- bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod sut bydd y delweddau'n cael eu defnyddio, sut byddant yn cael eu storio ac am ba hyd – yn unol â pholisi diogelu data'r ysgol
- bydd delweddau'n cael eu storio'n ddiogel ar rwydwaith yr ysgol yn unol â pholisi cadw'r ysgol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018
- *dim ond gyda chaniatâd y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr y gellir cyhoeddi gwaith dysgwr.*

## Negeseuon diogelwch ar-lein

Mae'r ysgol wedi ymgynghori â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach ac yn hyrwyddo'r ysgol drwy'r dulliau canlynol (diwygio fel y bo'n berthnasol):

- Gwefan gyhoeddus
- Cyfryngau cymdeithasol
- Cylchlythyron ar-lein
- Arall

Caiff gwefan yr ysgol ei rheoli/lletya gan (rhowch fanylion). Mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn cadw at arfer da wrth gyhoeddi ar-lein ee defnyddio delweddau a fideos digidol, hawlfraint, adnabod pobl ifanc, cyhoeddi calendrau ysgol a gwybodaeth bersonol – ac yn sicrhau nad oes risg i aelodau o gymuned yr ysgol, drwy gyhoeddiadau o'r fath.

Pan fydd gwaith, delweddau neu fideos o ddysgwyr yn cael eu cyhoeddi, ni chyhoeddir eu henwau llawn a diogelir eu manylion adnabod.

*Mae cyhoeddiadau ar-lein cyhoeddus yr ysgol yn rhoi gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein ee cyhoeddi Polisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol; casglu'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf; erthyglau newyddion ac ati, gan greu tudalen diogelwch ar-lein ar wefan yr ysgol.*

*Mae'r wefan yn cynnwys proses adrodd ar-lein i rieni a'r gymuned ehangach gofrestru materion a phryderon i ategu'r broses adrodd fewnol*

## Diogelwch Data

Bydd data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i ryddhau yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol.

Mae'r ysgol:

- yn meddu ar Bolisi Diogelu Data. (trowch at yr atodiad i gael polisi enghreifftiol)
- yn rhoi egwyddorion diogelu data ar waith ac yn gallu dangos ei fod yn gwneud hynny
- wedi talu'r ffi briodol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- wedi penodi Swyddog Diogelu Data priodol sydd â lefel uchel o ddealltwriaeth o'r gyfraith diogelu data, ac yn rhydd o wrthdaro buddiannau. Hefyd, efallai hoffai'r ysgol benodi Rheolwr Data a Rheolyddion Systemau i helpu'r Swyddog Diogelu Data
- yn meddu ar 'Gofnod o Weithgareddau Prosesu' ac mae'n gwybod yn union pa ddata personol sydd ganddynt, ym mhle, pam a pha aelod o staff sy'n gyfrifol am ei reoli
- mae'r Cofnod o Weithgareddau Prosesu yn rhestru'r sail gyfreithlon dros brosesu data personol (gan gynnwys caniatâd, pan fo hynny'n berthnasol). Pan fydd data categori arbennig yn cael ei brosesu, bydd sail gyfreithlon ychwanegol yn cael ei nodi
- yn meddu ar Gofrestr Asedau Gwybodaeth ac mae'n gwybod yn union pa ddata personol a gedwir, ym mhle, pam a pha aelod o staff sy'n gyfrifol am ei reoli
- mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn rhestru'r sail gyfreithlon dros brosesu data personol (gan gynnwys caniatâd, pan fo hynny'n berthnasol). Pan fydd data categori arbennig yn cael ei brosesu, bydd sail gyfreithlon ychwanegol yn cael ei nodi hefyd

- bydd yn cadw'r data personol sylfaenol sy'n ofynnol er mwyn gallu cyflawni ei swyddogaethau, ac ni fydd yn cadw'r data am gyfnod hwy na'r diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer. Mae 'amserlen cadw' yr ysgol yn cefnogi hyn
- mae'r data a gedwir yn gywir ac yn gyfredol ac yn cael ei ddal dim ond at y diben y cafodd ei ddal. Systemau ar waith i adnabod gwallau, megis gofyn i rieni wirio manylion cyswllt mewn argyfwng ar adegau priodol
- rhoi'r wybodaeth i staff, rhieni, gwirfoddolwyr, pobl ifanc a phlant hŷn am sut mae'r ysgol yn gofalu am eu data a'u hawliau mewn Hysbysiad Preifatrwydd clir (edrychwch ar adran Hysbysiad Preifatrwydd yr atodiad)
- rhaid cael gweithdrefnau i ymdrin â hawliau unigol testun data. Er enghraifft, un o'r dwsinau o hawliau sy'n berthnasol yw hawl gwrthrych y data i gael mynediad at ddata sy'n galluogi'r unigolyn i weld/cael copi o'r data personol sy'n cael ei gadw amdano
- yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data pan fo angen, ee er mwyn sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu pan fydd yn cael ei gyrchu drwy fynediad o bell, neu pan fydd cysylltiad yn cael ei greu â chyflenwr newydd
- mae diogelwch y system TG yn cael ei sicrhau a'i brofi'n rheolaidd. Bod patshys a diweddariadau diogelu hanfodol eraill yn cael eu rhoi ar waith yn syth i ddiogelu'r data personol ar y systemau. Dylent wneud yn siŵr bod systemau gweinyddol ar wahân i'r systemau sydd ar gael yn y dosbarth/i ddysgwyr
- wedi dilyn trefn diwydrwydd dyladwy ac mae'n meddu ar gontractau sy'n cydymffurfio â rheolau diogelu data gydag unrhyw broseswyr data
- yn deall sut i rannu data gyda rheolyddion data perthnasol eraill yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Dylai ysgolion yng Nghymru ystyried defnyddio'r pecyn cymorth Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru er mwyn helpu i rannu data yn rheolaidd rhwng rheolyddion data
- yn meddu ar bolisïau a threfn arferol clir ar gael ar gyfer dileu a gwaredu data
- riportio unrhyw dramgwydd perthnasol i'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o ddod yn ymwybodol ohono, yn unol â'r gyfraith. Dylent wneud yn siŵr eu bod yn riportio achosion perthnasol o fynediad di-awdurdod i'r unigolion y mae hyn yn effeithio arnynt yn unol â'r gyfraith. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid iddynt wneud yn siŵr bod ganddynt bolisi ar gyfer riportio, cofnodi, rheoli, ymchwilio a dysgu yn sgil digwyddiadau risg i wybodaeth
- fel ysgol a gynhelir, bydd ganddi Bolisi Rhyddid Gwybodaeth sy'n nodi sut y bydd yn delio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- darparu hyfforddiant ar ddiogelu i'r holl staff yn ystod y cyfnod cynefino a rhoi hyfforddiant gloywi priodol wedi hynny. Hefyd, dylent wneud yn siŵr y bydd y staff sy'n ymgymryd â swyddogaethau diogelu data, megis delio â cheisiadau dan hawliau'r unigolyn, yn derbyn

hyfforddiant priodol ar gyfer eu swyddogaeth ynghyd â'r hyfforddiant craidd a ddarperir i'r holl staff

- yn sicrhau bod preifatrwydd data yn cael ei flaenoriaethu pan ddefnyddir gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Pan gaiff data personol ei storio ar unrhyw ddyfais symudol neu ar gyfryngau y gellir eu tynnu:

- bydd y data wedi'i amgryptio a'i ddiogelu â chyfrinair.
- bydd y ddyfais wedi'i diogelu â chyfrinair. (dewiswch ddyfeisiau sy'n gallu cael eu diogelu fel hyn)
- bydd y ddyfais wedi'i gwarchod drwy feddalwedd gwirio feirysau a drwgwedd cyfredol
- bydd data'n cael ei ddileu'n ddiogel oddi ar y ddyfais, yn unol â pholisi'r ysgol (isod) ar ôl ei drosglwyddo neu ar ôl gorffen ei ddefnyddio.

Mae angen i staff sicrhau eu bod nhw'n gwneud y canlynol: (efallai hoffai ysgolion gynnwys rhagor o fanylion am eu prosesau data/cyfrinair/amgryptio/ trosglwyddo eu hunain)

- bod yn ofalus bob amser i wneud yn siŵr bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel, gan leihau'r risg o golli neu gamddefnyddio'r data
- adnabod achos posibl o fynediad di-awdurdod at ddata, deall yr angen i frysio, a gwybod at bwy yn yr ysgol y dylent riportio achos o'r fath
- gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu helpu gwrthrychau'r data i ddeall eu hawliau a'u bod yn gwybod sut i ddelio â chais ar lafar neu'n ysgrifenedig, ac yn gwybod i bwy y dylai roi gwybod am hynny yn yr ysgol
- dim ond defnyddio dyfeisiau symudol wedi'u hamgryptio (gan gynnwys USBs) ar gyfer data personol, yn enwedig pan fo hynny'n ymwneud â phlant
- gwneud yn siŵr nad ydynt yn trosglwyddo unrhyw ddata personol ysgol i ddyfeisiau personol Dylai gweithdrefnau fod ar waith i alluogi staff i weithio gartref (h.y. mynediad VPN i rwydwaith yr ysgol, neu ddarparu gliniadur gwaith).
- dim ond defnyddio data personol ar gyfrifiaduron a dyfeisiau diogel eraill sydd wedi'u diogelu gan gyfrinair, gan sicrhau eu bod wedi "allgofnodi" ar ddiwedd unrhyw sesiwn pan fyddant yn defnyddio data personol
- trosglwyddo data gan ddefnyddio amgryptio, cyfrif e-bost diogel (lle bo hynny'n briodol), a dyfeisiau sydd wedi'u diogelu gan gyfrinair diogel.

(Bydd angen i'r ysgol nodi ei bolisi ei hun o ran a ganiateir storio data ar gyfryngau y gellir eu tynnu, hyd yn oed os bydd y data yn cael ei amgryptio – nid yw rhai sefydliadau yn caniatáu storio data

personol ar ddyfeisiau y gellir eu tynnu). Mae'r Canllaw a Chyngor ar Ddata Personol yn yr atodiad (B2) yn rhoi gwybodaeth fanylach am gyfrifoldebau ysgolion ac am arferion da.

## Seiberddiogelwch

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein yn disgrifio seibrddiogelwch fel a ganlyn:

> "Seiber ddiogelwch yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sut y gall unigolion a sefydliadau leihau'r risg o ymosodiadau seiber. Prif ddiben seiber ddiogelwch yw sicrhau bod y dechnoleg sy'n cael ei defnyddio gennym (dyfeisiau megis cyfrifiaduron, llechi a ffonau clyfar) a'r gwasanaethau rydym yn eu defnyddio ar-lein yn cael eu diogelu rhag y risg sy'n gysylltiedig â seiber droseddu gan gynnwys dwyn er elw megis ymosodiadau meddalwedd wystlo a cheisio mantais gystadleuol, neu ddifrod maleisus y bwriedir iddo amharu ar allu sefydliad i weithredu'n effeithiol. Rydym yn storio llawer iawn o wybodaeth bersonol a sefydliadol ar ddyfeisiau a gwasanaethau, ac mae atal yr wybodaeth hon rhag cael ei gweld gan rywun heb awdurdod yn hanfodol."

Nod y canllawiau 'Seiberddiogelwch mewn ysgolion: cwestiynau ar gyfer cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli' a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a Llywodraeth Cymru yw cefnogi dealltwriaeth cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli o risgiau seiberddiogelwch eu lleoliadau addysg. Mae'r canllawiau'n cynnwys wyth cwestiwn i hwyluso'r sgwrs ynglŷn â seiberddiogelwch rhwng y corff llywodraethu ac arweinwyr ysgolion, gyda'r corff llywodraethu'n arwain.

Efallai y bydd yr ysgol yn dymuno ystyried y datganiadau canlynol, gan eu diwygio yng ngoleuni eu polisi, prosesau a gweithdrefnau seiberddiogelwch presennol:

- mae'r ysgol wedi mabwysiadu a gwneud defnydd o'r Safonau Data a Rhwydwaith perthnasol ar Hwb
- mae'r ysgol mewn partneriaeth â'i phartner cymorth technoleg addysg, wedi nodi'r rhannau mwyaf hanfodol o wasanaethau digidol a thechnoleg yr ysgol ac wedi gofyn am sicrwydd ynghylch eu seiberddiogelwch
- mae gan yr ysgol, mewn partneriaeth â'i phartner cymorth technoleg addysg, gynllun wrth gefn ac adfer effeithiol ar waith os bydd ymosodiad seiber yn digwydd
- mae polisïau llywodraethu a TG yr ysgol yn adlewyrchu pwysigrwydd seiberddiogelwch da

- mae staff yn cael hyfforddiant ar y bygythiadau a'r digwyddiadau seiberddiogelwch cyffredin y mae ysgolion yn eu profi
- mae gan yr ysgol gynllun parhad busnes a rheoli digwyddiadau ar waith sy'n cynnwys TG a'r gwasanaethau ehangach hyn.

# Canlyniadau

Caiff effaith y Polisi a'r arferion Diogelwch Ar-lein ei gwerthuso'n rheolaidd drwy adolygu/archwilio cofnodion digwyddiadau diogelwch ar-lein; adroddiadau ymddygiad/bwlio; arolygon staff, dysgwyr; rhieni/gofalwyr, a'i hadrodd i'r grwpiau perthnasol:

- ceir trafodaeth broffesiynol gytbwys am y dystiolaeth a gymerwyd o'r adolygiadau/logiau ac effaith gwaith ataliol ee addysg, ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelwch ar-lein.
- mae llwybrau wedi'u sefydlu i roi gwybod yn rheolaidd am batrymau canlyniadau a digwyddiadau diogelwch ar-lein i dîm arwain a Llywodraethwyr yr ysgol
- rhoddir gwybod i rieni/gofalwyr am batrymau digwyddiadau diogelwch ar-lein fel rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth diogelwch ar-lein yr ysgol.
- mae polisïau a gweithdrefnau diogelwch ar-lein (a rhai cysylltiedig) yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn ymateb i'r dystiolaeth a gasglwyd o'r adolygiadau/archwiliadau/trafodaeth broffesiynol hyn
- mae'r dystiolaeth o effaith yn cael ei rhannu ag ysgolion eraill, asiantaethau ac ALlau i helpu i sicrhau bod strategaeth diogelwch ar-lein leol gyson ac effeithiol yn cael ei datblygu.

### Atodiad

Mae copïau o'r polisïau a'r cytundebau templed manylach, sydd yn yr atodiad, ar gael i'w llwytho i lawr o Hwb.

Hoffai Llywodraeth Cymru a SWGfL ddiolch i ystod o unigolion a sefydliadau sydd wedi cyfrannu tuag at ddatblygu'r templedi Polisi Diogelwch Ar-lein ysgol â'u polisïau, dogfennau, cyngor ac arweiniad, yn ogystal â datblygu teclyn hunan adolygu diogelwch ar-lein 360 safe Cymru:

### Cydnabyddiaeth:

- Aelodau Grŵp Diogelwch Ar-lein SWGfL
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol Cymru
- Cynrychiolwyr amrywiaeth o ysgolion Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriadau a grwpiau peilot

Cedwir hawlfraint Templedi Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgolion SWGfL gan SWGfL. Caniateir i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill ddefnyddio'r templedi am ddim. Dylai unrhyw berson neu sefydliad sy'n dymuno defnyddio'r ddogfen at ddibenion eraill ofyn am ganiatâd SWGfL a chydnabod ei ddefnydd. Gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y templed hwn yn fanwl gywir ar y dyddiad cyhoeddi ym mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, ni all SWGfL warantu ei manwl gywirdeb ac ni all dderbyn cyfrifoldeb mewn perthynas â'r defnydd o'r deunydd, boed yn llawn neu'n rhannol a boed wedi'i addasu ai peidio. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol/proffesiynol addas os bydd unrhyw anhawster yn codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth newydd hon neu'n ymwneud yn gyffredinol ag ymddygiad neu ddisgyblaeth yn yr ysgol.

© SWGfL 2025

# Atodiadau


A2 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer dysgwyr hŷn ....................59
A3 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer disgyblion iau .......63
A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni/Gofalwyr a ffurflenni caniatâd ...........65
A5 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Staff (a Gwirfoddolwyr).......................73
A6 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol ar gyfer Defnyddwyr Cymunedol ..................78
A7 Templed Cylch Gorchwyl Grŵp Diogelwch Ar-lein ........................................................80
A8 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Cyber Choices................................83
A9 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnydd - siart llif .........................................................84
A10 Cofnod o adolygu dyfeisiau/gwefannau.......................................................................86
A11 Log Adrodd ...........................................................................................................................87
B1 Log Archwiliad o Anghenion Hyfforddi...............................................................................88
C1 Templed Polisi Diogelwch Technegol (yn cynnwys hidlo a chyfrineiriau).....................89
C2 Cyngor a Chanllawiau ar Ddata Personol..........................................................................99
C3 Templed Polisi Rheoli8 Dyfeisiau (gan gynnwys 'Dewch â'ch Dyfais eich Hun')........ 114
C4 Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol........................................................................ 119
C5 Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgol – Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion ................................................................................................................................ 125
Deddfwriaeth ............................................................................................................................ 144
Dolenni i sefydliadau a dogfennau eraill ............................................................................ 151

# A2 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer dysgwyr hŷn

Mae'r templed hwn wedi cael ei ddiweddaru'n sylweddol ym mis Mawrth 2025 er mwyn ystyried newidiadau mewn ymddygiad a thechnolegau digidol a symleiddio'r cytundeb. Argymhellir bod ysgolion sydd eisoes yn defnyddio'r templed hwn yn mabwysiadu'r fersiwn newydd hon, gan fod gormod o newidiadau i wneud fersiwn "tracio newidiadau" yn berthnasol.

Mae adrannau sy'n cynnwys cyngor neu ganllawiau wedi'u hysgrifennu mewn GLAS. Rhagwelir y bydd ysgolion yn tynnu'r adrannau hyn o'u dogfen derfynol ar gyfer defnydd derbyniol. Dylai ysgolion adolygu a diwygio cynnwys y cytundeb hwn i sicrhau ei fod yn gyson â'u Polisi Diogelwch Ar-lein a pholisïau perthnasol eraill yr ysgol. Oherwydd nifer yr adrannau cyngor/canllawiau a datganiadau dewisol sydd wedi'u cynnwys yn y templed hwn, rhagwelir y bydd y ddogfen derfynol yn fwy cryno. Bydd angen i ysgolion benderfynu ar addasrwydd y datganiadau/yr iaith a ddefnyddir, ac mae'n bosibl y byddant yn dymuno eu newid yn unol ag oedran/gallu y dysgwyr.

### Polisi'r ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan annatod o fywyd plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn adnoddau pwerus, sy'n creu cyfleoedd newydd i bawb. Gall y technolegau hyn ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Dylai fod gan ddysgwyr hawl i ddefnyddio'r technolegau digidol hyn yn ddiogel.

### **Ffurflen Cytundeb Defnydd Derbyniol y Dysgwr**

Rydw i'n cytuno i ddefnyddio systemau digidol yr ysgol yn gyfrifol i warchod fy niogelwch i, diogelwch systemau'r ysgol, ac eraill.

### Diogelwch Personol

- Bydd yr ysgol yn monitro sut rydw i'n defnyddio prosesau cyfathrebu, dyfeisiau a systemau digidol yr ysgol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a chyfrinair yn ddiogel ac yn breifat. Os bydd rhywun yn eu dwyn, byddaf yn rhoi gwybod am hynny neu'n eu newid ar unwaith.
- Dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol a gyda chaniatâd y bydda i'n rhannu gwybodaeth bersonol, fel fy enw neu fy nghyfeiriad.
- Byddaf yn ofalus wrth gwrdd wyneb yn wyneb â chysylltiadau ar-lein, a dim ond mewn man cyhoeddus gydag oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw y bydda i'n gwneud hynny.

- Byddaf yn cymryd cyfrifoldeb dros yr hyn rydw i'n ei wneud ar-lein, gan ddefnyddio offer rhwystro ac ati neu ddod â sgyrsiau i ben os bydd angen.
- Dim ond pan fydd yn ddiogel y byddaf yn rhannu delweddau ohonof fi fy hun neu o bobl eraill, a byddaf yn sicrhau bod y delweddau'n briodol ac yn barchus.
- Dim ond pan fyddaf fi, neu eraill, wedi gwisgo'n llawn y bydda i'n gwneud neu'n rhannu delweddau ohonof fi fy hun neu eraill. Rydw i'n deall bod rhannu cynnwys noeth neu rannol noeth yn gallu achosi gofid, yn gallu bod yn anghyfreithlon, ac y gallai arwain at erlyniad / gofnod troseddol.
- Byddaf yn rhoi gwybod i oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw am negeseuon, deunydd niweidiol neu annymunol, neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi boeni neu ofidio.

## Parchu Gwaith a Gwybodaeth Pobl Eraill

- Byddaf yn gofyn am ganiatâd cyn defnyddio neu addasu gwaith rhywun arall.
- Byddaf yn gwirio'r wybodaeth rydw i'n dod o hyd iddi ar-lein, oherwydd mae'n bosibl na fydd yn gywir neu'n wir bob amser.
- Dim ond offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr ysgol y bydda i'n eu defnyddio, a byddaf yn sicrhau fy mod i'n eu defnyddio mewn ffordd foesegol, gyfreithiol a thryloyw.
- Cyn rhannu neu gyhoeddi cynnwys sydd wedi cael ei gynhyrchu gan Ddeallusrwydd Artiffisial, byddaf yn gwirio'r ffeithiau ac yn gwerthuso'r cynnwys yn feirniadol i wneud yn siŵr ei fod yn gywir, nad yw'n cynnwys rhagfarn ac nad yw'n gwahaniaethu.
- Byddaf yn osgoi lawrlwytho neu ddefnyddio deunyddiau sydd dan hawlfraint neu wedi'u gwarchod os nad ydw i wedi cael y caniatâd priodol.

## Ymddygiad Cyfrifol Ar-lein

- Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol wrth gyfathrebu ag eraill. Fydda i ddim yn defnyddio iaith gref, ymosodol nac anaddas, ac rydw i'n sylweddoli fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol. Fydda i ddim yn bwlio, yn bygwth, yn brifo teimladau, yn gwneud hwyl am ben nac yn aflonyddu ar neb arall.
- Dim ond platfformau neu feddalwedd sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr ysgol y bydda i'n eu defnyddio, a fydda i ddim yn ceisio osgoi'r systemau hidlo/diogelwch sydd ar waith. Os bydda i'n dod yn ymwybodol o unrhyw ymdrechion o'r fath, byddaf yn rhoi gwybod i oedolyn dibynadwy.

- Rydw i'n deall bod seiberddiogelwch yn achosi risg i mi, i ddysgwyr eraill ac i'r ysgol, a byddaf yn sicrhau fy mod i'n bod yn ofalus cyn agor negeseuon e-bost, negeseuon neu ddolenni. Byddaf yn holi oedolion dibynadwy os oes gen i unrhyw bryderon am hynny.
- Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw ddifrod, namau neu fethiannau o ran offer neu feddalwedd, beth bynnag fydd wedi achosi hynny.
- Byddaf yn dilyn y gofynion oedran ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, apiau ac offer.
- Byddaf yn cael cydbwysedd rhwng fy ngweithgareddau ar-lein ac all-lein er mwyn hybu ffordd iach o fyw.
- Byddaf yn gwarchod fy enw da i ac enw da'r ysgol, ei staff a dysgwyr eraill ar-lein.
- Rydw i'n deall y gallai rhai pobl feddwl bod rhai ymddygiadau ar-lein yn hwyl, ond eu bod yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol – gallai hyn gynnwys gwneud (neu rannu) delweddau/fideos o staff, ymladd, dysgwyr mewn sefyllfaoedd sy'n creu embaras, neu greu cyfrifon ffug.
- Byddaf yn sicrhau bod fy ymddygiad i'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar yr ysgol, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol.

### Canlyniadau Camddefnyddio

- Rydw i'n deall y byddai peidio â dilyn y cytundeb hwn yn gallu arwain at ganlyniadau, gan gynnwys colli'r hawl i ddefnyddio systemau'r ysgol, cyfnodau cosb, gwahardd dros dro, cysylltu â rhieni/gofalwyr, neu gynnwys yr heddlu mewn achosion difrifol.

Drwy ddilyn y canllawiau hyn, byddaf yn cyfrannu at amgylchedd ar-lein diogel, parchus a chynhyrchiol.

Rydw i wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod, ac rydw i'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fydda i'n defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Pan fydda i'n defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ydw i'n cael gwneud hynny)
- Pan fydda i'n defnyddio technolegau digidol oddi allan i'r ysgol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol hon, ee, cyfathrebu ag aelodau eraill o'r ysgol, defnyddio e-bost yr ysgol, y wefan ac ati.

Bydd angen i'r ysgol benderfynu a fydd yn gofyn i ddysgwyr (a/neu) rhieni/gofalwyr lofnodi'r Cytundeb Defnydd Derbyniol, neu a yw'n ddigon egluro y dylid dilyn y rheolau hyn a'u hatgyfnerthu drwy gydol y flwyddyn. Darperir y ffurflen isod ar gyfer yr ysgolion sy'n dymuno iddyn nhw lofnodi'r Cytundeb.

### Ffurflen Cytundeb Defnydd Derbyniol y Dysgwr

Mae'r ffurflen hon yn berthnasol i gytundeb defnydd derbyniol y dysgwr; ac mae wedi'i hatodi i'r ddogfen honno.

Llenwch yr adrannau isod i gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y rheolau sydd wedi'u cynnwys yng nghytundeb defnydd derbyniol y dysgwr, a'ch bod yn cytuno â nhw. Os na fyddwch chi'n llofnodi ac yn dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau'r ysgol. (Bydd angen i ysgolion benderfynu a oes angen i ddysgwyr lofnodi, neu a ydynt yn dymuno sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cytundeb drwy raglenni addysgol/codi ymwybyddiaeth).

Rydw i wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod, ac rydw i'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fydda i'n defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Pan fydda i'n defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ydw i'n cael gwneud hynny) ee, ffônau symudol, dyfeisiau chwarae gemau, dyfeisiau USB, camerâu ac ati
- Pan fydda i y tu allan i'r ysgol ac yn ymwneud ag unrhyw ymddygiad ar-lein a allai effeithio ar yr ysgol neu ar aelodau eraill o'r ysgol.

Enw'r Dysgwr: ..............................................................................................................................

Grŵp/Dosbarth: ..............................................................................................................................

Llofnod: ..............................................................................................................................

Dyddiad: ..............................................................................................................................

**Cydlofnod Rhiant/Gofalwr** (dewisol)

Ysgolion sydd i benderfynu a oes angen i rieni/gofalwyr lofnodi'r cytundeb defnydd derbyniol i rieni/gofalwyr (gweler y templed yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol i Rieni/Gofalwyr). Mae hyn yn cynnwys nifer o ffurflenni caniatâd eraill (gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â delweddau digidol a fideos, caniatâd i ddefnyddio systemau biometrig/caniatâd i ddefnyddio systemau cyfrifiadura cwmwl).

Yn hytrach na gwneud hynny, mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion am gynnwys blwch cydlofnod rhiant/gofalwr yng nghytundeb defnydd derbyniol y dysgwr.

# A3 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Dysgwr – ar gyfer disgyblion iau

Mae'r templed hwn wedi cael ei ddiweddaru'n sylweddol ym mis Mawrth 2025 er mwyn ystyried newidiadau mewn ymddygiad a thechnolegau digidol a symleiddio'r cytundeb. Argymhellir bod ysgolion sydd eisoes yn defnyddio'r templed hwn yn mabwysiadu'r fersiwn newydd hon, gan fod gormod o newidiadau i wneud fersiwn "tracio newidiadau" yn berthnasol.

## Ein Rheolau Technoleg

Byddaf yn dilyn y rheolau hyn wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a'r rhyngrwyd yn ddiogel yn yr ysgol.

## Cadw'n Ddiogel

- Bydd fy athro yn gwylio beth rydw i'n ei wneud ar gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a'r rhyngrwyd er mwyn fy nghadw i'n ddiogel.
- Byddaf yn cadw fy nghyfrineiriau yn gyfrinachol ac yn dweud wrth fy athro os bydd angen help arna i.
- Rydw i'n deall nad yw pobl ar-lein bob amser yn dweud y gwir am bwy ydyn nhw. Fydda i ddim yn siarad â phobl ar-lein os nad yw fy athro neu oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw wedi dweud ei bod yn iawn i fi wneud hynny.
- Fydda i ddim yn rhannu fy enw, fy nghyfeiriad na fy lluniau heb ofyn yn gyntaf i fy athro neu oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw.
- Os bydda i'n gweld rhywbeth sy'n gwneud i fi boeni neu deimlo'n drist, bydda i'n dweud yn syth wrth fy athro neu oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw.
- Dim ond apiau, gemau neu wefannau mae fy athro yn dweud sy'n ddiogel y bydda i'n eu defnyddio.

## Defnyddio Technoleg yn Garedig

- Byddaf yn garedig wrth ddefnyddio technoleg, yn union fel rydw i'n ei wneud mewn bywyd go iawn.
- Byddaf yn gofalu am y cyfrifiaduron a'r dyfeisiau tabled rydw i'n eu defnyddio.
- Dim ond ar bethau mae fy athro yn dweud sy'n iawn y bydda i'n edrych.

## Gwneud Dewisiadau Da

- Byddaf yn gofyn i fy athro cyn defnyddio lluniau neu waith rhywun arall.
- Byddaf yn cymryd seibiant oddi wrth y sgrin ac yn gwneud pethau difyr eraill hefyd.

- Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu dweud na / stop wrth unrhyw un ar-lein sy'n gwneud i fi deimlo'n drist, yn anghyfforddus, yn annifyr neu'n ofidus.
- Byddaf yn gofyn am help gan oedolyn rydw i'n ymddiried ynddyn nhw os nad ydw i'n siŵr beth ddylwn i ei wneud, neu os bydda i'n meddwl fy mod i wedi gwneud rhywbeth o'i le.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n anghofio'r rheolau?

- Os bydda i'n anghofio'r rheolau, bydd fy athro yn fy helpu i ddysgu gwneud dewisiadau gwell y tro nesaf.

Mae'r rheolau hyn yn ein helpu ni i gyd i gadw'n ddiogel a chael hwyl wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiau tabled yn yr ysgol!

Llofnod (y plentyn): ..................................................................

(Bydd angen i'r ysgol benderfynu a ydyn nhw eisiau i'r plant lofnodi'r cytundeb ai peidio – a faint fydd eu hoed pan fyddan nhw'n gwneud hynny - yn achos plant iau, dylai llofnod rhiant/gofalwr fod yn ddigon)

**Llofnod (y rhiant):** ..................................................................

Efallai y bydd ysgolion sy'n defnyddio'r cytundeb defnydd derbyniol hwn ar gyfer plant iau hefyd yn dymuno defnyddio (neu ei addasu i'w ddefnyddio) y cytundeb defnydd derbyniol i rieni a gofalwyr (gweler y templed yn nes ymlaen yn y ddogfen hon) am ei fod yn cynnwys rhagor o ffurflenni caniatâd (gan gynnwys y ffurflen caniatâd ar gyfer delweddau digidol a fideo).

# A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni/Gofalwyr a ffurflenni caniatâd

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn darparu arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael mynediad diogel i'r rhyngrwyd bob amser.

**Diben y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:**

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu eraill ar gyfer defnydd addysgol, personol a hamdden
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar-lein ac yn helpu i addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad da at dechnolegau digidol er mwyn gwella'r addysgu. Byddant felly'n disgwyl i'r dysgwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o gytundeb defnydd derbyniol dysgwyr wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd hon, fel bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl gan y dysgwyr yn eu gofal.

Mae disgwyl i rieni lofnodi'r ffurflen caniatâd isod i ddangos eu bod yn cefnogi'r elfen bwysig hon yng ngwaith yr ysgol. (Bydd angen i'r ysgol benderfynu a ydynt am i rieni lofnodi'r cytundeb defnydd derbyniol ar ran eu plant neu beidio).

**Ffurflen Caniatâd**

**Enw'r Rhiant/Gofalwr:**.................................... **Enw(au)'r Dysgwyr**..........................................

Fel rhiant/gofalwr y dysgwyr uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'm plentyn gael mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau TGCh yr ysgol.

Naill ai: (CA2 ac uwch)

*Rwy'n gwybod bod fy mhlentyn wedi llofnodi cytundeb defnydd derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.*

Neu: (Cyfnod Sylfaen)

*Rwy'n deall bod yr ysgol wedi trafod y cytundeb defnydd derbyniol gyda'm plentyn a'u bod wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.*

Rwy'n deall y bydd yr ysgol yn cymryd pob rhagofal diogelwch rhesymol, gan gynnwys systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r systemau. Rwyf hefyd yn deall nad yw'r ysgol yn gallu cael eu dal yn gyfrifol yn y pen draw am natur a chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cael ei weld ar y rhyngrwyd ac wrth ddefnyddio technolegau symudol.

Rwy'n deall y bydd gweithgareddau fy mhlentyn ar y systemau yn cael eu monitro a bydd yr ysgol yn cysylltu os oes unrhyw bryderon o ran mynd yn erbyn y cytundeb defnydd derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i fabwysiadu defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol gartref a byddaf yn hysbysu'r ysgol os oes gennyf unrhyw bryderon am ddiogelwch ar-lein fy mhlentyn.

Gan fod yr ysgol yn casglu data personol drwy gyflwyno'r ffurflen hon, dylai roi gwybod i rieni/gofalwyr am y canlynol:

| |
|---|
| Y ffurflen hon (electronig neu wedi'i hargraffu) |
| Pwy fydd yn gallu gweld y ffurflen hon. |
| Ble bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. |
| Am ba mor hir bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. |
| Sut bydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio. |

**Llofnodwyd:** ....................................................................

**Dyddiad:** ..............................................................

Ar ôl ei llenwi, gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei chofnodi yng nghronfa ddata'r ysgol.

Ar ôl cwblhau, dylid cadw’r dudalen hon mewn lleoliad diogel am gyfnod o:

*mewnosod cyfnod*

## Defnydd o Ddelweddau Digidol/Fideo

Mae rhai gweithgareddau lle nad yw’r ysgol yn defnyddio caniatâd fel sail ar gyfer prosesu data eich plentyn. Rydym yn tynnu lluniau/fideos o’r plant at ddibenion cofnodi a thracio cynnydd disgyblion o dan [ee *Deddf Addysg 1996*] ac yn casglu tystiolaeth at ddibenion asesu. Caiff y rhain eu cadw mewn lleoliadau diogel yn yr ysgol a’u dinistrio yn unol â’n polisi cadw. Efallai y bydd hefyd angen i ni rannu’r ffeiliau hyn â thrydydd partïon, fel [*Nodwch weithwyr proffesiynol/trydydd partïon a allai fod yn derbyn neu’n cyfrannu, os yw hynny'n berthnasol*]. Mae manylion pellach ar gael yn hysbysiad preifatrwydd yr ysgol.

Ar adegau eraill, efallai y bydd yr ysgol yn dymuno cyhoeddi lluniau a/neu fideos o ddisgyblion mewn dogfennau cyhoeddus fel prosbectws yr ysgol, ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol (ee Twitter) a’r wefan, eu harddangos o amgylch yr ysgol, ac mewn cyhoeddiadau cymunedol fel papurau newydd lleol. Cyhoeddir pob delwedd gan dalu sylw llawn i warchod ac amddiffyn plant, a dim ond gyda’ch caniatâd chi.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r cyfreithiau diogelu data ac yn gofyn am ganiatâd rhieni/gofalwyr cyn cyhoeddi lluniau o aelodau'r ysgol. Pan fydd delweddau yn cael eu cyhoeddi, byddwn hefyd yn sicrhau nad oes modd adnabod y dysgwr yn ôl eu henwau.

Sylwer y gallwch dynnu’ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu’n dymuno adolygu neu dynnu’ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â’r ysgol.

Yn unol ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni/gofalwyr dynnu lluniau digidol/fideo o'u plant yn nigwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Diogelu Data 2018). I barchu preifatrwydd pawb neu eu hamddiffyn mewn rhai achosion, ni ddylai’r delweddau hyn gael eu cyhoeddi/gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni/gofalwyr wneud sylw ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys delweddau digidol/fideo o ddysgwyr eraill.

Gofynnir i rieni/gofalwyr lofnodi’r ffurflen caniatâd isod i ganiatáu i’r ysgol dynnu a defnyddio delweddau o'u plant ac i ddangos eu bod yn cytuno iddynt wneud hynny.

Gan fod yr ysgol yn casglu data personol drwy gyflwyno'r ffurflen hon, dylai roi gwybod i rieni/gofalwyr sut bydd yn cael ei defnyddio a'i storio:

| Y ffurflen hon (electronig neu wedi'i hargraffu) | Y delweddau |
|---|---|
| Bydd yr ysgol yn cadw'r ffurflen caniatâd am gyfnod o 1 flwyddyn academaidd. Caiff caniatâd i gyhoeddi ffotograffau/delweddau ei adnewyddu bob blwyddyn. | Ble gallai'r delweddau gael eu cyhoeddi. Er enghraifft: Twitter, Facebook, gwefan yr ysgol, y wasg leol, ac ati (gweler yr adran berthnasol ar y ffurflen isod) |
| | Pwy fydd yn gallu cael gweld y delweddau. |
| | Ble bydd y delweddau'n cael eu cadw. |
| | Am ba mor hir bydd y delweddau'n cael eu cadw. |
| | Sut bydd y delweddau'n cael eu dinistrio. |
| | Sut mae modd gwneud cais am ddileu'r delweddau.<br><br>Dylai Rhieni/Gofalwyr nodi bod modd gweld gwefannau ledled y Byd, ac nid yn y Deyrnas Unedig yn unig lle mae cyfraith diogelu data'r DU/UE yn berthnasol. Ni all yr ysgol reoli delweddau a gwybodaeth pan fyddant yn cael eu copïo oddi ar y wefan. |

Ffurflen Caniatâd Delweddau Digidol/Fideo

Enw'r Rhiant/Gofalwr:.................................... Enw(au)'r Dysgwr(wyr):.................................................

| Disgrifiad o'r defnydd o Ffotograffau neu Ddelweddau | | |
|---|---|---|
| Rwy'n cytuno i ffotograffau/fideos gael eu tynnu o'm plentyn yn ystod gweithgareddau'r ysgol i'w defnyddio ar fyrddau arddangos neu waliau o amgylch yr ysgol. | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Rwy'n cytuno i ffotograffau/fideos gael eu tynnu o'm plentyn yn ystod gweithgareddau'r ysgol i'w defnyddio mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu gan yr ysgol. | ☐ Ydw | ☐ Nac Ydw |
| Rwy'n cytuno i ffotograffau/fideos gael eu tynnu o'm plentyn yn ystod gweithgareddau'r ysgol i'w defnyddio ar sianeli digidol yr ysgol (ee gwefannau, cyfryngau cymdeithasol). | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Rwy'n cytuno i ffotograffau/fideos gael eu tynnu o'm plentyn yn ystod gweithgareddau'r ysgol a'u defnyddio mewn cyfryngau lleol neu genedlaethol (ee papurau newydd neu ymddangosiadau ar y teledu). | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

NEU

| | | |
|---|---|---|
| Nid wyf yn dymuno i unrhyw ffotograffau/fideos gael eu tynnu o'm plentyn at y dibenion a amlinellir uchod. | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

**Llofnodwyd:** ..................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................

Mae croeso i rieni/gofalwyr dynnu lluniau digidol/fideo o'u plant yn nigwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Cyfreithiau Diogelu Data). Fodd bynnag, i barchu preifatrwydd pawb (neu eu hamddiffyn mewn rhai achosion) ni ddylai'r delweddau hyn gael eu cyhoeddi/gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni/gofalwyr wneud sylw ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys delweddau digidol/fideo o ddysgwyr eraill.

## Defnyddio Systemau'r Cwmwl

Yng Nghymru, mae pob dysgwr yn gallu mynd i Hwb drwy ei gyfrif personol. Er mwyn creu cyfrif, caiff data personol ei rannu rhwng yr ysgol a Hwb. Mae defnyddio data personol fel hyn yn cael ei ystyried yn dasg gyhoeddus at ddibenion diogelu data. Mae hyn yn golygu nad oes angen cydsyniad er mwyn i ddysgwr gael cyfrif Hwb a chyrchu'r adnoddau a'r gwasanaethau ar y llwyfan hwn. Gellir cael mwy o fanylion yng nghanolfan cymeradwyo Hwb.

Dylai ysgolion sy'n defnyddio gwasanaethau lletya eraill yn y cwmwl asesu'r risg o rannu data personol gydag unrhyw drydydd parti arall a dylent nodi'r sail gyfreithlon gywir ar gyfer rhannu'r data hwn. Mae'n debygol y bydd angen caniatâd rhiant/gofalwr er mwyn creu cyfrif. Dylai ysgolion ystyried effaith dibynnu ar gydsyniad fel y sail gyfreithlon os ystyrir bod y gwasanaeth yn hanfodol i ddarparu addysg. Os bydd caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl ac nad oes modd cyrchu'r gwasanaeth mwyach, dylai'r ysgol ystyried a fyddai hyn yn cael effaith negyddol ar addysg y dysgwyr?

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno cynnwys ffurflen syml i gasglu unrhyw gydsyniad angenrheidiol yma.

## Defnyddio Systemau Biometrig yng Nghymru a Lloegr

Os bydd yr ysgol yn defnyddio systemau biometrig (ee technolegau adnabod olion bysedd/cledrau dwylo) i adnabod plant at ddibenion mynediad, cofnodi presenoldeb, codi tâl, benthyciadau llyfrgell ac ati, dylid (o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data a "Diogelu Rhyddidau") gofyn am ganiatâd rhiant neu ofalwr.

Mae'r ysgol yn defnyddio systemau biometrig i adnabod plant unigol trwy'r dulliau canlynol (dylai'r ysgol ddisgrifio yma sut mae'n defnyddio'r system fiometrig).

Mae gan dechnolegau biometrig fanteision penodol o gymharu â systemau adnabod awtomatig eraill, am nad oes yn rhaid i ddysgwyr gofio dod ag unrhyw beth gyda nhw (i'r ffreutur neu lyfrgell yr ysgol) ac felly ni fyddant yn gallu colli unrhyw beth, megis cerdyn allwedd.

Mae'r ysgol wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data ac y mae'n hyderus bod y defnydd o dechnolegau o'r fath yn effeithiol ac wedi'i gyfiawnhau yng nghyd-destun yr ysgol. Darllenwch isod i gael rhagor o wybodaeth:

Gan fod yr ysgol yn casglu data personol categori arbennig ac yn *dilëwch fel y bo'n briodol* rhannu hyn â thrydydd parti, dylai roi gwybod am y canlynol i'r rhieni/gofalwyr:

| | |
|---|---|
| Y ffurflen hon (electronig neu wedi'i hargraffu) | Y data sy'n cael ei rannu â'r darparwr gwasanaeth |
| Pwy fydd yn gallu gweld y ffurflen hon. | Pa ddata fydd yn cael ei rannu |
| Ble bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. | Gyda phwy fydd y data'n cael ei rannu |
| Am ba mor hir bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. | Pwy fydd yn gallu cael gweld y data. |
| Sut bydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio. | Ble bydd y data'n cael ei gadw. |
| | Am ba mor hir bydd y data'n cael ei gadw. |
| | Sut bydd y data'n cael ei ddinistrio. |
| | Sut mae modd tynnu caniatâd i brosesu'r data biometreg yn ôl. |

Ni chaiff delweddau cyflawn o olion bysedd/cledrau dwylo eu storio, ac ni ellir ail-greu delwedd wreiddiol y data. Hynny yw, ni ellir ail-greu ôl bys disgybl nac hyd yn oed darlun o ôl ei fys gan ddefnyddio'r hyn sydd yn ei hanfod yn rhes o rifau.

**Enw'r Rhiant/Gofalwr:**.................................... **Enw(au)'r Dysgwr(wyr)** ..............................................

Os ydy eich plentyn dros 13 oed, rydym yn argymell eich bod yn llenwi'r ffurflen hon gyda nhw, oherwydd efallai y bydd dysgwyr yn gallu penderfynu sut y gellir defnyddio eu data mewn rhai amgylchiadau.

| | |
|---|---|
| Fel rhiant/gofalwr y dysgwr(dysgwyr) uchod, rwy'n cytuno y gall yr ysgol ddefnyddio'r systemau adnabod biometrig a ddisgrifir uchod. | Do/Naddo |
| Rwy'n deall na ellir defnyddio'r delweddau hyn i greu print ôl bys/cledr llaw cyflawn fy mhlentyn, ac ni chaiff y delweddau hyn eu rhannu ag unrhyw un y tu allan i'r ysgol | Do/Naddo |

**Llofnodwyd:**......................................................................................................................

### Canllawiau pellach

- Dylai'r ysgol roi gwybod i rieni'r plentyn eu bod yn bwriadu prosesu manylion biometrig eu plentyn a dylid rhoi gwybod iddynt fod modd iddynt wrthwynebu hynny.
- Caiff ysgol brosesu manylion biometreg plant, ar yr amod bod o leiaf un rhiant wedi rhoi caniatâd am hynny ac nad oes yr un rhiant wedi tynnu'r caniatâd yn ôl. Mae'n rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig.
- Mae'n bosib i blentyn dros 13 oed wrthwynebu neu wrthod cymryd rhan yn y broses o brosesu ei ddata biometrig, hyd yn oed os yw'r rhieni wedi rhoi caniatâd.
- Mae'n rhaid i ysgolion gyflwyno dulliau amgen rhesymol o gael mynediad at wasanaethau i'r dysgwyr hynny na fyddant yn defnyddio system adnabod biometrig.
- Dim ond unwaith y mae'n rhaid sicrhau caniatâd yn ystod cyfnod y dysgwr yn yr ysgol, ond bydd angen caniatâd o'r newydd os bydd y systemau biometrig sy'n cael eu defnyddio'n newid.

### Cytundeb Defnydd Derbyniol Dysgwyr

Ar y tudalennau dilynol rydym wedi gwneud copi o'r cytundeb defnydd derbyniol dysgwyr er gwybodaeth i rieni a gofalwyr.

Pan fydd y CDD dysgwyr yn cael ei ysgrifennu, awgrymir atodi copi i'r cytundeb defnydd derbyniol rhieni a gofalwyr i ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am y rheolau a'r ymddygiad mae'r dysgwr wedi ymrwymo iddynt wrth arwyddo'r ffurflen.

# A5 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol y Staff (a Gwirfoddolwyr)

Mae'r templed hwn wedi cael ei ddiweddaru'n sylweddol ym mis Mawrth 2025 i ystyried newidiadau mewn ymddygiad a thechnolegau digidol, y defnydd o systemau Deallusrwydd Artiffisial mewn ysgolion, a'r canllawiau diweddaraf ym maes Cadw Plant yn Ddiogel ym Myd Addysg a Safonau Technegol ar gyfer Ysgolion a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg. Argymhellir bod ysgolion sydd eisoes yn defnyddio'r templed hwn yn mabwysiadu'r fersiwn newydd hon gan fod gormod o newidiadau i allu defnyddio fersiwn "tracio newidiadau". Dylai ysgolion sydd angen fersiwn â'r newidiadau wedi'u tracio anfon e-bost i 360safe@swgfl.org.uk.

## Polisi'r Ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan annatod o fywyd plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn adnoddau pwerus, sy'n gallu ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Maen nhw hefyd yn creu cyfleoedd i staff fod yn fwy creadigol a chynhyrchiol yn eu gwaith. Mae gan yr ysgol yr hawl i warchod ei hun a'i systemau, a dylai fod gan bob defnyddiwr yr hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn ddiogel bob amser.

## Diben y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- bod staff a gwirfoddolwyr yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol at ddibenion addysgol, personol a hamdden
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr
- bod staff yn cael eu gwarchod rhag peryglon posibl wrth ddefnyddio technoleg yn eu gwaith bob dydd.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cael mynediad da at dechnoleg ddigidol er mwyn gwella eu gwaith a chynyddu cyfleoedd dysgu. Yn gyfnewid am hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i staff a gwirfoddolwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

## Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Rydw i'n deall bod rhaid i mi ddefnyddio systemau'r ysgol mewn ffordd gyfrifol, er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch neu breifatrwydd cymuned yr ysgol a'i systemau. Rydw i'n cydnabod potensial technolegau digidol ar gyfer gwella'r broses ddysgu, a byddaf yn ceisio eu cynnwys mewn ffordd sy'n cyd-fynd â pholisi, ethos a gwerthoedd yr ysgol.

**Ar gyfer fy niogelwch proffesiynol a phersonol:** (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'r polisïau perthnasol):

- Rydw i'n deall y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o ddyfeisiau a systemau technoleg ddigidol yr ysgol.
- Rydw i'n deall bod y rheolau a nodir yn y cytundeb hwn hefyd yn berthnasol wrth ddefnyddio'r dyfeisiau a'r technolegau hyn oddi allan i'r ysgol, ac wrth drosglwyddo data personol / sensitif (yn ddigidol neu ar bapur) oddi allan i'r ysgol.
- Rydw i'n deall mai defnydd addysgol yw prif ddiben dyfeisiau a systemau technoleg ddigidol yr ysgol, ac mai dim ond yn unol â pholisïau perthnasol yr ysgol y bydda i'n eu defnyddio at ddibenion personol neu hamdden.
- Fydda i ddim yn datgelu fy enw defnyddiwr na fy nghyfrinair i neb, nac yn ceisio defnyddio enw defnyddiwr na chyfrinair unrhyw un arall.
- Byddaf yn cadw fy nghyfrineiriau'n ddiogel ac yn unol â pholisi diogelwch perthnasol yr ysgol. Byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i'r person priodol am unrhyw ddigwyddiad neu ddeunydd anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol.

**Byddaf yn cyfathrebu ac yn ymddwyn yn broffesiynol wrth ddefnyddio technolegau a systemau digidol:** (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â pholisïau perthnasol):

- Fydda i ddim yn copïo, yn tynnu, yn newid nac yn mynd i mewn i ffeiliau defnyddwyr eraill heb eu caniatâd penodol nhw.
- Byddaf yn cyfathrebu'n broffesiynol ag eraill. Fydda i ddim yn defnyddio iaith ymosodol nac amhriodol, ac rydw i'n sylweddoli bod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
- Pan fyddaf yn gwneud a/neu'n cyhoeddi delweddau o bobl eraill, byddaf yn sicrhau fy mod i'n gwneud hynny gyda'u caniatâd ac yn unol â pholisi'r ysgol ar ddefnyddio delweddau digidol/fideo, ac ar ôl ystyried caniatâd rhieni. Fydda i ddim yn defnyddio fy offer personol i recordio'r delweddau hyn, oni bai fy mod i wedi cael caniatâd i wneud hynny. Pan gyhoeddir y delweddau hyn (ee, ar wefan yr ysgol) fydd dim modd adnabod yn ôl enw, neu wybodaeth bersonol arall, y rheini sy'n ymddangos yn y delweddau.
- Byddaf yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn yr ysgol yn unol â pholisïau'r ysgol.
- Dim ond drwy ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol y bydda i'n cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath yn broffesiynol o ran ei naws a'i ddull.
- Fydda i ddim yn gwneud unrhyw beth ar-lein a allai beryglu fy nghyfrifoldebau proffesiynol.

**Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i ddarparu mynediad saff a diogel at dechnolegau a sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth:** (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â pholisïau perthnasol):

- Byddaf yn cadw at yr holl ganllawiau a deddfwriaethau perthnasol (ee, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel / GDPR y DU)

- Byddaf yn sicrhau fy mod i'n ymwybodol o risgiau seiberddiogelwch, ac na fyddaf yn ymateb i unrhyw neges a allai roi fy nata i / data neu systemau'r ysgol mewn perygl o ymosodiad
- Wrth ddefnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (Gen AI) yn fy rôl broffesiynol, byddaf yn defnyddio'r rhain yn gyfrifol ac yn:
  - defnyddio dim ond offer Deallusrwydd Artiffisial sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr ysgol
  - ymwybodol o risgiau o ddangos rhagfarn a gwahaniaethu, gan werthuso'n feirniadol allbynnau systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ar gyfer risgiau o'r fath
  - sicrhau fy mod i wedi cael caniatâd pendant wrth lwytho gwybodaeth sensitif sy'n ymwneud â'r ysgol i fyny i systemau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, er mwyn diogelu data personol a sensitif
  - gofalu nad ydw i'n torri arferion hawlfraint nac eiddo deallusol – cymryd gofal i geisio sicrhau nad yw eiddo deallusol, gan gynnwys eiddo deallusol y dysgwyr, yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi modelau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol heb ganiatâd priodol
  - sicrhau bod dogfennau, negeseuon e-bost, cyflwyniadau ac allbynnau eraill y mae Deallusrwydd Artiffisial yn dylanwadu arnynt yn cynnwys labeli neu nodiadau clir sy'n nodi y cafwyd cymorth ar ffurf Deallusrwydd Artiffisial
  - gwerthuso'n feirniadol allbynnau a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial er mwyn sicrhau bod yr holl gynnwys a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial yn cael ei wirio a'i adolygu cyn cael ei rannu neu ei gyhoeddi er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gywir
  - defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn gyfrifol i greu cynnwys dilys a buddiol, gan sicrhau bod manylion a llesiant unigolion yn cael eu parchu
- *Pan fydda i'n defnyddio fy nyfeisiau symudol personol yn yr ysgol, byddaf yn dilyn y rheolau a osodwyd gan yr ysgol, yn yr un modd â phe bawn i'n defnyddio offer yr ysgol. Byddaf yn sicrhau bod unrhyw ddyfeisiau o'r fath yn cael eu gwarchod gan feddalwedd gwrthfeirysau / gwrthfaleiswedd gyfredol ac nad oes feirysau arnynt.*
- *Wrth gyfathrebu at ddibenion fy ngwaith, dim ond technoleg a systemau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr ysgol y bydda i'n eu defnyddio.*
- *Fydda i ddim yn defnyddio cyfrifon personol ar systemau'r ysgol.*
- Byddaf yn defnyddio arferion saff a diogel wrth ddilyn dolenni at gynnwys y tu allan i'm sefydliad er mwyn lleihau'r risg o fygythiadau seiberddiogelwch.
- Byddaf yn gwneud copi wrth gefn o fy nata yn rheolaidd, yn unol â pholisïau perthnasol yr ysgol.
- Fydda i ddim yn mynd ati i gael mynediad at gynnwys anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol ar systemau'r ysgol.
- Fydda i ddim yn osgoi unrhyw systemau hidlo na diogelwch a ddefnyddir i atal mynediad at gynnwys o'r fath.
- Fydda i ddim yn gosod nac yn ceisio gosod rhaglenni heb eu hawdurdodi o unrhyw fath ar ddyfeisiau'r ysgol, ac ni fyddaf chwaith yn ceisio newid gosodiadau dyfeisiau, oni bai fod polisïau'r ysgol yn caniatáu hynny.

- Fydda i ddim yn analluogi nac yn achosi unrhyw ddifrod i offer yr ysgol, nac offer sy'n eiddo i bobl eraill.
- Os byddaf yn cludo, yn cadw, yn datgelu neu'n rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf fi neu am bobl eraill, byddaf yn gwneud hynny yn unol â Pholisi Diogelu Data'r ysgol (neu bolisi perthnasol arall). Os bydd data personol digidol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r rhwydwaith lleol diogel, rhaid ei amgryptio. Rhaid i ddogfennau papur sy'n cynnwys data personol gael eu cadw mewn storfa y gellir ei chloi.
- Rydw i'n deall bod y polisi diogelu data yn mynnu bod unrhyw ddata am staff neu ddysgwr y mae gennyf fynediad ato yn gorfod cael ei gadw'n breifat ac yn gyfrinachol, oni bai fod y gyfraith neu bolisi'r ysgol yn mynnu fy mod yn datgelu'r wybodaeth honno i awdurdod priodol.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddifrod neu namau sy'n ymwneud ag offer neu feddalwedd, beth bynnag fydd wedi achosi hynny.

**Wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion fy ngwaith neu ddefnydd personol a gymeradwyir gan yr ysgol:**

- Byddaf yn sicrhau bod gennyf ganiatâd priodol i ddefnyddio gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun, a byddaf yn adlewyrchu hynny gyda chydnabyddiaeth briodol – yn enwedig pan fydd Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol wedi cael ei ddefnyddio.
- Fydda i ddim yn lawrlwytho nac yn dosbarthu copïau o waith sydd wedi'i warchod dan hawlfraint (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).

**Rydw i'n deall fy mod i'n atebol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol:**

- Rydw i'n deall bod y cytundeb defnydd derbyniol hwn yn berthnasol i'r ffordd rydw i'n defnyddio technolegau digidol sy'n gysylltiedig â'm cyfrifoldebau proffesiynol, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol.
- Byddaf yn sicrhau fy mod i'n defnyddio technolegau a phlatfformau yn unol â'r codau ymddygiad a gytunwyd ar gyfer yr ysgol.
- Os na fydda i'n cydymffurfio â'r cytundeb defnydd derbyniol hwn, rydw i'n deall y gallwn i wynebu camau disgyblu. Gallai hynny gynnwys (dylai ysgolion addasu'r adran hon i ddarparu cosbau perthnasol yn unol â'u polisïau ymddygiad) rhybudd, cael fy atal o'r gwaith dros dro, cyfeirio'r mater at y Llywodraethwyr a/neu'r Awdurdod Lleol, ac mewn achos o weithgarwch anghyfreithlon, bydd angen cysylltu â'r heddlu.

Rydw i wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod, ac rydw i'n cytuno i ddefnyddio systemau technoleg ddigidol yr ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol) a fy nyfeisiau personol (yn yr ysgol ac mewn cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r ysgol) yn unol â'r canllawiau hyn.

Enw’r Aelod Staff/Gwirfoddolwr: ......................................................................

Llofnod: ......................................................................

Dyddiad: ......................................................................

# A6 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol ar gyfer Defnyddwyr Cymunedol

**Diben y cytundeb defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:**

- y bydd defnyddwyr cymunedol yn gyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol a chânt eu diogelu rhag niwed posibl wrth eu defnyddio
- bod systemau'r ysgol, dyfeisiau a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

## Cytundeb Defnydd Derbyniol

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol mewn ffordd gyfrifol, i sicrhau nad oes perygl i fy niogelwch nac i ddiogelwch y systemau, y dyfeisiau nac i'r defnyddwyr eraill. Bydd y cytundeb hwn hefyd yn berthnasol pan fyddaf yn dod ag unrhyw ddyfeisiau personol i'r ysgol:

- Rwy'n deall y bydd fy nefnydd o systemau a dyfeisiau'r ysgol yn cael ei fonitro.
- Ni fyddaf yn defnyddio dyfais bersonol yn yr ysgol i wneud unrhyw beth a fyddai'n anaddas yn yr ysgol.
- Ni fyddaf yn ceisio llwytho, lawrlwytho na chael mynediad i unrhyw ddeunydd anghyfreithlon (delweddau o gam-drin plant yn rhywiol, deunydd hiliol troseddol, deunydd terfysgol ac eithafol, pornograffi oedolion sy'n cael sylw yn y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus) neu anaddas neu ddeunydd a allai achosi niwed neu drallod i eraill. Ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd sy'n gallu osgoi'r systemau hidlo/diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad i'r fath ddeunydd.
- Byddaf yn hysbysu'r person priodol am unrhyw ddeunydd neu ddigwyddiad anghyfreithlon, anaddas neu niweidiol cyn gynted ag yr wyf yn dod yn ymwybodol ohono.
- Ni fyddaf yn cyrchu, yn copïo, yn tynnu nac yn newid ffeiliau defnyddwyr eraill heb ganiatâd.
- Byddaf yn sicrhau fy mod i'n cael caniatâd cyn cymryd ac/neu gyhoeddi delweddau o bobl eraill. Ni fyddaf yn defnyddio offer personol i gadw'r delweddau hyn, oni fyddaf wedi cael caniatâd i wneud hynny. Os bydd y delweddau'n cael eu cyhoeddi, rhaid sicrhau nad yw'n bosibl adnabod y sawl sydd yn y delweddau hyn wrth eu henwau, na gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth bersonol arall amdanynt.
- Ni fyddaf yn cyhoeddi nac yn rhannu unrhyw wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr ysgol ar unrhyw wefan bersonol, gwefan rhwydweithio cymdeithasol nac unrhyw fodd arall, os nad wyf yn cael caniatâd yr ysgol.
- Ni fyddaf, heb ganiatâd, yn lawrlwytho ffeiliau mawr nac yn llwytho pethau a allai ddefnyddio gormod o gapasiti'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gallu gwneud eu gwaith.

- Ni fyddaf yn gosod nac yn ceisio gosod rhaglenni o unrhyw fath ar ddyfeisiau'r ysgol, ac ni fyddaf chwaith yn ceisio newid gosodiadau cyfrifiadur, os nad oes gennyf ganiatâd i wneud hynny.
- Ni fyddaf yn analluogi/achosi unrhyw ddifrod i offer yr ysgol, nac offer sy'n eiddo i bobl eraill.
- Byddaf yn adrodd am namau/difrod i offer/meddalwedd yn syth, beth bynnag fydd wedi achosi hynny.
- Byddaf yn sicrhau bod gennyf ganiatâd i ddefnyddio gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun.
- Ni fyddaf yn lawrlwytho nac yn dosbarthu copïau o waith sydd wedi'i warchod dan hawlfraint (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).
- Rwy'n ymwybodol bod gan yr ysgol yr hawl i fy rhwystro rhag defnyddio systemau/dyfeisiau'r ysgol os na fyddaf yn cydymffurfio â'r cytundeb defnydd derbyniol hwn

Rwyf wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod ac rwy'n cytuno i ddefnyddio systemau technoleg digidol yr ysgol (y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol) a fy nyfeisiau personol (yn yr ysgol ac mewn cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r ysgol) yn unol â'r canllawiau hyn.

Gan fod yr ysgol yn casglu data personol drwy gyflwyno'r ffurflen hon, dylai roi gwybod y canlynol i ddefnyddwyr cymunedol:

| | |
|---|---|
| Pwy fydd yn gallu gweld y ffurflen hon. | Sut bydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio. |
| Ble bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. | Am ba mor hir bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw. |

Enw: .....................................................

Llofnodwyd: .....................................................

Dyddiad: .....................................................

# A7 Templed Cylch Gorchwyl Grŵp Diogelwch Ar-lein

## 1. Pwrpas

Gweithredu fel grŵp ymgynghorol sydd â chynrychiolaeth eang o gymuned yr [ysgol], ac sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a monitro'r Polisi Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys effaith cynlluniau. Yn ddibynnol ar faint neu strwythur yr ysgol, efallai bydd y grŵp yma yn rhan o'r grŵp diogelu. Bydd y grŵp hefyd yn gyfrifol am adrodd rheolaidd i'r Corff Llywodraethu llawn.

## 2. Aelodaeth

2.1. Bydd y Grŵp Diogelwch Ar-lein yn ceisio cynnwys cynrychiolaeth gan yr holl randdeiliaid. Dylai cyfansoddiad y grŵp gynnwys (Noder, mewn ysgolion bach caniateir i un aelod o staff gael mwy nag un o'r swyddi hyn):
[ychwanegu/dileu lle bo'n berthnasol]

- Aelod/au o'r Uwch Dîm Arwain
- Swyddog Amddiffyn/Diogelu Plant
- Aelod o'r staff dysgu
- Aelod o'r staff cefnogol
- Arweinydd diogelwch ar-lein (nid y cydlynydd TGCh yn awtomatig)
- Llywodraethwr
- Rhiant/Gofalwr
- Staff Cefnogol Technegol TGCh (pan fo'n bosibl)
- Defnyddwyr cymunedol (lle bo'n briodol)
- *Cynrychiolaeth o'r dysgwyr* – i gael cyngor ac adborth. *Mae llais y dysgwyr yn hanfodol yng nghyfansoddiad y Grŵp Diogelwch Ar-lein, ond dim ond mewn cyfarfodydd pwyllgor a ystyrir yn berthnasol y disgwylir i ddysgwyr gymryd rhan.*

2.2. Efallai y bydd pobl eraill yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfodydd ar gais y cadeirydd ar ran y Grŵp Diogelwch Ar-lein i ddarparu cyngor a chymorth lle bydd hynny'n angenrheidiol.

2.3. Mae'n rhaid i aelodau'r grŵp ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau os oes unrhyw ddigwyddiadau a drafodir yn cyfeirio'n uniongyrchol atynt neu at eu teulu.

2.4. Bydd angen i aelodau'r grŵp fod yn ymwybodol bod llawer o'r materion a drafodir gan y grŵp hwn yn gallu bod o natur sensitif neu gyfrinachol.

2.5. Pan fydd aelodau unigol yn teimlo'n anghyffyrddus am yr hyn a drafodir, dylid caniatáu iddynt adael y cyfarfod a bydd yr aelodau eraill yn cymryd camau er mwyn bod yn sensitif.

## 3. Cadeirydd

Dylai'r Grŵp Diogelwch Ar-lein ddewis cadeirydd addas o'r grŵp. Bydd ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Trefnu cyfarfodydd a rhoi gwybod amdanynt i aelodau'r pwyllgor;
- Gwahodd pobl eraill i fynychu cyfarfodydd pan fydd angen hynny ar y grŵp;
- Arwain y cyfarfod yn ôl yr agenda a'r amser sydd ar gael;
- Sicrhau bod penderfyniad, cam gweithredu neu ganlyniad pendant i'r holl eitemau a drafodir;
- Sicrhau bod nodiadau'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd a bod y rhai gydag unrhyw bwyntiau gweithredu yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen

## 4. Hyd y Cyfarfodydd

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal [nodwch pa mor aml] am gyfnod o [nodwch rif] awr. Gellir galw cyfarfod arbennig neu eithriadol pan/os bydd hynny'n angenrheidiol.

## 5. Swyddogaethau

Bydd y swyddogaethau hyn yn cynorthwyo'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein (neu berson perthnasol arall) â'r canlynol [ychwanegu/dileu fel sy'n berthnasol]:

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd ym maes diogelwch ar-lein.
- Adolygu a datblygu'r Polisi Diogelwch Ar-lein yn flynyddol (o leiaf) yn unol â thechnolegau a digwyddiadau newydd.
- Monitro sut caiff y Polisi Diogelwch Ar-lein ei gyflwyno a pha effaith a gaiff.
- Monitro cofnodion digwyddiadau diogelwch ar-lein sydd wedi cael eu hadrodd (yn ddienw) i lywio meysydd addysgu/dysgu/hyfforddi'r dyfodol.
- Cydlynu ymgynghoriad â chymuned yr ysgol gyfan i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r wybodaeth, yr hyfforddiant a/neu'r datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â diogelwch ar-lein. Gall hyn gael ei gyflawni drwy wneud y canlynol [ychwanegu/dileu fel sy'n berthnasol]:
    - cyfarfodydd staff
    - fforymau dysgwyr (ar gyfer cyngor ac adborth)
    - cyfarfodydd llywodraethwyr
    - arolygon/holiaduron i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff
    - nosweithiau rhieni
    - gwefan/rhith-amgylchedd dysgu/cylchlythyrau
    - digwyddiadau diogelwch ar-lein
    - Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel sy'n cael ei gynnal ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Chwefror bob blwyddyn
    - dulliau eraill
- Sicrhau bod safweoedd a ddefnyddir ledled yr ysgol yn cael eu monitro.
- Monitro hidlyddion/logiau rheoli newid (ee cais i flocio/dadflocio gwefannau).
- Monitro defnydd diogel o ddata ar draws yr ysgol.
- Monitro digwyddiadau sy'n ymwneud â bwlio ar-lein i staff a disgyblion.

## 6. Diwygio

Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol wedi iddo gael ei gymeradwyo. Mae modd ei newid i ddiwallu anghenion cyfredol holl aelodau'r grŵp, os bydd y rhan fwyaf yn cytuno.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl uchod ar gyfer [rhowch enw'r sefydliad]

Llofnodwyd gan [Uwch Dîm Arwain]: ..............................................................................

Dyddiad: ..............................................................................

Dyddiad adolygu: ..............................................................................

# Atodiad

## A8 – Templed Polisi Camddefnyddio Cyfrifiaduron a Cyber Choices

Templed polisi newydd ac ychwanegol - Mawrth 2025


Mae'r holl randdeiliaid allweddol – gan gynnwys yr Awdurdod Lleol a, phan fydd yn berthnasol, y Partner Cymorth Technoleg Addysg – yn gyfrifol am warchod pobl ifanc rhag camddefnydd o gyfrifiaduron, ac yn ymwybodol o'r rhaglen Cyber Choices sy'n cael ei harwain gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) a'i rheoli'n lleol gan Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (sy'n rhan o'r rhwydwaith plismona cenedlaethol). Mae'r risgiau y bydd pobl ifanc yn croesi'r llinell i gyflawni seiberdroseddau yn broblem ddiogelu. Mae hyn yn aml yn digwydd heb i'r unigolion sylweddoli eu bod yn cyflawni trosedd. Dyna pam mae angen help ar bobl ifanc i wneud y dewisiadau seiber cywir wrth ddefnyddio technoleg. Mae'r risg o gyflawni seiberdrosedd yn cael ei hystyried yn uwch ymysg pobl ifanc sydd â diddordeb mewn technoleg, ac sydd ag IQ uchel a dyhead i ymddwyn yn fentrus. Dydy llawer o droseddwyr tro cyntaf ddim chwaith yn gwybod beth yw'r gyfraith ar gyfer seiberdroseddu. Yn y DU, mae oedran cyfartalog y rheini sy'n cyflawni seiberdrosedd am y tro cyntaf wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhaglen Cyber Choices yn gweithio gydag unigolion sy'n cyflawni – neu sydd mewn perygl o gyflawni – seiberdroseddau sydd ond yn gallu cael eu cyflawni gyda thechnoleg, lle mae dyfeisiau yw'r teclyn a ddefnyddir i gyflawni'r drosedd yn ogystal â tharged y drosedd.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r risgiau diogelu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyfrifiaduron.

Mae'r holl staff yn gyfarwydd â thaflen Hacking it Legal yr NCA*, sy'n egluro Cyber Choices a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, ac yn rhestru'r adnoddau a argymhellir i athrawon eu defnyddio.

Mae'r staff yn ymwybodol o rôl eu Huned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol leol fel eu pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau Cyber Choices.

Mae dysgwyr yn cytuno â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol sy'n amlinellu ymddygiad derbyniol ar-lein ac yn egluro bod rhai gweithgareddau ar-lein yn anghyfreithlon. Mae defnydd derbyniol o gyfrifiaduron yn cael ei atgyfnerthu ar draws y cwricwlwm, gyda chyfleoedd i drafod sut i ymddwyn o fewn ffiniau moesol a chyfreithiol ar-lein, gan gyfeirio at Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Mae gwersi ac adnoddau pellach ar gael ar safle Cyber Choices yr NCA.




[1] Mae'r siart llif isod yn darparu proses amlinellol arfaethedig ar gyfer delio â digwyddiadau diogelwch ar-lein. Efallai y byddwch am ei addasu a'i gysoni ag arferion a pholisïau diogelu perthnasol i sicrhau bod dull cyson o ddelio â digwyddiadau diogelu yn eich lleoliad.

[2] Fel arfer bydd y Cyfarfod Adolygu Digwyddiad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad difrifol er mwyn penderfynu ar y camau nesaf, a bydd fel arfer yn dilyn unrhyw gamau diogelu brys sydd wedi cael eu cymryd (nodyn: mae'n bosibl na fydd angen Cyfarfod Adolygu Digwyddiad ar gyfer digwyddiadau llai difrifol).

# A10 Cofnod o adolygu dyfeisiau/gwefannau

(yn ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd)

Ysgol: ..................................................................................................

Dyddiad: ..................................................................................................

Rheswm dros yr ymchwiliad: ..................................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................

Manylion y person adolygu cyntaf

Enw: ......................................................................

Swydd: ......................................................................

Llofnod: ......................................................................

Manylion yr ail berson adolygu

Enw: ......................................................................

Swydd: ......................................................................

Llofnod: ......................................................................

Enw a lleoliad y ddyfais a ddefnyddir i gynnal yr adolygiad (ar gyfer gwefannau)

..................................................................................................

..................................................................................................

| Cyfeiriad gwefan(nau)/dyfais | Rheswm am y pryder |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Casgliad a chamau gweithredu a gynigwyd neu a gymerwyd

| | |
|---|---|
| | |
| | |

# A11 Log Adrodd

Ysgol: ............................................................................

| Dyddiad | Amser | Digwyddiad | Y camau a gymerwyd | | Adroddwyd am y digwyddiad gan | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Beth? | Gan bwy? | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# B1 Log Archwiliad o Anghenion Hyfforddi

Ysgol: ....................................................................

| Hyfforddiant perthnasol yn y 12 mis diwethaf | Hyfforddiant sydd ei angen | I'w gyflawni erbyn | Cost | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# C1 Templed Polisi Diogelwch Technegol (yn cynnwys hidlo a chyfrineiriau)

### Awgrymiadau ar gyfer defnyddio

Yn y templed hwn dangosir yr adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth neu gyfarwyddyd mewn GLAS. Rhagwelir y bydd ysgolion yn dileu'r adrannau hyn o'u dogfen bolisi wedi'i chwblhau, ond penderfyniad i'r grŵp sy'n llunio'r polisi fydd hwn.

*Pan fo adrannau yn y templed wedi'u hysgrifennu mewn italig rhagwelir y bydd ysgolion eisiau ystyried a ddylid cynnwys neu hepgor yr adran neu'r datganiad hwnnw yn eu polisi terfynol.*

Pan fo'r adrannau mewn testun TRWM, mae'r rhain, ym marn Grŵp Diogelwch Ar-lein SWGfL, yn rhan hanfodol o Bolisi Diogelwch Ar-lein ysgol.

### Cyflwyniad

Mae diogelwch technegol effeithiol yn dibynnu ar fesurau technegol yn ogystal ag ar bolisïau a gweithdrefnau priodol ac ar addysg a hyfforddiant da i ddefnyddwyr. Bydd yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod seilwaith yr ysgol mor ddiogel â phosibl, ac am sicrhau'r canlynol:

- Mai dim ond at ddata y caniateir iddynt ei weld y mae gan ddefnyddwyr fynediad ato
- Ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr allu gweld ffeiliau defnyddiwr arall (ac eithrio'r hyn a ganiateir at ddibenion monitro gan bolisïau'r ysgol).
- Caiff mynediad at ddata personol ei reoli'n ddiogel yn unol â pholisi data personol yr ysgol
- Caiff logiau eu cynnal a'u cadw am ddefnydd a gweithgareddau defnyddwyr o'r system
- Mae canllawiau a hyfforddiant effeithiol ar gael i ddefnyddwyr
- Caiff diogelwch dyfeisiau'r ysgol ei adolygu a'i archwilio'n rheolaidd
- Bydd gweithgarwch defnyddwyr yn cael ei fonitro a'i hidlo, a bydd prosesau digonol ar waith i ganfod ac ymateb i ddigwyddiadau
- Bydd uwch arweinwyr yn goruchwylio hefyd ac maent yn dylanwadu ar bolisïau ac arferion.

Os oes gan yr ysgol wasanaeth TGCh wedi'i reoli yn cael ei ddarparu gan gontractwr allanol, cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod darparwr y gwasanaeth a reolir yn cyflawni'r holl fesurau diogelwch ar-lein a fyddai fel arall yn cael ei wneud gan yr ysgol ei hun (fel yr awgrymir isod). Mae hefyd yn bwysig bod darparwr y gwasanaeth a reolir yn gwbl ymwybodol o bolisi diogelwch ar-lein/cytundebau defnydd derbyniol yr ysgol). Dylai'r ysgol hefyd ddarllen polisïau a chanllawiau'r awdurdod lleol/cyrff eraill ynghylch y materion technegol hyn. Dylai ysgolion hefyd ystyried y canllawiau sydd ar gael yng Nghanolfan Cymorth Hwb.

## Cyfrifoldebau

Bydd (nodwch deitl y swydd) (mae'n debyg y bydd yr ysgol yn dewis Rheolwr y Rhwydwaith/Staff Technegol/Pennaeth Cyfrifiadura neu unigolyn cyfrifol perthnasol arall) yn gyfrifol am reoli diogelwch technegol.

## Diogelwch Technegol

## Datganiadau polisi

Bydd yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod seilwaith yr ysgol mor ddiogel â phosibl, a sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a gymeradwyir yn y polisi hwn yn cael eu gweithredu. Bydd yn rhaid i'r ysgol hefyd sicrhau bod y bobl berthnasol yn cael arweiniad a hyfforddiant ac yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol:

- Caiff systemau technegol yr ysgol eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion technegol sy'n cael eu hargymell (os nad ydynt wedi'u rheoli gan yr awdurdod lleol, efallai eu bod wedi'u hamlinellu ym mholisi a chanllawiau technegol/diogelwch ar-lein yr Awdurdod Lleol/corff perthnasol arall).
- Caiff diogelwch systemau technegol yr ysgol ei adolygu a'i archwilio'n rheolaidd.
- Rhaid cadw gweinyddion, systemau diwifr a cheblau mewn lle diogel a dylid cyfyngu ar fynediad pobl atynt.
- Mae systemau diogelwch priodol yn eu lle i warchod gweinyddion, muriau cadarn, switsys, llwybryddion, systemau diwifr, dyfeisiau ac ati rhag ymddygiad anfwriadol neu faleisus a allai fygwth diogelwch systemau a data'r ysgol.
- Mae cyfrifoldebau dros reoli diogelwch technegol wedi'u clustnodi'n glir i staff priodol sydd wedi'u hyfforddi'n dda (gallai hyn fod ar lefelau'r ysgol, yr awdurdod lleol neu'r darparwr a reolir).
- Bydd gan bob defnyddiwr hawliau wedi'u diffinio'n glir i gyrchu systemau technegol yr ysgol. *Caiff manylion yr hawliau mynediad sydd ar gael i grwpiau o ddefnyddwyr eu cofnodi gan reolwr y rhwydwaith/staff technegol/person arall, a byddant yn cael eu hadolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, gan y Grŵp Diogelwch Ar-lein.*
- Bydd defnyddwyr yn gyfrifol am ddiogelu eu henwau defnyddiwr a'u cyfrineiriau, ac ni ddylent adael i ddefnyddwyr eraill ddefnyddio'r systemau gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi. Dylent roi gwybod yn syth am unrhyw amheuon neu dystiolaeth o beryglu diogelwch (gweler yr adran ar gyfrineiriau isod).
- Mae (nodwch enw neu deitl swydd) yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion trwyddedau meddalwedd yn gywir ac wedi'u diweddaru ac y gwneir archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod nifer y trwyddedau a brynwyd yn cyfateb i nifer y cyfrifiaduron y gosodwyd meddalwedd arnynt (Gallai nifer annigonol o drwyddedau olygu bod yr ysgol yn torri'r Ddeddf Hawlfraint, a gallai hynny arwain at ddirwyon neu gostau trwyddedu annisgwyl).

- *Mae gweithdrefnau diogelwch a rheoli dyfeisiau ar waith* (lle caniateir i ddyfeisiau symudol gyrchu systemau'r ysgol). (efallai y bydd ysgolion yn dymuno ychwanegu manylion gweithdrefnau diogelwch dyfeisiau symudol sydd yn eu lle).
- *Bydd staff technegol yr ysgol/awdurdod lleol/darparwr y gwasanaeth a reolir/staff technegol yn monitro'n rheolaidd ac yn cofnodi gweithgareddau defnyddwyr pan fyddant yn defnyddio systemau technegol yr ysgol, ac mae defnyddwyr wedi cael eu hysbysu am hyn yn y cytundeb defnydd derbyniol*. (Efallai bydd ysgolion yn dymuno ychwanegu manylion y rhaglenni monitro a ddefnyddir).
- *Defnyddir pecynnau rheoli o bell gan staff i reoli gweithfannau a goruchwylio gweithgareddau defnyddwyr.*
- *Mae system briodol yn ei lle* (dylid ei disgrifio) *sy'n caniatáu i ddefnyddwyr hysbysu'r Arweinydd Diogelwch Ar-lein/rheolwr y rhwydwaith/technegydd (neu unigolyn perthnasol arall, yn unol â'r hyn a gytunwyd) am unrhyw ddigwyddiad technegol gwirioneddol neu bosibl*.
- Mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) i ddarparu mynediad dros dro i systemau'r ysgol i "westeion" (ee athrawon dan hyfforddiant, athrawon llanw, ymwelwyr).
- *Mae polisi y cytunwyd arno yn ei le* (dylid ei ddisgrifio) *ynghylch defnyddwyr yn lawrlwytho ffeiliau gweithredadwy a gosod rhaglenni ar ddyfeisiau'r ysgol.*
- *Mae polisi y cytunwyd arno yn ei le* (dylid ei ddisgrifio) *ynghylch faint o ddefnydd personol y caniateir i ddefnyddwyr (staff/dysgwyr/defnyddwyr cymunedol) ac aelodau eu teulu ei gael ar ddyfeisiau'r ysgol wrth eu defnyddio y tu allan i'r ysgol.*
- Mae polisi y cytunwyd arno yn ei le (dylid ei ddisgrifio) ynghylch defnyddio cyfryngau symudol (ee cof bach USB/CDs/DVDs) ar ddyfeisiau'r ysgol (gweler templed polisi data personol ysgolion yn yr atodiad am ragor o fanylion) .
- Caiff seilwaith yr ysgol a gweithfannau unigol eu gwarchod gan y feddalwedd ddiweddaraf rhag bygythiadau maleisus fel firysau, maleiswedd a meddalwedd sy'n mynnu pridwerth.
- Ni cheir anfon data personol dros y rhyngrwyd na'u tynnu oddi ar safle'r ysgol oni byddant wedi'u hamgryptio'n ddiogel neu eu diogelu trwy ddull arall. (Gweler y templed o bolisi data personol ysgol yn yr atodiad am ragor o fanylion).

### Diogelwch Cyfrineiriau

Mae system enwau defnyddwyr/cyfrineiriau diogel yn hanfodol i alluogi i'r uchod gael ei sefydlu, a bydd yn gymwys i holl systemau technegol yr ysgol, gan gynnwys rhwydweithiau, dyfeisiau, e-byst a phlatfformau dysgu). Pan ddefnyddir data sensitif - yn enwedig pan gyrchir hwy ar ddyfeisiau symudol - efallai y bydd ysgolion am ddefnyddio dulliau mwy diogel o ddilysu ee dilysu dau ffactor.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael gan Ganolfan Cymorth Hwb, Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a SWGfL "Why password security is important"

### Datganiadau Polisi:

- Mae'r datganiadau hyn yn berthnasol i bob defnyddiwr.

- Bydd holl rwydweithiau a systemau'r ysgol yn cael eu diogelu gan gyfrineiriau diogel.
- Bydd gan bob defnyddiwr hawliau mynediad i systemau technegol a dyfeisiau'r ysgol, sydd wedi cael ei diffinio'n glir. Caiff manylion yr hawliau mynediad sydd ar gael i grwpiau o ddefnyddwyr eu cofnodi gan Reolwr y Rhwydwaith (neu unigolyn arall), a byddant yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Grŵp Diogelwch Ar-lein (neu grŵp arall).
- Mae pob defnyddiwr (dysgwyr a staff) yn gyfrifol am gadw eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair yn ddiogel. Ni ddylent ganiatáu i ddefnyddiwr arall ddefnyddio eu manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r systemau a rhaid iddynt roi gwybod ar unwaith os ydynt yn amau neu os oes ganddynt dystiolaeth bod y rheolau diogelwch wedi'u torri.
- Ni ddylid rhannu cyfrineiriau ag unrhyw un.
- Bydd xxxxx (rhowch enw neu deitl swydd) (gweler yr adran ar gynhyrchu cyfrineiriau yn y nodiadau technegol) yn rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair i bob defnyddiwr a bydd yn cadw cofnod cyfredol o bob defnyddiwr a'i enw defnyddiwr.

Gofynion cyfrineiriau:

- Dylai cyfrineiriau fod yn hir. Mae arferion da yn nodi bod cyfrineiriau sy'n cynnwys dros 12 nod yn llawer mwy diogel na chyfrineiriau byrrach. Mae cyfrineiriau sy'n defnyddio cyfuniad o eiriau nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd, ac sy'n cynnwys dros 16 nod yn arbennig o anodd eu dyfalu. Mae cyfrineiriau hir yn fwy diogel nag unrhyw ofynion arbennig eraill fel llythrennau bach/priflythrennau, rhifau a nodau arbennig. Dylai cyfrineiriau fod yn hawdd eu cofio ond yn anodd eu dyfalu.
- Dylid cael cyfrineiriau gwahanol ar gyfer gwahanol gyfrifon, er mwyn sicrhau nad oes risg i systemau eraill os bydd un mewn peryg. Dylent fod yn wahanol ar gyfer systemau sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol a'r tu allan.

Ni ddylai staff ddefnyddio nac annog defnyddio'r un cyfrineiriau neu gyfrineiriau tebyg ar gyfer defnyddwyr lluosog. Dylai cyfrineiriau fod yn unigryw i bob defnyddiwr.

- Ni ddylai cyfrineiriau gynnwys enwau nac unrhyw wybodaeth bersonol arall am y defnyddiwr a allai fod yn hysbys i rywun arall
- Rhaid newid cyfrineiriau pan fyddwch yn mewngofnodi i'r system am y tro cyntaf
- *Efallai y bydd yr ysgol yn dymuno argymell i staff a dysgwyr (yn dibynnu ar oedran) eu bod yn defnyddio rheolwr cyfrineiriau sy'n gallu cadw cyfrineiriau ar ffurf wedi'u hamgryptio, ac mae modd iddynt gynhyrchu cyfrineiriau sy'n anodd iawn eu dyfalu. Mae'n bosib y codir ffi am y gwasanaethau hyn.*
- *Ni ddylid pennu bod cyfrineiriau'n dod i ben, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r uchod. Ond dylent fod yn unigryw ar gyfer pob gwasanaeth y mae'r defnyddiwr yn mewngofnodi iddo.*

Cyfrineiriau dysgwyr:

Bydd angen i ysgolion cynradd benderfynu pryd y byddant yn rhoi enwau defnyddwyr a chyfrineiriau unigol i ddysgwyr. Dylai ysgolion ddefnyddio manylion mewngofnodi unigol lle bynnag y bo modd, yn achos Hwb mae'n bosib bod y rhain eisoes wedi cael eu darparu ar eich cyfer. Er y gallai ysgolion ddewis defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair dosbarth i fewngofnodi i wasanaethau ar wahân i Hwb, dylid bod yn ofalus wrth eu rhoi ar waith gan fod angen i ysgolion fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â methu adnabod unrhyw unigolyn. Dylai'r math hwn o ddefnydd gan ddysgwyr gael ei oruchwylio bob amser, ac ni ddylai aelodau o staff fyth ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair dosbarth i fewngofnodi i rwydwaith/defnyddio'r rhyngrwyd ei hunan. Dylai ysgolion hefyd ystyried goblygiadau defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair i fewngofnodi fel dosbarth, wrth ddefnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir a rhaglenni y gellir eu defnyddio y tu allan i'r ysgol.

- Mae modd cadw cofnod o enwau defnyddwyr a chyfrineiriau dysgwyr yn y cyfnod sylfaen ar ffurf electronig neu bapur, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cadw'n ddiogel pan na fydd y defnyddiwr eu hangen. *Dylai cyfrineiriau yn y cyfnod sylfaen fod yn llai cymhleth (er enghraifft, dim mwy na 6 nod) ac ni ddylent gynnwys nodau arbennig. Pan fydd gan systemau allanol wahanol ofynion o ran cyfrineiriau, dylid annog defnyddio geiriau neu ymadroddion ar hap.*
- Dylai gofynion cyfrineiriau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 ac uwch gynyddu wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r ysgol.
- Bydd gofyn i ddefnyddwyr newid eu cyfrinair os yw mewn perygl. Efallai y bydd rhai ysgolion yn dewis ailosod cyfrineiriau ar ddechrau pob blwyddyn academaidd fel nad yw pawb sydd wedi anghofio'r cyfrinair yn gorfod gwneud cais i ailosod y cyfrinair a bod gweinyddwr yn gorfod ailosod y cyfrineiriau. (Nodyn: ni ddylid newid cyfrineiriau'n rheolaidd ond dylent fod yn ddiogel ac yn unigryw i bob cyfrif.)
- Bydd dysgwyr yn dysgu am bwysigrwydd diogelwch cyfrineiriau, a dylai hyn gynnwys sut mae cyfrineiriau'n cael eu peryglu, a pham mae'r rheolau hyn ar gyfer cyfrineiriau mor bwysig.

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno ychwanegu unrhyw rai o'r datganiadau polisi perthnasol o'r adran staff uchod ar gyfer rhai dysgwyr neu bob un ohonynt.

Nodiadau i staff/timau technegol

- Lle bo'n bosibl, dylai fod gan bob gweinyddwr gyfrif gweinyddwr unigol, yn ogystal â'i gyfrif defnyddiwr ei hun gyda lefelau mynediad wedi'u pennu ar lefel briodol.
- Hefyd, dylid ystyried defnyddio system ddilysu dau ffactor ar gyfer cyfrifon gweinyddwr.
- Dylid cadw cyfrinair cyfrif gweinyddwr ar gyfer systemau'r ysgol mewn man diogel hefyd, ee yn sêff yr ysgol. Dim ond i adfer neu ddiddymu mynediad y dylid defnyddio'r cyfrif a'r cyfrinair hwn. Ni ddylai cyfrifon gweinyddwyr eraill allu dileu'r cyfrif hwn. (Ni ddylai ysgol fyth ganiatáu i un defnyddiwr yn unig gael mynediad gweinyddwr)
- Dylai cyfrineiriau gweinyddwr sydd wedi'u cadw ar ffurf ddigidol fod wedi'u creu gyda hash gan ddefnyddio algorithm addas ar gyfer cadw cyfrineiriau (ee Bcrypt neu Scrypt). Ni ddylid defnyddio algorithmau Message Digest fel MD5, SHA1, SHA256 ac ati.
- *Mae'n arfer da cael proses ailosod cyfrineiriau a reolir gan y defnyddiwr pan fydd cyfrineiriau'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn sicrhau ailfynediad annibynnol ond diogel i'r system. Mae hyn hefyd yn sicrhau mai dim ond y perchennog sy'n gwybod am y cyfrinair.*

- Pan nad yw'n bosib cael proses ailosod a reolir gan y defnyddiwr, bydd xxxx (rhowch deitl) (efallai y bydd ysgolion yn dymuno cael rhywun heblaw am staff technegol yr ysgol i wneud hyn ee gweinyddwr y mae'n hawdd i ddefnyddwyr gael gafael arno) yn dyrannu cyfrineiriau i ddefnyddwyr newydd, a chyfrineiriau eraill i ddefnyddwyr presennol. *Yn ôl arferion da, dylai'r cyfrinair sy'n cael ei greu gan y broses hon gael ei greu gan system a dim ond y defnyddiwr ddylai gael yr wybodaeth. Cyfrinair dros dro ddylai hwn fod, a dylid gorfodi'r defnyddiwr i newid ei gyfrinair y tro cyntaf y bydd yn mewngofnodi. Dylai'r cyfrineiriau sy'n cael eu creu hefyd fod yn rhai hir ac ar hap.*
- Os nad yw'n bosib creu cyfrineiriau'n awtomatig, yna dylai xxxxx (rhowch deitl) ddefnyddio generadur cyfrineiriau i roi cyfrinair cychwynnol i'r defnyddiwr. *Dylid cael proses i drosglwyddo'r cyfrinair hwn yn ddiogel i'r defnyddiwr fel mai dim ond y sawl sydd wedi'i greu a'r defnyddiwr sy'n gwybod beth yw'r cyfrinair. Dylai'r cyfrinair fod yn un dros dro a dylid gorfodi'r defnyddiwr i newid ei gyfrinair y tro cyntaf y bydd yn mewngofnodi.*
- (Y person cyfrifol) ddylai ddilysu ceisiadau i newid cyfrineiriau er mwyn sicrhau mai dim ond i'r defnyddiwr dilys y gellir trosglwyddo'r cyfrinair newydd (bydd angen i'r ysgol benderfynu sut mae rheoli hyn – o bosib bydd rheolwr llinell yn awdurdodi cais gan aelod o staff neu aelod o staff yn awdurdodi cais gan ddysgwr)
- Dylai trefniadau addas fod ar waith er mwyn i ymwelwyr gael mynediad priodol i systemau, sydd yna'n dod i ben. *(Er enghraifft, gall eich tîm technegol ddarparu cyfuniadau o enwau defnyddwyr/cyfrineiriau sydd wedi'u creu ymlaen llaw er mwyn eu dyrannu i ymwelwyr, eu cofnodi mewn log ac yna'u dileu oddi ar y system ar ôl iddynt gael eu defnyddio.)*
- Mewn achosion o arferion da, mae'r cyfrif yn cael ei "gloi" ar ôl chwe ymgais aflwyddiannus i fewngofnodi.
- Ni fydd cyfrineiriau'n cael eu dangos ar y sgrin, a dylid eu nodi gyda hash yn ddiogel pan fyddant yn cael eu cadw (defnyddio amgryptio un ffordd).

### Hyfforddiant/Ymwybyddiaeth:

Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn deall pwysigrwydd cadw cyfrineiriau yn ddiogel, a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'u defnyddio heb awdurdod neu golli data. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i'r defnyddwyr ieuengaf. Mae hefyd yn hanfodol dysgu defnyddwyr sut mae cyfrineiriau'n cael eu peryglu, er mwyn iddynt ddeall pam dylid gwneud pethau mewn ffordd benodol.

### Hysbysir aelodau o staff ynghylch polisi cyfrineiriau'r ysgol yn y ffyrdd canlynol:

- mewn sesiynau cynefino
- trwy Bolisi Diogelwch Ar-lein a pholisi diogelu cyfrineiriau yr ysgol
- trwy'r cytundeb defnydd derbyniol

### Hysbysir dysgwyr am bolisi cyfrineiriau'r ysgol:

- mewn gwersi (dylai'r ysgol ddisgrifio sut bydd hyn yn cael ei wneud)
- trwy'r cytundeb defnydd derbyniol

### Archwilio/Monitro/Adroddiadau/Adolygu:

Bydd yr unigolyn cyfrifol (nodwch deitl) yn sicrhau bod cofnod llawn yn cael ei gadw o'r canlynol:

- Cyfeirnodau defnyddiwr a cheisiadau am gyfrineiriau newydd
- *Manylion mewngofnodi defnyddwyr*

- *Digwyddiadau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn*

## Hidlo

### Cyflwyniad

Mae hidlo cynnwys y rhyngrwyd yn ffordd bwysig o atal defnyddwyr rhag cael mynediad i ddeunydd anghyfreithlon neu anaddas mewn cyd-destun addysgiadol. Ond ni all y system hidlo roi sicrwydd 100% gan fod cynnwys y rhyngrwyd yn newid yn ddynamig ac mae technolegau newydd yn cael eu datblygu bob amser. Felly, mae'n bwysig bod yn ymwybodol mai dim ond un elfen yw hidlo mewn strategaeth llawer mwy ar gyfer diogelwch ar-lein a defnydd derbyniol. Mae'n bwysig bod gan yr ysgol bolisi hidlo er mwyn rheoli'r peryglon cysylltiedig a darparu mesurau ataliol sy'n berthnasol i sefyllfa'r ysgol.

Mae llawer o ddefnyddwyr nad ydynt yn ymwybodol o'r hyblygrwydd sy'n cael ei gynnig gan lawer o wasanaethau hidlo ar lefel leol i ysgolion. Pan fydd yr hyblygrwydd hwn ar gael, dylai ysgolion ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion dysgu ac i leihau rhywfaint o'r rhwystredigaeth mae defnyddwyr weithiau'n ei deimlo pan fyddant eisiau gwneud y mwyaf o dechnolegau newydd.

Rhaid i ysgolion ystyried y materion sydd wedi cael eu codi yn ofalus a phenderfynu ar y canlynol:

- A fyddan nhw'n defnyddio'r gwasanaeth hidlo a ddarperir heb ei newid neu'n caniatáu hyblygrwydd i ychwanegu neu dynnu gwefannau o'r rhestr hidlo ar gyfer ei sefydliad
- A ddylid gwahaniaethu'r hidlo ar gyfer gwahanol grwpiau neu wahanol oedrannau o ddefnyddwyr
- A ddylid tynnu rheolyddion hidlo oddi ar rai rhannau o'r rhyngrwyd (ee gwefannau rhwydweithio cymdeithasol) ar amseroedd penodol o'r dydd neu ar gyfer defnyddwyr penodol
- Penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am y fath benderfyniadau ac am eu harchwilio a'u cydbwyso
- Pa system arall a systemau monitro defnyddwyr fydd yn cael eu defnyddio i ychwanegu at y system hidlo, a sut byddant yn cael eu defnyddio.

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn mynnu bod ysgolion yn gwneud yn siŵr bod ganddynt drefniadau "hidlo priodol". Mae canllawiau ar gael ar wefan UK Safer Internet Centre a Safonau hidlo cynnwys y we Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno profi eu trefniadau hidlo i amddiffyn yn erbyn deunyddiau anghyfreithlon yn: Prawf Hidlo SWGfL

### Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb (mewnosod teitl) fydd rheoli polisi hidlo'r ysgol. Bydd yn rheoli gwasanaethau hidlo'r ysgol yn unol â'r polisi hwn ac yn cadw cofnodion/logiau o'r newidiadau ac o ddiffygion y systemau hidlo.

I sicrhau bod system archwilio a chydbwyso ar waith ac i ddiogelu'r rhai sy'n gyfrifol amdani, mae'n rhaid i newidiadau i wasanaeth hidlo'r ysgol ddiwallu'r canlynol (dylai ysgolion benderfynu ar ymatebion perthnasol):

- cael ei gofnodi mewn logiau rheoli newid
- rhoi gwybod amdanynt i'r ail berson cyfrifol (mewnosod teitl)
- *naill ai… bod ail berson cyfrifol yn cael gwybod amdanynt ac yn eu hawdurdodi cyn i'r newidiadau gael eu gwneud* (caiff hyn ei argymell)
- *neu… bod yr ail berson cyfrifol* (mewnosod teitl) *yn cael gwybod bob X wythnos/mis ar ffurf archwiliad o'r logiau rheoli newid*
- *rhoi gwybod i'r Grŵp Diogelwch Ar-lein bob X wythnos/mis ar ffurf archwiliad o'r logiau rheoli newid*

Mae cyfrifoldeb ar yr holl ddefnyddwyr i roi gwybod yn syth i'r (mewnosod teitl) os byddant yn ymwybodol o unrhyw doriadau i bolisi hidlo'r ysgol, neu o unrhyw wefannau a ddylai gael eu hidlo ond nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Ni ddylai defnyddwyr geisio defnyddio unrhyw raglen neu feddalwedd sy'n caniatáu iddynt osgoi'r systemau hidlo/diogelwch sy'n cael eu gweithredu i atal mynediad i'r fath ddeunydd.

### Datganiadau Polisi

Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Mae mynediad i'r rhyngrwyd gwahaniaethol ar gael i staff a chaiff newidiadau hidlo personol eu rheoli gan yr ysgol. Mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei hidlo gan y darparwr band eang neu'r darparwr hidlo wrth ddefnyddio rhestr CAIC yr Internet Watch Foundation a rhestrau cynnwys anghyfreithlon eraill. Mae rhestrau hidlo cynnwys yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac mae defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n aml. Bydd y broses fonitro'n rhybuddio'r ysgol am achosion o dorri'r polisi hidlo, er mwyn gweithredu arnynt. Mae arweiniad clir ar sut i roi gwybod am newidiadau i'r system hidlo a sut i'w rheoli. Pan fydd dyfeisiau symudol personol yn cael mynediad i'r rhyngrwyd ar rwydwaith yr ysgol, defnyddir y gwasanaeth hidlo yn unol ag arferion yr ysgol.

- *Naill ai - mae'r ysgol yn cynnal ac yn cefnogi'r gwasanaeth hidlo a reolir sy'n cael ei ddarparu gan eu Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (neu ddarparwr gwasanaeth hidlo arall)*
- *Neu - mae'r ysgol yn rheoli'r gwasanaeth hidlo ei hun* (Noder, os yw'r ysgol yn penderfynu cael gwared â'r hidlydd allanol a rhoi system hidlo fewnol ar waith, dylid egluro hyn yn glir yn y polisi a darparu tystiolaeth sy'n dangos y gallai'r Pennaeth gyfiawnhau bod yr ysgol yn diwallu'r gofynion statudol sy'n sicrhau diogelwch dysgwyr/staff mewn unrhyw achos cyfreithiol)
- Mae'r ysgol wedi darparu hidlyddion gwell/gwahaniaethol ar lefel defnyddwyr trwy ddefnyddio'r rhaglen hidlo (mewnosod enw). *(sy'n caniatáu lefelau hidlo gwahanol i wahanol oedrannau/cyfnodau a gwahanol grwpiau defnyddwyr – staff/dysgwyr ayb)*
- *Os bydd angen i staff technegol diffodd y broses hidlo ar gyfer unrhyw ddefnyddiwr neu am unrhyw reswm, rhaid cofnodi hyn a dilyn y broses sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Pennaeth (neu uwch arweinydd enwebedig arall).*

- *Bydd dyfeisiau symudol sy'n cael eu cysylltu â rhyngrwyd yr ysgol (dyfeisiau'r ysgol neu rai personol) yn dilyn yr un safonau hidlo â dyfeisiau eraill ar systemau'r ysgol*
- *Dylai dyfeisiau symudol sy'n eiddo i'r ysgol fod yn destun yr un safonau hidlo pan gânt eu defnyddio ar rwydweithiau allanol ag y maent ar system yr ysgol.*
- *Dylid rhoi gwybod yn syth i'r darparwr hidlo am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r broses hidlo.*
- *Bydd ceisiadau gan staff i dynnu gwefannau oddi ar y rhestr hidlo yn cael eu hystyried gan y staff technegol* (mewnosod enw neu deitl) (Cofiwch, dylid enwebu person ychwanegol er mwyn diogelu Rheolwr y Rhwydwaith neu aelod arall o staff os oes mater yn codi sy'n ymwneud â mynediad heb ei hidlo). *Os yw'r cais yn cael ei dderbyn, bydd hynny'n cael ei gofnodi a bydd y cofnodion yn cael eu hadolygu'n aml gan y Grŵp Diogelwch Ar-lein.*

### Addysg/Hyfforddiant/Ymwybyddiaeth

Bydd dysgwyr yn cael gwybod am bwysigrwydd systemau hidlo trwy'r rhaglen addysg diogelwch ar-lein (efallai y bydd ysgolion am ychwanegu manylion). Byddant hefyd yn cael eu rhybuddio ynglŷn â chanlyniadau ceisio gwyrdroi'r system hidlo.

Bydd defnyddwyr sy'n aelodau o staff yn cael gwybod am y systemau hidlo trwy'r dulliau canlynol: (diwygiwch fel bo'n berthnasol)

- y cytundeb defnydd derbyniol
- hyfforddiant cynefino
- cyfarfodydd staff, cyfarfodydd briffio, HMS.

Bydd rhieni'n cael gwybod am bolisi hidlo'r ysgol drwy'r cytundeb defnydd derbyniol a thrwy sesiynau ymwybyddiaeth diogelwch ar-lein/cylchlythyr ayb. (diwygiwch fel sy'n berthnasol)

### Newidiadau i'r System Hidlo

Yn yr adran hon dylai'r ysgol egluro'r canlynol yn fanwl:

- i bwy ddylai defnyddwyr wneud cais am newidiadau i'r hidlydd a sut mae gwneud hynny (p'un ai bod hyn yn cael ei wneud yn yr ysgol ynteu gan ddarparwr hidlo allanol)
- ar ba sail y gellir derbyn neu wrthod y cais (Efallai bydd ysgolion yn dewis caniatáu rhai gwefannau megis gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer rhai defnyddwyr, yn ystod cyfnodau penodol, neu am gyfnod cyfyngedig. Dylid cael rhesymau addysgol amlwg dros eu caniatáu).
- sicrhau bod ail berson cyfrifol yn gysylltiedig er mwyn archwilio a chydbwyso (yn ddelfrydol bydd hyn yn cael ei wneud cyn i gais gael ei dderbyn neu'i wrthod, ond gellir gwneud hyn ar ôl hynny drwy adolygu cofnodion/archwilio logiau)
- unrhyw system archwilio/systemau adrodd

Os bydd defnyddwyr yn gallu mynd ar wefannau neu'n gwybod bod eraill yn gallu, ond yn teimlo y dylid eu hidlo (neu beidio cael eu hidlo), dylent roi gwybod am hynny i (mewnosod teitl), a fydd yn penderfynu a ddylid gwneud newidiadau lefel ysgol ai peidio (fel uchod).

### Monitro

Mae rhai ysgolion yn ychwanegu systemau monitro ychwanegol at eu systemau hidlo. Yn yr achos hwn, dylai ysgolion gynnwys manylion yn yr adran hon, gan gynnwys manylion am systemau mewnol neu fasnachol sy'n cael ei ddefnyddio, os ydynt yn dymuno. Dylent hefyd sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r systemau monitro sydd yn eu lle.

Ni all yr un system hidlo sicrhau diogelwch llwyr rhag gwefannau anaddas. Felly bydd yr ysgol yn monitro gweithgareddau'r defnyddwyr ar rwydwaith/offer yr ysgol, fel y nodir yn y Polisi Diogelwch Ar-lein a'r cytundeb defnydd derbyniol. *Bydd monitro yn digwydd fel a ganlyn:* (dylid ychwanegu manylion os yw'r ysgol am wneud hynny).

### Archwilio/Adrodd

Bydd logiau rheoli newidiadau ac o ddigwyddiadau hidlo ar gael ar gyfer: (dylai ysgolion addasu yn ôl yr angen)

- yr ail berson cyfrifol (mewnosod teitl)
- Grŵp Diogelwch Ar-lein
- Y Llywodraethwr Diogelwch Ar-lein/Y pwyllgor llywodraethwyr/Y Pwyllgor Rheoli fel **aelod ar gyfer amddiffyn plant**
- Y darparwr Hidlo allanol/Yr Awdurdod Lleol/Yr Heddlu, ar gais

Bydd y polisi hidlo yn cael ei adolygu mewn ymateb i'r dystiolaeth a ddarperir gan y logiau archwilio o briodoldeb y ddarpariaeth bresennol. (Gallai'r dystiolaeth ddangos nifer fawr o geisiadau i dynnu hidlyddion oddi ar wefannau - yn yr achos hwn, gallai ysgolion gwestiynu p'un ai yw lefel presennol yr hidlo yn rhy gaeth ar gyfer dibenion addysgol. Os bydd nifer fawr o achosion o ddefnyddwyr yn ceisio gwyrdroi'r system hidlo, awgrymir bod gofyn cael systemau monitro/camau disgyblu gwell).

### Rhagor o Ganllawiau

Mae'n bosibl y bydd ysgolion am gael rhagor o ganllawiau. Awgrymir y canlynol:

Llywodraeth Cymru – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo yn ysgolion Cymru

Canolfan Cymorth Hwb

O dan y ddyletswydd Prevent, mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru a Lloegr sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunydd terfysgol ac eithafol wrth gyrchu'r rhyngrwyd yn yr ysgol, gan gynnwys drwy sefydlu'r lefelau hidlo priodol (ewch i Hwb - Cadw Cymunedau yn Ddiogel: Deall y Ddyletswydd Prevent yng Nghymru i gael rhagor o wybodaeth).

Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU (UKSIC) - "Trefniadau Hidlo Priodol"

Mae gan SWGfL wefan i ysgolion roi prawf ar eu trefniadau hidlo er mwyn sicrhau nad oes modd cael gafael ar ddeunyddiau anghyfreithlon: Prawf Hidlo SWGfL (Saesneg un unig)

# C2 Cyngor a Chanllawiau ar Ddata Personol

## Awgrymiadau ar gyfer defnyddio

Dim ond cyngor ac arweiniad sydd yn y ddogfen hon. Rhagwelir y bydd ysgolion yn defnyddio'r ddogfen hon ochr yn ochr â'u polisi diogelu data eu hunain. Nid bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyngor cyfreithiol, ac fe anogir ysgolion i gael cyngor cyfreithiol eu hunain wrth ystyried rheoli data personol.

## Cyfraith Diogelu Data: cyd-destun deddfwriaethol

Newidiodd trefniadau diogelu data y DU ar 25 Mai 2018, wrth i Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd gael ei roi ar waith. Roedd hyn yn newid arwyddocaol mewn deddfwriaeth ac, ar y cyd â Deddf Diogelu Data 2018, roedd yn disodli Deddf Diogelu Data 1998.

Mae GDPR yr UE wedi cael ei ymgorffori yng nghyfraith y DU fel GDPR y DU. Bydd 'GDPR y DU' a Deddf Diogelu Data 2018 yn golygu y bydd gan y DU yr annibyniaeth i barhau i adolygu'r fframwaith. Felly, bydd yr egwyddorion, yr hawliau a'r rhwymedigaethau allweddol yn aros yr un fath. Fodd bynnag, mae goblygiadau o ran y rheolau ar gyfer trosglwyddo data personol rhwng y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Ym mis Mehefin 2021, mabwysiadodd yr UE benderfyniad digonolrwydd ar gyfer llifoedd data anghyfyngedig rhwng y DU a'r UE hyd at fis Mehefin 2025. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu mai'r holl reoliadau a gyflwynwyd yn 2018 yw'r fframwaith cywir i weithredu ynddo a dylai ysgolion barhau i sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo mewn modd cydymffurfiol a chyfreithlon.

Yn y ddogfen hon, mae'r term "cyfraith diogelu data" yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddiogelu data a phreifatrwydd fel sy'n berthnasol yn y DU.

## A yw'r gyfraith diogelu data yn berthnasol i ysgolion?

Mewn gair, ydy. Mae pob ysgol yn prosesu data personol ac yn cael eu hystyried yn 'rheolydd data' ar wahân at ddibenion diogelu data.

Mae data personol yn golygu "unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fod dynol sy'n cael ei adnabod neu mae modd ei adnabod ('gwrthrych y data')". Mae bod dynol mae modd ei adnabod yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wrth gyfeirio at:

- nodweddion adnabod fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, nodwedd adnabod ar-lein neu
- un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y bod dynol hwnnw".

## Gelwir rhai mathau o ddata personol yn 'ddata personol categorïau arbennig' ac maen nhw'n cynnwys y canlynol:

"Tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig at ddibenion adnabod unigolyn naturiol, data

yn ymwneud ag iechyd neu ddata yn ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn naturiol"

Rhaid i'r ysgol nodi sail gyfreithlon (Erthygl 6 GDPR y Deyrnas Unedig) ac amod ar wahân ar gyfer prosesu data categori arbennig (Erthygl 9 GDPR y Deyrnas Unedig). Dylid penderfynu ar y rhain cyn i unrhyw waith prosesu ddigwydd, ac mae canllawiau pellach ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae pwerau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amrywio'n fawr os na fydd ysgolion / colegau yn cydymffurfio. Rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o'r effaith enfawr y bydd dirwy neu ymchwiliad yn ei chael ar adnoddau, cyllid ac yn y gymuned ehangach, er enghraifft o safbwynt ymddiriedaeth.

Mae'r gyfraith diogelu data yn nodi bod yn rhaid i reolydd data sicrhau bod data personol:

a) yn cael ei brosesu mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw;
b) yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, clir a chyfreithlon ("cyfyngiad dibenion");
c) yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol ("cyfyngiad data");
d) yn gywir, a phan fo hynny'n angenrheidiol, yn cael ei gadw'n gyfredol;
e) yn cael ei gadw ar ffurf sy'n golygu nad oes modd adnabod gwrthrychau'r data am gyfnod hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data personol yn cael ei brosesu ("cyfyngiad storio"); ac
f) yn cael ei brosesu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol

Mae egwyddor atebolrwydd gyffredinol yn mynnu bod yr ysgol yn gyfrifol am y gyfraith diogelu data ac yn dangos ei bod yn cydymffurfio â hi.

Mae cyfraith diogelu data yn mynnu bod gan yr ysgol bob amser **sail gyfreithiol ar gyfer prosesu** data personol. Gellir crynhoi'r rhain fel hyn:

| | |
|---|---|
| (a) Cydsyniad: | mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol (mae rhagor o arweiniad isod) |
| (b) Contract: | mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych â'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i chi gymryd camau gweithredu penodol cyn ymrwymo i'r contract. |
| (c) Rhwymedigaeth gyfreithiol: | mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau contractiol). |
| (d) Buddiannau allweddol i fywyd: | mae angen prosesu er mwyn diogelu bywyd rhywun. |

| | |
|---|---|
| (e) Tasg gyhoeddus: | mae angen prosesu er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu er mwyn eich swyddogaethau swyddogol, ac mae sail gyfreithlon glir i'r dasg neu'r swyddogaeth dan sylw. |
| (f) Buddiannau dilys: | mae angen prosesu er mwyn eich buddiannau dilys, neu fuddiannau dilys trydydd parti oni bai fod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau dilys hynny. (Ni all hyn fod yn berthnasol os ydych chi'n awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data i gyflawni eich tasgau swyddogol). |

Nid oes yr un sail yn 'well' neu'n bwysicach na'r lleill a bydd pa sail sydd fwyaf priodol yn dibynnu ar eich diben a'ch perthynas â gwrthrych y data.

### Mapio data i adnabod data personol, gwrthrychau'r data a gwaith prosesu.

Bydd yr ysgol a'r gweithwyr yn casglu a/neu'n prosesu amrywiaeth eang o wybodaeth am nifer o wrthrychau data a bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn cynnwys data personol. Hefyd, efallai y bydd yn rhaid i'r ysgol rannu rhywfaint o ddata personol â thrydydd partïon. Er mwyn gallu dangos a chynllunio ar gyfer cydymffurfio, ac mae'n bwysig fod gan yr ysgol **fap data** o'r gweithgareddau hyn. Mae'r rhain yn hysbysu hysbysiadau preifatrwydd ac yn helpu i roi mesurau diogelwch ar waith i gadw'r data personol yn ddiogel, gan gynnwys camau i osgoi **tor diogelwch** a sicrhau bod Cytundebau Rhannu Data neu Gytundebau Prosesu Data (h.y. contractau) ar waith gyda chyflenwyr neu gontractwyr.

Dylai'r map data nodi pa ddata personol sy'n cael ei gadw ar ffurf ddigidol neu fel cofnodion papur mewn ysgol, ble mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, pam ei bod yn cael ei phrosesu, ac am ba mor hir y bydd yn cael ei chadw.

Mewn map data nodweddiadol ar gyfer ysgol bydd gwrthrychau'r data a'r data personol yn cynnwys y canlynol, ond nid dim ond y rhain:

- Rhieni, gwarcheidwad cyfreithiol, llywodraethwyr: data personol enwau, cyfeiriadau, manylion cyswllt
- Dysgwyr: data cwricwlaidd / academaidd (ee rhestrau o ddosbarthiadau, cofnodion cynnydd dysgwyr, adroddiadau, cyfeiriadau, manylion cyswllt, iechyd ac adroddiadau AAA)
- Staff a chontractwyr: cofnodion proffesiynol (ee hanes cyflogaeth, trethiant a chofnodion yswiriant gwladol, cofnodion arfarnu a chyfeiriadau, cofnodion iechyd)

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyngor a chanllawiau ar gadw Cofnod o Weithgareddau Prosesu.

Bydd angen i'r ysgol nodi meini prawf prosesau cyfreithlon priodol ar gyfer pob math o ddata personol, ac os nad yw hyn yn bosib, dylid rhoi'r gorau i weithgareddau o'r fath.

Gall ysgol ddefnyddio'r dasg gyhoeddus fel sail gyfreithiol dros brosesu i gyflawni tasg swyddogol fel y nodir yng nghyfraith y DU (ee Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru 2021):

*"mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd gan y rheolydd" (Erthygl 6(1)(e) GDPR y Deyrnas Unedig)*

Os nad yw, dylai'r ysgol ystyried pob un o'r seiliau cyfreithlon eraill ar gyfer prosesu yn eu tro er mwyn asesu sut maen nhw'n cyd-fynd â'r prosesu a'r berthynas â gwrthrych y data. Fel awdurdod cyhoeddus, cofiwch na ellir defnyddio buddiannau dilys fel sail gyfreithlon wrth brosesu data personol i gyflawni tasg swyddogol neu swyddogaeth gyhoeddus.

Dylid ystyried y rheolau sy'n ymwneud â chaniatâd yn ofalus oherwydd gallai sail gyfreithlon arall fod yn fwy priodol. Mae GDPR y Deyrnas Unedig yn gosod safon uchel ar gyfer caniatâd a dylai roi unigolion wrth y llyw. Caiff caniatâd nawr ei ddiffinio fel:

*"o ran prosesu data personol sy'n ymwneud ag unigolyn, golyga arwydd diamwys, gwybodus a phenodol o ddymuniadau unigolyn, a hwnnw wedi'i roi o wirfodd, sy'n golygu bod yr unigolyn yn cytuno i'r data personol gael ei brosesu, boed hynny ar ffurf datganiad neu weithredu cadarnhaol clir".*

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ganiatâd fod yn benodol, yn wybodus, wedi'i roi o wirfodd, a bod yn arwydd diamwys o ddymuniadau drwy ddatganiad neu weithredu cadarnhaol. Felly, dylai'r ffurflenni caniatâd fod yn glir ac yn gryno; a chynnwys ffordd fanwl lle gellir optio i mewn; yn ogystal ag egluro pam mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei phrosesu i hysbysu unigolion. Dydy caniatâd dealledig ddim yn addas erbyn hyn.

Mae DPA2018 yn addasu GDPR y Deyrnas Unedig er mwyn gostwng yr isafswm oedran ar gyfer cael caniatâd gan blentyn i 13 oed.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rhoi cyngor clir ynghylch pryd mae'n briodol defnyddio cydsyniad fel sail gyfreithlon. Mae'n datgan fel a ganlyn:

"Mae cydsyniad yn briodol os gallwch gynnig dewis go iawn i bobl a rheolaeth dros sut rydych chi'n defnyddio eu data ac yn dymuno meithrin eu hymddiriedaeth a'u hymgysylltiad. Ond, os na allwch chi gynnig dewis go iawn, nid yw cydsyniad yn briodol. Os byddech chi'n dal yn prosesu'r data personol heb gydsyniad, mae gofyn am gydsyniad yn gamarweiniol ac yn annheg yn ei hanfod."

Dim ond os nad yw'r un o'r seiliau cyfreithiol eraill yn briodol y dylai'r ysgol ddefnyddio cydsyniad. Os byddwch chi, rhaid i chi allu delio â phobl yn dweud na (a newid eu meddwl). Felly, mae'n bwysig mai dim ond ar gyfer dewisiadau ychwanegol rydych chi'n defnyddio cydsyniad, yn hytrach nag ar gyfer

gwybodaeth graidd sydd ei hangen ar yr ysgol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r isod yn enghreifftiau lle gallai cydsyniad fod yn briodol neu beidio;

- dylid cael cydsyniad wrth gyhoeddi llun plentyn mewn unrhyw ffordd (h.y. gwefan yr ysgol, cylchlythyr, prosbectws neu gyfryngau cymdeithasol).
- mae'n ofynnol i'r ysgol gadw manylion y dysgwr a'r rhiant/gofalwr mewn System Rheoli Gwybodaeth. Felly, ni fyddai'n briodol dibynnu ar gydsyniad, gan y byddai gan yr unigolyn/unigolion wedyn yr hawl i optio allan o'r prosesu. Yn yr achos hwn, gallai'r ysgol ddibynnu ar y sail gyfreithiol, tasg gyhoeddus.
- Mae'n ofynnol i'r ysgol rannu gwybodaeth at ddibenion materion amddiffyn plant. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol dibynnu ar gydsyniad, gan y byddai gan yr unigolyn/unigolion yr hawl i optio allan o'r prosesu. Gallai'r ysgol hefyd roi gwybod i unigolyn am honiad a wnaed yn ei erbyn. Yn yr achos hwn, gallai'r ysgol ddibynnu ar y sail gyfreithiol, tasg gyhoeddus.

## Cynnwys Hysbysiadau Preifatrwydd

Mae Hysbysiadau Preifatrwydd yn un o'r gofynion cydymffurfio allweddol, gan eu bod yn sicrhau bod pob gwrthrych data yn ymwybodol o'r pwyntiau canlynol wrth i ddata gael ei gasglu a'i brosesu gan reolydd data:

- hunaniaeth a manylion cyswllt y rheolydd data
- pa gategorïau o ddata personol sy'n cael eu prosesu
- pwrpasau a'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data personol
- o ble a sut cafwyd gafael ar y data personol
- gyda phwy mae modd rhannu'r data personol
- a oes unrhyw ddata personol yn cael ei drosglwyddo i wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
- am ba mor hir y bydd y data personol yn cael ei storio a'i gadw
- manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data
- bodolaeth penderfyniadau a wneir yn awtomatig, gan gynnwys proffilio
- hawliau gwrthrych y data a sut mae eu defnyddio
- manylion sut mae cwyno wrth yr ysgol neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae cysylltiad agos rhwng yr hawl i gael gwybod a gofynion tryloywder a phrosesu teg yr egwyddorion diogelu data. Er mwyn cydymffurfio, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu'r wybodaeth uchod i rieni/gofalwyr a dysgwyr wrth gasglu data personol gan unigolion a gwneud yn siŵr bod hysbysiad preifatrwydd ar gael drwy gydol y gwaith prosesu. Er enghraifft, gellid rhoi hysbysiadau preifatrwydd i rieni/gofalwyr a dysgwyr ym mhrosbectws yr ysgol, cylchlythyrau, neu mewn llythyr/gohebiaeth benodol. Gallai'r ysgol gyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd ar wefan yr ysgol. Dylai rhieni/gofalwyr a dysgwyr sy'n newydd i'r ysgol gael yr hysbysiad preifatrwydd drwy ddull priodol. Cofiwch, fodd

bynnag, fod angen Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer gwahanol fathau o brosesu, er enghraifft wrth brosesu gwybodaeth am ymwelwyr neu ddefnyddio data personol at ddibenion cyflogaeth.

Dylai ysgol sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd ar gael i ddysgwyr fel gwrthrychau'r data. Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau ag oedolion mewn perthynas â'u data personol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau a ddisgrifir isod, a dylai'r polisïau sy'n egluro hyn fod yn glir ac yn addas i'r oedran.

### Hawl gwrthrych y data i gael gafael ar ddata

Mae gan wrthrychau data sawl hawl yng nghyswllt eu data personol, sy'n cynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** sut mae data personol yn cael ei gasglu, ei storio, ei reoli, ei ddiogelu, a'i brosesu.
- **Yr hawl i gael mynediad** i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi. Fodd bynnag, cofiwch ei bod yn bosib dal gwybodaeth yn ôl yn gyfreithlon weithiau.
- **Yr hawl i gywiro** data personol anghywir neu anghyflawn.
- **Yr hawl i ddileu** lle mae gennych yr hawl i gael dileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol y mae'n rhaid ei gadw yn ôl y gyfraith.
- Yr hawl i gyfyngu, sy'n caniatáu i chi gyfyngu ar y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol mewn rhai amgylchiadau.
- **Yr hawl i symud data** sy'n rhoi'r hawl i unigolyn gael copïau o ddata a ddarperir i reolwr mewn fformat cludadwy.
- **Yr hawl i wrthwynebu** prosesu eich data personol.
- **Hawliau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau a wneir yn awtomatig a phroffilio.**

Mae sawl un o'r rhain yn debygol o effeithio ar ysgolion, fel hawl mynediad. Felly, dylai'r ysgol roi gweithdrefnau ar waith i ddelio â Cheisiadau gan Bobl am Wybodaeth a cheisiadau hawliau unigol eraill (ee dileu a chywiro).

Mae'n debyg mai Ceisiadau gan Bobl am Wybodaeth yw'r cais mwyaf cyffredin a wneir i unrhyw sefydliad. Ceisiadau ar lafar neu'n ysgrifenedig yw'r rhain i gael mynediad at yr holl ddata personol neu ran ohono sy'n cael ei gadw gan y Rheolydd Data mewn cysylltiad ag unigolyn byw. Mae gan Reolyddion un mis calendr i ddarparu'r wybodaeth. Os bydd yr achos yn anarferol o gymhleth, mae modd cael estyniad.

Rhaid i ysgol ystyried yr holl wybodaeth y gofynnir iddi ei datgelu. Fodd bynnag, mae achosion lle na ddylid datgelu data personol i'r ymgeisydd, hyd yn oed os gofynnir amdano:

- data personol trydydd partïon (nad yw'n ymwneud â gwrthrych y data)
- os bydd gwneud hynny yn peri niwed difrifol i'r unigolyn
- data yn ymwneud â cham-drin plant

- cofnodion mabwysiadu
- Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rhaid i'ch ysgol ddarparu'r wybodaeth am ddim. Fodd bynnag, mae achosion achlysurol lle gellir codi ffi resymol, er enghraifft os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail, neu'n afresymol.

## Tor diogelwch data personol a sut i'w rheoli

Mae gan ysgolion "lawer o ddata" ac maen nhw'n cadw llawer iawn o ddata personol am y dysgwyr sydd yn eu gofal. Gall y data hwn fod ar bapur (h.y. cofnodion papur) ac ar ffurf electronig (ee gyriannau sy'n cael eu rhannu, cronfeydd data electronig, a datrysiadau Cwmwl). Mae mwy a mwy o ddata personol yn cael ei gadw'n ddigidol yn sgil cyflwyno datrysiadau storio electronig (ee Google Drive) ac wrth i wybodaeth gael ei throsglwyddo neu ei rhannu'n ddigidol. O ganlyniad, mae'n haws cael gafael ar ddata personol ac mae'r potensial i golli data wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig pan fydd staff yn gweithio o bell (fel o'u cartrefi, ysgolion eraill, neu hyd yn oed fannau cyhoeddus).

Mae cyfreithiau diogelu data yn berthnasol i bob ffurf ar ddata personol, boed ar bapur neu ar ffurf electronig. Fodd bynnag, bydd y ddogfen hon yn rhoi pwyslais ar ddata sy'n cael ei gadw neu ei drosglwyddo'n ddigidol oherwydd ei fod yn rhan o dempled cyffredinol y Polisi Diogelwch Ar-lein.

Mae tor diogelwch data personol yn cael ei ddisgrifio fel *"tanseilio diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli neu newid data personol yn anghyfreithlon neu ddatgelu data personol neu gael mynediad at ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo, ei storio neu ei brosesu mewn unrhyw ffordd arall".* O ganlyniad, mae mwy i dorri diogelwch data personol na dim ond colli data personol, a gall achosion o'r fath fod yn ddamweiniol ac yn fwriadol. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd yn sgil lladrad, ymosodiad bwriadol ar eich systemau, aelod o staff neu ddysgwr yn defnyddio data personol heb awdurdod neu mewn modd maleisus, colli offer neu gofnodion papur yn ddamweiniol, neu offer diffygiol.

Rhan bwysig o reoli achos o dorri diogelwch data personol yw bod gan yr ysgol weithdrefn glir a dealladwy ar gyfer rhoi gwybod am achosion o'r fath fel bod modd rhoi camau ar waith a lleihau unrhyw risgiau pellach. Dylai'r ysgol gael polisi yn unol â GDPR y Deyrnas Unedig ar gyfer adrodd, cofnodi, rheoli ac adfer ar ôl digwyddiad , sy'n cadarnhau:

- pwy yw'r "unigolyn cyfrifol" ar gyfer adrodd ac ymchwilio i ddigwyddiadau
- sut mae rheoli achosion o dorri diogelwch data personol, gan gynnwys gweithdrefn uwchgyfeirio
- meini prawf ar gyfer pennu lefel ac amserlenni digwyddiadau, a ddylai helpu i:

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol lunio templed o ffurflen adrodd am ddigwyddiadau i staff ei lenwi os canfyddir achos o dorri diogelwch data personol. Mae'r ffurflenni hyn yn helpu'r ysgol i

gofnodi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ddadansoddi'r digwyddiad a chydymffurfio â'r egwyddor hygyrchedd. Dylai ffurflen o'r fath gynnwys y canlynol.

Rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am bob achos o dorri diogelwch 'risg uchel' drwy'r Swyddog Diogelu Data yn seiliedig ar weithdrefn yr ysgol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Mae'r cyfreithiau diogelu data yn mynnu y dylai'r hysbysiad hwn gael ei wneud cyn pen 72 awr i ddod yn ymwybodol o'r achos o dorri diogelwch (pan fo hynny'n ymarferol).

Rhaid i ysgolion ystyried a yw'r digwyddiad a ganfyddir yn peri risg i'r unigolion (h.y. gwrthrychau'r data) dan sylw, gan gynnwys tebygolrwydd a difrifoldeb unrhyw risg i hawliau a rhyddid pobl. Os yw'r asesiad yn awgrymu bod risg uchel yn annhebygol, nid oes angen rhoi gwybod am y digwyddiad. Fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol o dan y gyfraith diogelu data i gofnodi'r ffeithiau sy'n ymwneud â thor diogelwch, ei effeithiau, a'r camau unioni a gymerwyd gan y sefydliad. Dylai'r ysgol, felly, gadw cofnod o bob digwyddiad.

### Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs)

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs) yn nodi ac yn asesu risgiau preifatrwydd yn gynnar mewn prosiect sy'n prosesu data personol fel bod modd i'r ysgol eu lliniaru cyn lansio'r prosiect.

Dylai'r asesiadau hyn gael eu cynnal gan arweinwyr prosiect gyda chefnogaeth ac arweiniad y Swyddog Diogelu Data. Dylai ysgolion gynnal DPIA cyn cychwyn y gweithgarwch prosesu a'i gynnal ochr yn ochr â'r broses gynllunio a datblygu.

- Cam 1: Nodi'r angen ar gyfer defnyddio data personol
- Cam 2: Disgrifio'r llif gwybodaeth
- Cam 3: Nodi'r risgiau i breifatrwydd a'r risgiau cysylltiedig
- Cam 4: Nodi'r atebion preifatrwydd
- Cam 5: Llofnodi a chofnodi canlyniadau'r DPIA
- Cam 6: Integreiddio canlyniadau'r DPIA yng nghynllun y prosiect

Mae cyfraith diogelu data yn mynnu bod DPIA yn cael ei gwblhau pan fydd prosesu'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion ac ar gyfer y mathau canlynol o brosesu:

1. Proffilio systematig a helaeth gydag effeithiau sylweddol
2. Defnydd o ddata sensitif ar raddfa fawr (e.e. data personol, data categori arbennig neu ddata troseddol)
3. Monitro cyhoeddus (h.y. teledu cylch cyfyng)

I gael rhagor o wybodaeth am DPIAs, edrychwch ar y canllaw hwn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dylai DPIA gynnwys y canlynol:

- disgrifiad o'r prosesu a'r diben
- asesiad o reidrwydd a chymesuredd y prosesu mewn perthynas â'r diben
- asesiad o'r risgiau i unigolion
- y mesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r risg, gan gynnwys diogelwch, a dangos eich bod yn cydymffurfio.

A gellid ei osod allan fel hyn:

| **Describe source of risk and potential impact on individuals** | **Likelihood of harm** Remote, possible or probable | **Severity of harm** Minimal, significant, or severe | **Overall risk** Low medium high* | **If medium or high, options to reduce or eliminate risk** | **Effect on risk** Eliminated, reduced, or accepted | **Residual risk** Low medium high* | **Measure approved** yes/no |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn broses barhaus, a dylech chi edrych ar hyn eto o leiaf unwaith y flwyddyn i wneud yn siŵr nad oes dim wedi newid ers i'r gweithgareddau prosesu gychwyn.

## Storio a chael mynediad at ddata yn ddiogel

Dylai'r ysgol sicrhau bod systemau'n cael eu creu er mwyn i ffeiliau sydd wedi'u diogelu gael eu cuddio rhag defnyddwyr heb awdurdod ac y rhoddir mynediad priodol i'r rhai sy'n prosesu data personol. Er enghraifft, bydd mynediad at ddata a ddiogelir yn cael ei reoli yn ôl rôl y defnyddiwr. Ni fydd aelodau staff, fel mater o drefn, yn cael mynediad at y system gwybodaeth reoli gyfan.

Mae arferion da yn awgrymu y bydd pob defnyddiwr yn defnyddio cyfrineiriau cryf sy'n cynnwys cyfuniad o eiriau symlach, rhifau a nodau arbennig. Ni ddylid rhannu cyfrineiriau defnyddwyr byth. Rhaid i staff hefyd ddefnyddio dilysu aml-ffactor.

Dim ond ar beiriannau sy'n cael eu gwarchod yn ddiogel y gellir defnyddio data personol. Rhaid cloi unrhyw ddyfais y gellir ei defnyddio i gael gafael ar ddata personol os bydd y ddyfais yn cael ei gadael (hyd yn oed am gyfnodau byr) a dylai gloi yn awtomatig os na fydd wedi cael ei defnyddio am bum munud.

Rhaid cadw'r holl gyfryngau storio mewn lle diogel a saff sy'n osgoi unrhyw risg ffisegol, colled neu ddirywiad electronig.

Dim ond ar gyfarpar ysgol y dylid storio data personol. Ni ddylid defnyddio offer preifat (hynny yw, offer mae'r defnyddwyr yn berchen arno eu hunain) i storio data personol yr ysgol.

Pan fydd data personol yn cael ei storio ar unrhyw system gyfrifiadur symudol, ffon USB neu unrhyw gyfrwng y gellir ei dynnu:

- Rhaid amgryptio'r data a'i ddiogelu â chyfrinair
- Rhaid i'r ddyfais gynnwys meddalwedd sydd wedi'i chymeradwyo i wirio am firysau a drwgwedd
- Rhaid dileu'r data'n ddiogel oddi ar y ddyfais, yn unol â pholisi'r ysgol ar ôl ei drosglwyddo neu pan fydd wedi gorffen cael ei ddefnyddio.

Bydd angen i'r ysgol nodi ei bolisi ei hun o ran a ganiateir storio data ar gyfryngau y gellir eu tynnu, hyd yn oed os bydd y data yn cael ei amgryptio. Nid yw rhai sefydliadau yn caniatáu storio data personol ar ddyfeisiau y gellir eu tynnu.

Dylai fod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer gwneud copïau wrth gefn yn awtomatig, cael gafael ar yr holl ddata a gedwir ar systemau'r ysgol a'i adfer, gan gynnwys copïau wrth gefn oddi ar y safle lle bo'n berthnasol.

Dylai polisïau a gweithdrefnau clir fod ar waith ar gyfer defnyddio "Systemau Storio yn y Cwmwl" (ee Microsoft 365, Google Workspace for Education). Cofiwch fod data a gedwir ym mhell ac yn y cwmwl yn gorfod cael ei ddiogelu yn unol â'r deddfau diogelu data o hyd. Rhaid i'r ysgol sicrhau ei bod yn fodlon â'r dulliau rheoli y mae darparwyr gwasanaethau data o bell/yn y cwmwl wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu'r data. **Yng Nghymru, mae gan bob ysgol fynediad at Microsoft Office 365 a Google Workspace for Education drwy Hwb.** I gael rhagor o wybodaeth, ewch i .

Yr ysgol, yn ei rôl fel Rheolydd Data, sy'n gyfrifol am ddiogelwch unrhyw ddata a drosglwyddir i "drydydd parti". Rhaid cynnwys cymalau prosesu data penodol ym mhob contract pan fydd yn debygol y bydd data personol yn cael ei drosglwyddo i drydydd parti. Mae angen Prosesydd Data ar gyfer y rhain sy'n prosesu data personol ar ran yr ysgol i:

- weithredu yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig yr ysgol
- sicrhau bod y staff sy'n prosesu'r data personol yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- cymryd mesurau priodol i sicrhau diogelwch prosesu
- cyflogi is-broseswyr gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y rheolydd, a dan gontract ysgrifenedig yn unig
- cynorthwyo'r rheolydd i ddarparu mynediad at wybodaeth i wrthrych data a chaniatáu i wrthrychau data ymarfer eu hawliau dan GDPR y Deyrnas Unedig
- cynorthwyo'r rheolydd i gwrdd â'i rwymedigaethau diogelu data o ran diogelwch prosesu, gan gynnwys rhoi gwybod am dorri diogelwch data personol a chynnal DPIAs
- dileu neu ddychwelyd pob data personol i'r rheolydd yn unol â'r cais ar derfyn y contract

- darparu i'r rheolydd pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen i sicrhau eu bod ill dau yn cwrdd â rhwymedigaethau diogelu data
- dweud wrth y rheolydd ar unwaith os derbynnir cais i wneud rhywbeth sy'n torri GDPR y Deyrnas Unedig neu Ddeddf Diogelu Data 2018

## Trosglwyddo data a chael gafael ar ddata yn ddiogel y tu allan i oriau ysgol

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall defnyddwyr gael gafael ar ddata personol y tu allan i'r ysgol neu y gall gael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol neu i asiantaethau eraill. O dan yr amgylchiadau hyn:

- Ni chaiff defnyddwyr dynnu neu gopïo data personol sensitif/sydd wedi'i gyfyngu/ei ddiogelu o'r ysgol neu safleoedd awdurdodedig heb ganiatâd uwch. Dylid amgryptio cyfryngau a'u diogelu â chyfrinair a'u trosglwyddo'n ddiogel i'w storio mewn lleoliad diogel.
- Rhaid i ddefnyddwyr fod yn ofalus nad yw defnyddwyr eraill (ee aelodau teulu) yn defnyddio cyfrifiaduron neu ddyfeisiau mae modd eu symud sy'n cynnwys data personol y tu allan i'r ysgol.
- Pan fydd angen i ddefnyddiwr awdurdodedig gael mynediad at ddata personol (yn enwedig data personol categorïau arbennig) pan nad yw ar y safle (ee aelod o staff yn gweithio gartref), ffefrir defnyddio cysylltiad diogel o bell â system gwybodaeth reoli neu blatfform dysgu. Os nad yw mynediad diogel o bell yn bosib: dim ond os yw'r cyfrwng storio neu'r ddyfais symudol neu gludadwy wedi'i hamgryptio a bod y data wedi'i drosglwyddo'n ddiogel i'w storio y dylai defnyddwyr symud neu gopïo data personol neu sensitif.
- Rhaid i ddefnyddwyr ddiogelu pob dyfais symudol a chludadwy (gan gynnwys cyfryngau) a ddefnyddir i storio a throsglwyddo gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio meddalwedd amgryptio cymeradwy.
- Dylid bod yn arbennig o ofalus os yw'r data'n cael ei drosglwyddo i wlad arall (yn arbennig y tu allan i'r Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd  Ewropeaidd) a dylid gofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data yn y sefyllfa hon.

## Gwaredu data personol

Dylai'r ysgol baratoi amserlen cadw sy'n diffinio am ba hyd y cedwir data personol cyn ei ddinistrio'n ddiogel. Mae Pecyn cymorth i ysgolion y Gymdeithas Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth yn darparu cymorth ar gyfer y broses hon. Rhaid i'r ysgol sicrhau bod data personol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel pan na fydd ei angen mwyach.

Mae'n rhaid gwaredu data personol, naill ai ar bapur neu ar ffurf electronig, mewn ffordd sy'n golygu na fyddai'n debygol iawn y byddai'n cael ei ail-lunio. Mae'n rhaid gwaredu ffeiliau electronig yn ddiogel ac mae'n rhaid rhwygo, llosgi neu falurio pob cyfrwng arall yn ddarnau.

Dylid cadw cofnod dinistrio (h.y. Amserlen ar gyfer Gwaredu/Dinistrio) o'r holl ddata sy'n cael ei waredu. Dylai'r cofnod gynnwys rhif adnabod y ddogfen, dosbarthiad, dyddiad dinistrio, y dull a'r sawl a awdurdododd hynny.

### Dangos Cydymffurfiaeth - Cofnodi Archwiliadau / Adrodd / Trin Achosion

Hefyd, mae gofyn i sefydliadau gadw cofnodion o weithgareddau prosesu. Bydd y map data y cyfeirir ato uchod yn helpu yma. Rhaid i gofnodion gynnwys:

- enw a manylion cyswllt y rheolydd data
- enw a manylion cyswllt y cyd-reolydd a'r Swyddog Diogelu Data, lle bo hynny'n berthnasol
- diben y prosesu
- i bwy mae'r data wedi/yn cael ei ddatgelu
- disgrifiad o wrthrych y data a'r data personol
- i ba wledydd y mae wedi cael ei drosglwyddo, pan fo hynny'n berthnasol
- o dan ba amod ar gyfer prosesu y mae'r data personol wedi cael ei gasglu
- o dan ba sail gyfreithlon y mae prosesu yn cael ei wneud
- lle bo angen, sut mae'n cael ei gadw a'i ddinistrio
- disgrifiad cyffredinol o'r mesurau diogelwch technegol a mesurau diogelwch y sefydliad.

Er mwyn cynnal y cofnodion hyn mae'n rhaid dilyn prosesau archwilio da, a hynny ar ddechrau'r ymarfer ac yn barhaus drwy gydol oes y gofyniad. Felly, bydd angen cadw cofnodion archwilio er mwyn:

- darparu tystiolaeth o'r gweithgaredd prosesu a'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data
- cofnodi ble, pwy, sut ac â phwy y mae data personol wedi cael ei rannu
- cofnodi sut mae data personol yn cael ei waredu a'i ddinistrio
- galluogi'r ysgol i dargedu hyfforddiant at y data sydd fwyaf mewn perygl
- cofnodi unrhyw achosion o dorri diogelwch sy'n effeithio ar y data personol

### Ffi Diogelu Data

**Dylai ysgolion dalu'r ffi flynyddol berthnasol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn torri'r gyfraith os yw, fel rheolydd data, yn prosesu data personol a naill ai heb dalu ffi, neu heb dalu'r ffi gywir.**

### Cyfrifoldebau

Mae'n ofynnol i bob ysgol benodi Swyddog Diogelu Data annibynnol fel swyddogaeth graidd 'y busnes'

Mae modd penodi'r Swyddog Diogelu Data yn fewnol neu'n allanol.

Rhaid i'r swyddog fod â:

- gwybodaeth arbenigol
- cysylltiad amserol a phriodol â'r holl faterion sy'n berthnasol i ddiogelu data
- yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r rôl
- mynediad at y gweithrediadau prosesu data personol angenrheidiol
- llwybr adrodd uniongyrchol at y lefel rheoli uchaf.

Rhaid i'r rheolydd data:

- beidio â rhoi cyfarwyddiadau i'r Swyddog Diogelu Data ynghylch perfformiad tasgau
- sicrhau nad yw'r Swyddog Diogelu Data yn cyflawni dyletswydd neu rôl a fyddai'n arwain at wrthdaro rhwng buddiannau
- peidio diswyddo na chosbi'r Swyddog Diogelu Data am gyflawni'r tasgau mae'n ofynnol iddo eu cyflawni.

Y gofyniad sylfaenol yw bod yn rhaid i'r Swyddog Diogelu Data wneud y canlynol:

- rhoi gwybod, fel bo angen, i'r rheolydd, i brosesydd neu i gyflogai am ei rwymedigaethau o dan y cyfreithiau diogelu data
- rhoi cyngor ar DPIA
- cydweithio â'r Comisiynydd Gwybodaeth
- bod yn bwynt cyswllt i'r Comisiynydd Gwybodaeth
- monitro cydymffurfedd â pholisïau'r rheolydd yng nghyswllt diogelu data personol
- monitro a yw'r rheolydd yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data.

Efallai y bydd yr ysgol am benodi Rheolwr Data neu Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth hefyd. Anogir ysgolion i sicrhau bod y rôl hon ar wahân i rôl y Swyddog Diogelu Data pan fo hynny'n bosib. Bydd yr unigolyn yma'n sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, a bydd yn:

- penderfynu ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bolisi risgiau i wybodaeth ac asesiad risg yr ysgol
- goruchwylio'r Rheolyddion Systemau.

Efallai y bydd yr ysgol hefyd yn dymuno penodi aelodau o staff i fod yn gyfrifol am y gwahanol fathau o ddata a gedwir (ee gwybodaeth dysgwyr / gwybodaeth staff / data asesu ac ati). Bydd yr aelodau staff hyn yn rheoli ac yn rhoi sylw i'r risgiau i'r wybodaeth, a byddant yn deall y canlynol:

- pa wybodaeth sy'n cael ei chadw, am ba hyd ac i ba ddiben
- sut mae gwybodaeth wedi cael ei diwygio neu ei hychwanegu dros amser, a
- phwy sydd â hawl i weld y data a pham.

Mae gan bawb yn yr ysgol gyfrifoldeb dros drin data wedi'i ddiogelu neu ddata sensitif (gan gynnwys data dysgwyr) mewn ffordd ddiogel a saff.

Mae'n bosibl y bydd yr ysgol yn dymuno ystyried penodi llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu data, fodd bynnag, mae gofyn i bob llywodraethwr gydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn pan fydd ganddynt fynediad at ddata personol fel rhan o'u rôl fel Llywodraethwr (naill ai yn yr ysgol neu mewn man arall os yw'n ymwneud â busnes yr ysgol).

### Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Rhaid i'r holl staff a'r llywodraethwyr gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o drin data / diogelu data a byddant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Dylid dilyn yr hyfforddiant hwn yn rheolaidd. Gallwch chi wneud hyn drwy:

- Hyfforddiant cynefino ar gyfer aelodau staff newydd
- Hyfforddiant diogelu data blynyddol ar gyfer pob aelod o staff
- Cyfarfodydd staff / cyfarfodydd briffio / HMS
- Cymorth ac arweiniad o ddydd i ddydd

Dylai'r cwricwlwm ysgol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall eu hawliau a'u goblygiadau o ran preifatrwydd. Mae cyngor ac arweiniad ar gael gan yr ICO a Hwb.

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Rhaid i bob ysgol gael Polisi Rhyddid Gwybodaeth sy'n nodi sut bydd yn ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Nod Rhyddid Gwybodaeth yw "bod yn fwy agored" mewn sefydliadau sector cyhoeddus fel rhan o broses ddemocrataidd iach. Unigolion sy'n cyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a rhaid i'r ysgol ystyried a ddylid rhyddhau'r wybodaeth y gwneir cais amdani i'r cyhoedd. Dylid ymdrin ag unrhyw geisiadau am ddata personol o dan y gyfraith diogelu data. Mae eithriad Adran 40(1) a (2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymdrin â data personol.

Byddai cyngor da yn annog yr ysgol i wneud y canlynol:

- dirprwyo'r cyfrifoldeb dydd i ddydd am y polisi Rhyddid Gwybodaeth i'r Pennaeth, yn ogystal â'r cyfrifoldebau rhoi cyngor, arweiniad, cyhoeddusrwydd a dehongli polisi'r ysgol
- ystyried dynodi unigolyn yn gyfrifol am Ryddid Gwybodaeth, er mwyn cael un pwynt cyfeirio, a chydlynu Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig) Dylai'r ysgol ystyried pa wybodaeth a hyfforddiant y gall fod eu hangen ar staff.

- ystyried trefniadau ar gyfer goruchwylio mynediad at wybodaeth a dirprwyo i'r corff llywodraethu priodol
- mynd ati i gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys manylion sut mae modd cael gafael arni drwy Gynllun Cyhoeddi (mae enghraifft o Gynllun Cyhoeddi isod) ac adolygu hyn bob blwyddyn
- sicrhau bod system rheoli cofnodion a gwybodaeth sy'n cael ei rheoli'n dda yn bodoli er mwyn cydymffurfio â cheisiadau
- sicrhau y cedwir cofnodion o geisiadau a wrthodir a'r rhesymau dros wrthod, er mwyn i'r ysgol adolygu ei bolisi mynediad yn flynyddol

### Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu cynllun cyhoeddi enghreifftiol i ysgolion a sefydliadau ei lenwi. Dylid adolygu cynllun cyhoeddi'r ysgol bob blwyddyn.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn paratoi canllawiau ar y cynllun cyhoeddi enghreifftiol (Saesneg yn unig) i ysgolion. Bwriad hyn yw cefnogi ysgolion i gwblhau'r Canllawiau Gwybodaeth i Ysgolion (Saesneg yn unig).

### Caniatâd rhieni ar gyfer defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu lletya yn y cwmwl

Cynghorir ysgolion sy'n defnyddio gwasanaethau lletya yn y cwmwl i nodi'r sail gyfreithlon berthnasol i sefydlu cyfrif ar gyfer dysgwyr.

### Defnyddio Gwybodaeth Fiometrig

Mae gwybodaeth fiometrig yn ddata categori arbennig. Roedd Deddf Diogelu Rhyddid 2012 yn cynnwys mesurau sy'n effeithio ar ysgolion sy'n defnyddio systemau adnabod biometrig, fel adnabod olion bysedd a sganio'r wyneb:

- Cyn gellir cymryd a phrosesu data biometrig plentyn, rhaid i ysgolion gael cydsyniad ysgrifenedig rhiant ar gyfer pob disgybl o dan 18 oed.
- Rhaid iddynt drin y data yn ofalus a chydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data sydd wedi'u nodi yn y gyfraith diogelu data.
- Rhaid iddynt gyflwyno dulliau eraill o gael gafael ar wasanaethau os bydd rhiant neu ddisgybl wedi gwrthod cydsynio.

Mae'r cyngor i ysgolion yn nodi'n glir nad ydynt yn gallu defnyddio data biometrig y disgyblion heb gydsyniad rhiant. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno cynnwys y gweithdrefnau caniatâd rhieni mewn prosesau cydsynio diwygiedig. (gweler Atodiad Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhiant/Gofalwr)

### Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol eu bod yn ddarostyngedig i Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig wrth weithredu eu gwefannau.

# C3 Templed Polisi Rheoli8 Dyfeisiau (gan gynnwys 'Dewch â'ch Dyfais eich Hun')

### Awgrymiadau ar gyfer defnydd

O fewn y templed hwn mae adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth neu arweiniad i'w gweld mewn GLAS. Rhagwelir y byddai ysgolion yn dileu'r adrannau hyn o'u dogfen bolisi gyflawn, er mai penderfyniad y grŵp sy'n llunio'r polisi fydd hwn.

*Lle mae adrannau yn y templed wedi eu hysgrifennu mewn llythrennau italig, rhagwelir y byddai ysgolion yn dymuno ystyried a ddylid cynnwys yr adran neu'r datganiad hwnnw yn eu polisi gorffenedig ai peidio.*

Lle mae adrannau wedi'u hamlygu mewn print TRWM, barn Grŵp Diogelwch Ar-lein SWGfL yw y byddai'r rhain yn rhan hanfodol o Bolisi Diogelwch Ar-lein ysgol.

Gall dyfeisiau fod yn eiddo i/cael eu darparu gan ysgolion neu'n ffôn clyfar, tabled, gliniadur neu dechnoleg arall sy'n eiddo preifat ac sydd fel rheol yn gallu defnyddio rhwydwaith di-wifr yr ysgol. Felly, mae gan y ddyfais fynediad i'r rhyngrwyd ehangach, a all gynnwys platfform dysgu rhithwir yr ysgol a gwasanaethau eraill ar y cwmwl, fel e-bost a storio data.

Yr hyn sy'n hollol hanfodol wrth ystyried defnyddio dyfeisiau yw bod y dysgwyr, y staff a chymuned ehangach yr ysgol yn deall mai'r prif bwrpas o gael dyfais bersonol yn yr ysgol yw pwrpas addysgol, dim ots os yw'r ddyfais yn eiddo/cael ei darparu gan yr ysgol neu'n eiddo personol. Dylai'r polisi rheoli dyfeisiau weithio ochr yn ochr ag ystod o bolisïau, gan gynnwys y polisi diogelu, y polisi gwrth-fwlio, y polisi defnydd derbyniol, polisïau perthnasol i ddwyn neu ddifrod maleisus a'r polisi ymddygiad, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Dylid cynnwys addysgu am ddefnydd diogel a phriodol o dechnoleg fel rhan o'r rhaglen addysgol am gymhwysedd digidol a diogelwch ar-lein.

### Manteision Posibl Dyfeisiau

Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at y defnydd eang o ddyfeisiau ymhlith oedolion a phlant o bob oed. Mae adnoddau ar y we wedi newid y tirlun dysgu. Nawr mae gan ddysgwyr fynediad digyfyngiad ar flaenau eu bysedd at gynnwys digidol, adnoddau, arbenigwyr, cronfeydd data a chymunedau sydd o ddiddordeb iddynt. Drwy fanteisio i'r eithaf ac yn effeithiol ar y defnydd o adnoddau o'r fath, mae gan ysgolion nid yn unig gyfle i ddyfnhau dysgu, ond hefyd gallant ddatblygu cadernid digidol, medrusrwydd a dinasyddiaeth mewn dysgwyr, gan eu paratoi ar gyfer y byd technolegol y byddant yn byw, yn dysgu ac yn gweithio ynddo.

### Ystyriaethau

Mae angen ystyried nifer o faterion a risgiau wrth ddefnyddio dyfeisiau. Mae'r rhain yn cynnwys: risgiau diogelwch o ran caniatáu cyswllt â rhwydwaith eich ysgol; hidlo dyfeisiau personol; offer yn torri ac yswiriant; mynediad at ddyfeisiau i'r dysgwyr i gyd; osgoi tarfu ar yr ystafell ddosbarth o bosib,

cyflymder cyswllt y rhwydwaith; y mathau o ddyfeisiau; cyfleusterau gwefru; cyfanswm cost perchnogaeth.

Efallai y bydd ysgolion yn ystyried defnyddio Dewch â'ch Dyfais eich hun fel cyfrwng i leihau gwariant ar ddyfeisiau a ddarperir gan yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y costau rheoli rhwydwaith cynyddol a'r gorbenion uwch sy'n gysylltiedig â gweithredu hyn yn briodol yn debygol o wrthbwyso neu fod yn fwy nag unrhyw arbedion.

Mae defnyddio dyfeisiau yn cynnig gwir fanteision a heriau i gymuned yr ysgol gyfan - gan gynnwys ymarferwyr - a'r unig ffordd effeithiol i ysgol weithredu'r rhain yn llwyddiannus yw drwy gynnwys cymuned yr ysgol gyfan o'r dechrau un. Cyn i'r ysgol gamu ar y llwybr hwn, rhaid datgan y risgiau a'r manteision yn glir a'u rhannu gyda'r holl randdeiliaid.

Mae'n bosib gweithredu amrywiaeth o ddyfeisiau. Cyn i'r ysgol gamu ar y llwybr hwn, rhaid datgan y risgiau a'r manteision yn glir a'u rhannu gyda'r holl randdeiliaid.

- Bydd cytundebau defnydd derbyniol yr ysgol ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr yn ystyried defnyddio dyfeisiau
- Mae'r ysgol yn caniatáu'r canlynol: (dylai'r ysgol lenwi'r tabl isod i ddynodi pa ddyfeisiau a ganiateir ac i ddiffinio eu mynediad i systemau ysgol)

| | Dyfeisiau'r ysgol | | | Dyfeisiau personol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Eiddo'r ysgol ac yn cael ei neilltuo i un defnyddiwr | Eiddo'r ysgol at ddefnydd nifer o ddefnyddwyr | Dyfeisiau awdurdodedig[9] | Dysgwr | Staff | Ymwelwyr |
| Yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy/Nac ydy[10] | Ydy/Nac ydy[10] | Ydy/Nac ydy[10] |

[9] Dyfeisiau awdurdodedig – prynwyd gan y dysgwr/teulu drwy gynllun a drefnir gan yr ysgol. Gellir rhoi mynediad llawn i'r rhwydwaith i'r ddyfais yma, fel pe bai'n eiddo i'r ysgol.

[10] Dylai'r ysgol ychwanegu isod unrhyw ofynion penodol o ran defnyddio dyfeisiau personol yn yr ysgol, ee storio mewn lleoliad diogel, defnydd yn ystod y diwrnod, atebolrwydd, tynnu lluniau ac ati.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiad llawn i'r rhwydwaith | *Oes* | *Oes* | *Oes* | | | |
| Rhyngrwyd yn unig | | | | | | |
| Dim mynediad rhwydwaith | | | | | | |

- Mae'r ysgol wedi darparu datrysiadau technegol ar gyfer defnydd diogel o dechnoleg symudol ar ddyfeisiau ysgol/personol (dileu/diwygio fel sy'n briodol):
    - Rheolir pob dyfais ysgol drwy'r defnydd o ateb Rheoli Dyfeisiau Symudol.
    - Defnyddir rheolaeth briodol ar fynediad mewn perthynas â phob dyfais symudol, yn unol â gofynion y defnyddiwr (ee mynediad i'r rhyngrwyd yn unig, caniateir mynediad i'r rhwydwaith, mynediad i'r rhwydwaith rhannu ffolderi)
    - Mae'r ysgol wedi rhoi sylw i berfformiad a chapasiti'r band eang er mwyn sicrhau nad oes effaith negyddol ar weithgareddau addysgol a gweinyddol craidd oherwydd y cynnydd yn nifer y dyfeisiau sydd wedi cysylltu
    - Ar gyfer yr holl ddyfeisiau, defnyddir hidlydd ar y cyswllt traffig rhyngrwyd ac ni chaniateir unrhyw ymgais i'w osgoi
    - Gweithredir prosesau gadael priodol ar gyfer dyfeisiau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr ysgol neu gan ddefnyddiwr awdurdodedig mwyach. Gall y rhain gynnwys: diddymu'r cyswllt rhwng yr ateb MDM a'r ddyfais, dileu'r gosodiadau procsi, sicrhau nad oes unrhyw ddata sensitif yn cael ei gadw ar y ddyfais, dadosod meddalwedd dan drwydded yr ysgol ac ati.
    - *Bydd holl ddyfeisiau'r ysgol yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn rhagweithiol.*
- *Pan ganiateir dyfeisiau personol:*
    - *Cyfyngir ar bob dyfais bersonol drwy weithredu datrysiadau technegol sy'n darparu lefelau priodol o fynediad i'r rhwydwaith*
    - *Y perchennog a neb arall fydd yn gyfrifol am unrhyw risg wrth ddod â dyfeisiau personol i'r ysgol a'r defnyddiwr (a'i rieni/gofalwyr) fydd yn gwneud y penderfyniad i ddod â'r ddyfais i'r ysgol, felly hefyd yr atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad i ddefnyddio'r ddyfais yn yr ysgol.*
    - *Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd mewn perthynas â dyfeisiau a gollir, a gaiff eu dwyn neu a ddifrodir tra yn yr ysgol neu mewn gweithgareddau a drefnir neu a gynhelir gan yr ysgol (mae'r ysgol yn argymell prynu yswiriant i warchod y ddyfais tra mae allan o'r cartref)*
    - *Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw nam ar ddyfais oherwydd newidiadau a wneir i'r ddyfais tra mae ar rwydwaith yr ysgol neu wrth ddatrys unrhyw broblemau cysylltu*

- *Mae'r ysgol yn argymell gwneud y dyfeisiau'n hawdd i'w hadnabod a bod ganddynt glawr gwarchodol i helpu i'w diogelu wrth i'r dyfeisiau gael eu cludo o amgylch yr ysgol. Dylid gosod cyfrineiriau, PIN neu reolyddion diogelwch amgen (e.e. camau biometreg) ar ddyfeisiau personol er mwyn helpu gyda diogelwch*
- *Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am gynnal a chadw o ddydd i ddydd ar ddyfeisiau personol defnyddwyr, fel gwefru dyfais, gosod diweddariadau meddalwedd neu ddatrys problemau caledwedd.*
- Mae disgwyl i ddefnyddwyr ymddwyn yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn barchus, yn unol â'r cytundebau defnydd derbyniol cyfredol. Dylent hefyd gofio'r canlynol:

- Ni cheir defnyddio dyfeisiau mewn profion neu arholiadau.
- Dylai ymwelwyr gael gwybodaeth am sut a phryd cânt ddefnyddio dyfeisiau, yn unol â threfniadau diogelu lleol.
- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am ddiweddaru eu dyfeisiau drwy feddalwedd, diogelwch a diweddariadau i apiau. Mae'r ddyfais wedi'i gwarchod rhag firysau ac ni ddylai allu heintio'r rhwydwaith.
- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am wefru eu dyfeisiau eu hunain ac am warchod ac edrych ar ôl eu dyfeisiau tra maent yn yr ysgol.
- Dylid gwefru dyfeisiau personol cyn dod â nhw i'r ysgol oherwydd ni chaniateir gwefru dyfeisiau personol yn ystod y diwrnod ysgol.
- Rhaid i sain dyfeisiau fod wedi'i ddiffodd ar safle'r ysgol ac ar fysus ysgol.
- Darperir dyfeisiau ysgol er mwyn cefnogi'r dysgu. Mae disgwyl i ddysgwyr ddod â dyfeisiau i'r ysgol yn ôl yr angen.
- Ni chaniateir newid gosodiadau (ymhlith yr eithriadau mae gosodiadau personol a hygyrchedd gan y defnyddiwr) a fyddai'n atal y ddyfais rhag gweithio fel roedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol a'i fwriadu i weithio.
- Rhaid i'r feddalwedd/apiau a osodwyd yn wreiddiol gan yr ysgol aros ar y ddyfais sy'n eiddo i'r ysgol mewn cyflwr defnyddiol a bod yn hwylus i'w ddefnyddio bob amser. O dro i dro, efallai y bydd yr ysgol yn ychwanegu rhaglenni meddalwedd ar gyfer eu defnyddio mewn gwers benodol. Archwilir y dyfeisiau'n achlysurol i sicrhau nad yw'r defnyddwyr wedi dileu'r apiau gofynnol.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau bod dyfeisiau yn cynnwys yr apiau angenrheidiol ar gyfer gwaith yr ysgol. Bydd yr apiau a ychwanegir gan yr ysgol yn parhau'n eiddo'r ysgol ac ni fyddant ar gael i ddysgwyr ar ddyfeisiau awdurdodedig ar ôl iddynt adael yr ysgol. Bydd unrhyw apiau sydd wedi'u prynu gan y defnyddiwr ar ei gyfrif ei hun yn aros yn eiddo iddo ef .
- Dylai defnyddwyr roi sylw i gyfyngiadau oedran yr apiau a brynir maent yn eu ddefnyddio a dylent sicrhau eu bod yn darllen y telerau a'r amodau cyn eu defnyddio.
- Dim ond ar ôl cael eu caniatâd ddylai defnyddwyr dynnu lluniau pobl. Dim ond lluniau a fideos sydd eu hangen ar gyfer tasg neu weithgaredd ddylai defnyddwyr eu tynnu. Bydd unrhyw luniau neu fideos diangen yn cael eu dileu ar unwaith.
- *Caiff dyfeisiau eu defnyddio mewn gwersi yn unol â chyfarwyddyd yr athro.*

- *Ni ddylid defnyddio dyfeisiau sy'n eiddo i'r staff at bwrpas personol yn ystod sesiynau addysgu, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol.*
- *Ni fydd yn bosib argraffu o ddyfeisiau personol.*

### Yswiriant

Efallai y bydd yr ysgolion sydd wedi gweithredu dull gyda dyfeisiau awdurdodedig (defnydd 1:1) eisiau ystyried sut byddant yn yswirio'r dyfeisiau hyn a dylent gynnwys manylion y broses hawliadau yn y polisi hwn.

# C4 Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol (ee Facebook, X (Twitter, gynt), LinkedIn, Instagram) yn derm eang ar gyfer unrhyw fath o blatfform ar-lein sy'n galluogi pobl i ryngweithio'n uniongyrchol â'i gilydd. Fodd bynnag, mae gan rai gemau, er enghraifft Minecraft neu World of Warcraft, a llwyfannau rhannu fideos, fel YouTube, elfennau cyfryngau cymdeithasol yn perthyn iddynt hefyd.

Mae'r ysgol yn cydnabod y manteision a'r cyfleoedd niferus y gall y cyfryngau cymdeithasol eu cynnig. Anogir staff, rhieni a gofalwyr a dysgwyr i ganfod ffyrdd creadigol o ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae rhai risgiau'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â diogelu, bwlio ac enw da personol. Nod y polisi hwn yw annog defnydd diogel o gyfryngau cymdeithasol gan yr ysgol, ei staff, rhieni, gofalwyr a dysgwyr.

## Cwmpas

**Mae'r polisi hwn yn amodol ar godau ymddygiad a chytundebau defnydd derbyniol yr ysgolion.**

Mae'r polisi hwn:

- yn berthnasol i'r holl staff ac i'r holl gyfathrebu sy'n cynrychioli'r ysgol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- yn berthnasol i gyfathrebu ar-lein sy'n gallu cael ei gyhoeddi ar unrhyw adeg ac o unrhyw blatfform
- yn annog defnydd diogel a chyfrifol o gyfryngau cymdeithasol drwy hyfforddiant ac addysg
- *yn diffinio monitro gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus sy'n berthnasol i'r ysgol.*

Mae'r ysgol yn parchu preifatrwydd ac yn deall y gall staff a dysgwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn eu bywydau preifat. Fodd bynnag, mae cyfathrebu personol sy'n debygol o gael effaith negyddol ar safonau proffesiynol a/neu enw da'r ysgol o fewn cwmpas y polisi hwn.

**Cyfathrebu proffesiynol yw'r cyfathrebu a wneir drwy gyfryngau swyddogol ac a roddir ar gyfrif yr ysgol neu gan ddefnyddio enw'r ysgol. Mae'r holl gyfathrebu proffesiynol o fewn cwmpas y polisi hwn.**

Cyfathrebu personol yw'r cyfathrebu a wneir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Ym mhob achos, os defnyddir cyfrif personol sy'n gysylltiedig â'r ysgol neu'n effeithio ar yr ysgol, rhaid datgan yn glir nad yw'r aelod o staff yn cyfathrebu ar ran yr ysgol/coleg gydag ymwadiad priodol. Mae cyfathrebu personol o'r fath o fewn cwmpas y polisi hwn.

Mae cyfathrebu personol nad yw'n cyfeirio at yr ysgol nac yn effeithio arni y tu allan i gwmpas y polisi hwn.

Ystyrir cyfathrebu digidol â dysgwyr hefyd. *Caiff staff ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â dysgwyr ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol at ddibenion addysgu a dysgu ond rhaid ystyried a yw hyn yn briodol ac ystyried y goblygiadau posib.*

## Rheolaeth sefydliadol

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

- **Yr Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am**
    - Glynu wrth Arferion ac egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd ysgolion o'r cyfryngau cymdeithasol.
    - Hwyluso hyfforddiant a rhoi cyfarwyddyd ar ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol (gweler canllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol).
    - Cytuno ar ofynion monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
    - Datblygu a gweithredu'r polisi Cyfryngau Cymdeithasol.
    - Ystyried a chymeradwyo creu cyfrifon.
    - Chwarae rhan flaenllaw mewn ymchwilio i achosion y rhoddir gwybod amdanynt.
    - Cynnal asesiad cychwynnol pan roddir gwybod am ddigwyddiad, gan gynnwys staff priodol ac asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

- **Y Gweinyddwr/cymedrolwr sy'n gyfrifol am**
    - Creu'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar ôl cael cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arwain.
    - Storio manylion cyfrif, gan gynnwys cyfrineiriau, yn ddiogel.
    - Ymwneud â monitro a goruchwylio cyfrifon.
    - Sicrhau bod pob mynediad at gyfrifon yn cael ei reoli (h.y. os bydd trosiant staff neu newidiadau i rolau a chyfrifoldebau).

- **Staff sy'n gyfrifol am**
    - Bod yn gyfarwydd â chynnwys y cyfryngau cymdeithasol a sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohonynt yn cadw at y polisi hwn ac at bolisïau perthnasol eraill.
    - Mynychu hyfforddiant priodol.
    - Monitro, diweddaru a rheoli'r cynnwys maen nhw wedi'i roi ar gyfrifon yr ysgol yn rheolaidd
    - Ychwanegu ymwadiad priodol at gyfrifon personol wrth enw'r ysgol

## Proses ar gyfer creu cyfrifon newydd

Anogir cymuned yr ysgol i ystyried a fydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn eu helpu wrth eu gwaith, ee cyfrif Twitter yr adran hanes, neu dudalen Facebook "Ffrindiau'r ysgol". Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno creu cyfrif o'r fath gyflwyno achos busnes i'r Tîm Arwain, i gynnwys y pwyntiau canlynol: **Bydd unrhyw un sy'n dymuno creu cyfrif o'r fath yn ystyried y cwestiynau isod fel rhan o unrhyw benderfyniad cyn creu cyfrif.**

- Beth yw nod y cyfrif?
- Pwy yw'r gynulleidfa darged?

- Sut bydd y cyfrif yn cael ei hyrwyddo?
- Pwy fydd yn rheoli'r cyfrif? (Argymhellir bod o leiaf 2 aelod o staff yn rheoli unrhyw gyfrif, ac ar wahân i hynny, dylai ysgolion nodi perchennog cyfrifol ar gyfer pob cyfrif, a all fod yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth)
- Sut bydd y cyfrif yn cael ei fonitro?
- Sut bydd y cyfrif yn cael ei ffurfweddu: agored, preifat neu gaeedig?
- A yw'r staff yn glir ynghylch sut ac at ba ddiben y bydd pob dull cyfathrebu yn cael ei ddewis?
- O ble bydd mynediad i'r cyfrif?
- Beth yw'r gweithdrefnau uwchgyfeirio pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?

Ym mhob achos, bydd yr Uwch Dîm Arwain yn sicrhau bod unrhyw un sy'n rhedeg cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar ran yr ysgol wedi darllen a deall y polisi hwn ac wedi derbyn hyfforddiant priodol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw un nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, gan gynnwys gwirfoddolwyr neu rieni a gofalwyr.

## Monitro

Caiff cyfrifon yr ysgol eu monitro'n rheolaidd ac yn aml. Mae'r ysgol yn gwirio am gynnwys amhriodol neu anawdurdodedig ac yn ymateb yn brydlon i faterion ac yn mynd i'r afael â nhw. Ni ellir monitro cyfrifon ysgol nac ymateb iddynt y tu allan i oriau ysgol neu wyliau ysgol. Yn ystod cyfnodau pan nad yw'r cyfrif yn cael ei fonitro, gall yr ysgol 'binio' negeseuon priodol i'r proffil gan nodi pryd y dylid disgwyl ymateb. Mae'r rhain yn negeseuon sefydlog amlwg ac yn aml yn ymddangos ar frig porthiant cyfryngau cymdeithasol.

## Monitro negeseuon am yr ysgol

- Fel rhan o ymgysylltu gweithredol ar y cyfryngau cymdeithasol, bydd yr ysgol yn monitro'r rhyngrwyd yn rhagweithiol ar gyfer postiadau cyhoeddus am yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn ymateb i sylwadau cyfryngau cymdeithasol a wneir gan eraill yn unol â pholisi neu broses ddiffiniedig.

## Ymddygiad

- Mae'r ysgol yn dweud ei bod yn ofynnol i'r holl ddefnyddwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol gadw at y safon ymddygiad sydd wedi'i datgan yn y polisi hwn ac mewn polisïau perthnasol eraill.
- Rhaid i'r cyfathrebu digidol gan staff fod yn broffesiynol ac yn barchus bob amser ac yn unol â'r polisi hwn. Ni fydd staff yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymyrryd â hawliau a phreifatrwydd eraill nac i wneud sylwadau byrbwyll am staff neu eu barnu. Ni ddylid defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ysgolion i sicrhau budd personol. Rhaid i staff sicrhau y cedwir cyfrinachedd ar gyfryngau cymdeithasol, hyd yn oed ar ôl iddynt adael cyflogaeth yn yr ysgol.

- Rhaid i ddefnyddwyr ddatgan pwy ydynt wrth wneud sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol neu ar gyfrifon. Ni chaiff sylwadau dienw eu hannog mewn perthynas â gweithgarwch mewn ysgolion.
- Os bydd newyddiadurwr yn cysylltu am sylwadau a wnaed ar gyfryngau cymdeithasol, rhaid i'r staff gadw at bolisi cyfryngau'r ysgol cyn ymateb.
- Bydd ymddygiad annerbyniol (ee yn dwyn anfri, gwahaniaethu, sarhaus, cynnwys sy'n aflonyddu neu fynd yn groes i ddiogelu data, cyfrinachedd neu hawlfraint) yn cael ei ystyried yn eithriadol ddifrifol gan yr ysgol a rhoddir gwybod amdano cyn gynted â phosib i uwch aelod perthnasol, ac i lefel uwch pan fo hynny'n briodol.
- Efallai y caiff defnydd staff o gyfryngau cymdeithasol yn y gwaith ei fonitro, yn unol â pholisïau'r ysgol. *Mae'r ysgol yn caniatáu mynediad rhesymol a phriodol i safleoedd cyfryngau cymdeithasol preifat. Fodd bynnag, os oes amheuaeth o ddefnydd gormodol, ac os credir bod hynny'n ymyrryd a dyletswyddau perthnasol, efallai y cymerir camau disgyblu.*
- Bydd yr ysgol yn cymryd camau priodol os bydd rhywun yn mynd yn groes i'r polisi cyfryngau cymdeithasol. Os credir bod ymddygiad yn annerbyniol, bydd yr ysgol yn delio gyda'r mater yn fewnol. Os credir bod ymddygiad yn anghyfreithlon, bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r heddlu ac asiantaethau allanol eraill perthnasol am y mater, ac efallai y bydd yn gweithredu yn unol â'r polisi disgyblu.

### Ystyriaethau cyfreithiol

- Dylai defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol ystyried hawlfraint y cynnwys maent yn ei rannu a, lle bo angen, byddant yn gofyn am ganiatâd gan ddeiliad yr hawlfraint cyn rhannu.
- Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau nad yw eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn mynd yn groes i ddeddfau diogelu data perthnasol nac yn torri amodau cyfrinachedd.

### Rheoli digwyddiadau

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall ymddygiadau camdriniol a niweidiol a gyflawnir trwy gyfryngau cymdeithasol effeithio ar staff a dysgwyr, ac ar enw da'r ysgol.

- Os yw unigolyn yn cael ei gam-drin drwy ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r ysgol, yna bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei adrodd gan ddefnyddio'r protocolau ysgol y cytunwyd arnynt a bydd mynediad priodol at gymorth ar gael.
- Wrth weithredu ar ran yr ysgol, bydd sylwadau sarhaus yn cael eu trin yn gyflym ac yn sensitif.
- Efallai y bydd angen rhwystro unigolion rhag rhyngweithio â sianel cyfryngau cymdeithasol yr ysgol os nad ydynt yn cadw at y cytundeb defnydd derbyniol. Gall seiliau blocio gynnwys aflonyddu, iaith sarhaus, cynnwys amhriodol, sbamio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n mynd yn groes i werthoedd neu egwyddorion yr ysgol fel y nodir yn y disgwyliadau ar gyfer defnydd.
- Os bydd defnyddiwr yn cael ei rwystro bydd yn cael gwybod yn union pam y cymerwyd y camau

Defnyddio lluniau

Gellir tybio bod defnydd yr ysgol o ddelweddau yn dderbyniol, ar yr amod y ceisir caniatâd i ddefnyddio ffotograffau neu recordiadau fideo yn unol â pholisi delweddau digidol a fideo'r ysgol. Os bydd unrhyw un, am unrhyw reswm, yn gofyn am beidio â chael ei ffilmio neu dynnu ei lun yna bydd eu dymuniadau yn cael eu parchu.

Rhaid i staff gadw'n gaeth at y canllawiau a ganlyn:

- Ni ddylai staff rannu na llwytho lluniau i fyny o ddysgwyr ar-lein o dan unrhyw amgylchiadau ar wahân i drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n perthyn i'r ysgol.
- Dylai staff ymarfer eu barn broffesiynol ynghylch a yw llun yn briodol i'w rannu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Dylai'r dysgwyr fod wedi'u gwisgo'n briodol, heb greu testun gwawd ohonynt, ac ni ddylent fod ar unrhyw restr yn yr ysgol o blant na ddylid cyhoeddi eu lluniau.
- Os bydd aelod o staff yn tynnu llun amheus yn esgeulus - llun y gellid ei gamddehongli neu ei gamddefnyddio - rhaid iddo ei ddileu ar unwaith.

Defnydd personol o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol

- Staff
    - Cyfathrebu personol yw'r cyfathrebu a wneir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Ym mhob achos, os defnyddir cyfrif personol sy'n ei gysylltu ei hun â'r ysgol neu'n effeithio ar yr ysgol, rhaid datgan yn glir nad yw'r aelod o staff yn cyfathrebu ar ran yr ysgol gydag ymwadiad priodol. Mae cyfathrebu personol o'r fath o fewn cwmpas y polisi hwn.
    - Mae cyfathrebu personol nad yw'n cyfeirio at yr ysgol nac yn effeithio arni y tu allan i gwmpas y polisi hwn.
    - Os oes amheuaeth o ddefnydd personol gormodol o gyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol, ac os credir bod hynny'n ymyrryd â dyletswyddau perthnasol, efallai y cymerir camau disgyblu.
    - Mae'r ysgol yn caniatáu mynediad rhesymol a phriodol i safleoedd cyfryngau cymdeithasol preifat.
    - Anogir staff i gyfeirio at yr adran 'Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bersonol' yn y canllawiau cyfryngau cymdeithasol i ysgolion
- Dysgwyr
    - Ni chaniateir i staff ddilyn nac ymwneud â dysgwyr presennol neu flaenorol yr ysgol ar unrhyw gyfrif rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol personol.
    - Mae gan yr ysgol ddull trawsgwricwlaidd o addysgu dysgwyr i fod yn ddefnyddwyr diogel a chyfrifol o gyfryngau cymdeithasol.

- Bydd sylwadau sarhaus neu amhriodol yn ymwneud â'r ysgol yn cael eu datrys trwy ddefnyddio polisi ymddygiad yr ysgol

- Rhieni a Gofalwyr
  - Os oes gan rieni a gofalwyr fynediad i blatfform dysgu ysgol lle gellir cyflwyno sylwadau a negeseuon, caiff y rhieni/gofalwyr wybod am ddefnydd derbyniol ohono.
  - Mae gan yr ysgol raglen addysg weithredol i rieni/gofalwyr i gefnogi defnydd diogel a chadarnhaol o gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar y wefan.
  - Os bydd sylwadau sarhaus neu amhriodol yn cael eu gwneud am yr ysgol, bydd yr ysgol yn gofyn i'r rhiant neu ofalwr ddileu'r neges ac yn eu gwahodd i drafod y materion wyneb yn wyneb. Os oes angen, cyfeiriwch y rhieni at weithdrefnau cwyno'r ysgol.

# Atodiad

## C5 Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgol – Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion

Templed polisi newydd ac ychwanegol - Mawrth 2025

## Rhagarweiniad

Mae'r South West Grid for Learning Trust (SWGfL) yn elusen sydd wedi bod ar flaen y gad yn helpu ysgolion gyda diogelwch ar-lein ers 20 mlynedd a chaiff ei chydnabod fel arweinydd byd-eang mewn arloesi ym maes diogelwch ar-lein

Wrth i ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'AI cynhyrchiol') ddal i ddatblygu a dylanwadu ar y byd lle'r ydym yn byw, mae ei rôl mewn addysg hefyd yn datblygu. Ar hyn o bryd defnyddir AI cynhyrchiol mewn 3 phrif ddimensiwn mewn ysgolion: cymorth i ddysgwyr, cymorth i athrawon a gweithrediadau ysgolion; ac mae'n hanfodol sicrhau ei fod bob amser yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn foesegol ac yn gyfrifol.

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o fanteision AI cynhyrchiol i wneud y broses ddysgu yn fwy personol a symleiddio tasgau gweinyddol, ond ar yr un pryd mae'n codi pryderon ynghylch diogelu data, defnydd moesegol, a pharodrwydd athrawon i integreiddio adnoddau AI cynhyrchiol yn y dosbarth.

Mae'r ddeialog barhaus hon yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth bod gan AI cynhyrchiol y potensial i weddnewid addysg, ochr yn ochr â'r angen i'w weithredu'n ofalus er mwyn gwarchod lles dysgwyr a hyrwyddo canlyniadau teg. Mae'r ystyriaethau hyn yn creu llwybr ar gyfer gwreiddio AI cynhyrchiol mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant i athrawon, canllawiau moesegol, a meithrin cymhwysedd digidol ymysg dysgwyr.

### Sut i Ddefnyddio'r Templed hwn

Crëwyd y ddogfen hon fel templed ar gyfer arweinwyr ysgol i'w helpu i greu eu polisi AI cynhyrchiol eu hunain.

Yn y templed hwn, mae'r adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth neu arweiniad mewn GLAS. Rhagwelir y byddai ysgolion yn tynnu'r adrannau hyn o'u dogfen bolisi derfynol, er mai penderfyniad i'r grŵp sy'n creu'r polisi fydd hynny.

*Pan fo adrannau yn y templed wedi'u hysgrifennu mewn ITALIG rhagwelir y bydd ysgolion eisiau ystyried a ddylid cynnwys neu hepgor yr adran neu'r datganiad hwnnw o'u polisi terfynol.*

Awgrymir y dylai'r adrannau sydd mewn print TRWM fod yn rhan hanfodol o bolisi diogelwch yr ysgol.

## Cefndir Deddfwriaethol a Dogfennau Allweddol

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein y DU 2023 wedi'i chynllunio i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel, yn enwedig i blant a defnyddwyr agored i niwed, drwy reoleiddio cynnwys ar-lein a dal cwmnïau technoleg i gyfrif am ddeunydd niweidiol. Ofcom yw'r rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y DU ac mae'n gyfrifol am gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau ar sut gall cwmnïau gydymffurfio â'u dyletswyddau. Pan fydd AI cynhyrchiol yn cynnwys data personol, bydd y ddeddfwriaeth diogelu data yn dod i rym felly Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r rheoleiddiwr perthnasol. Mae gan yr ICO ganllawiau defnyddiol ar-lein am agweddau diogelu data wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Mae Llywodraeth y DU wedi ei gomisiynu i lunio cod ymarfer statudol ar Dechnolegau Addysg. Hefyd, mae Cod Plant yr ICO yn gosod safonau statudol y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein i blant eu cyflawni.

Nid oes deddfwriaeth benodol i'w chael ar hyn o bryd ynghylch defnyddio AI cynhyrchiol mewn ysgolion, ond mae canllawiau wedi cael creu a chânt eu diweddaru'n rheolaidd wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno troi at yr adnoddau canlynol:

- Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ym maes addysg – cyfleoedd ac ystyriaethau i ysgolion a lleoliadau
- Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol: cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein
- Modiwl hyfforddiant ar-lein Sylfeini AI
- Hwb - Beth yw deallusrwydd artiffisial: fideo a gynhyrchwyd gan Gydweithrediad Cymru ar gyfer dylunio dysgu
- Map AI - GOV.UK (Saesneg yn unig)
- Cynllun Gweithredu ar Gyfleoedd AI (Llywodraeth y DU) (Saesneg yn unig)
- Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein Ofcom 2024
- Deddf Deallusrwydd Artiffisial yr UE 2024 - Crynodeb 4 pwynt lefel uchel defnyddiol o ystyriaethau (Saesneg yn unig)
- Fframwaith Cymhwysedd AI UNESCO ar gyfer Myfyrwyr (Canllaw) (Saesneg yn unig)
- Fframwaith Cymhwysedd AI UNESCO ar gyfer Staff (Canllaw)(Saesneg yn unig)
- Diogelu data mewn ysgolion - Deallusrwydd artiffisial (AI) a diogelu data mewn ysgolion - Canllawiau - GOV.UK (Saesneg yn unig)
- Canllawiau ar AI a diogelu data | ICO
- Beth ydy data personol? | ICO
- AI a seiberddiogelwch: beth sydd angen i chi ei wybod - NCSC.GOV.UK

## Cyd-destun

Mae AI cynhyrchiol yn gam trawsnewidiol ymlaen mewn technoleg, gan alluogi peiriannau i greu testun, delweddau, sain a fideo a hynny gyda chywirdeb a chreadigrwydd rhyfeddol. Yn deillio o ddatblygiadau mewn dysgu peirianyddol, mae modelau cynhyrchiol fel GPT (*Generative Pre-trained Transformer*) a DALL-E yn defnyddio setiau data helaeth i ddeall a chynhyrchu cynnwys sy'n dynwared mynegiant dynol. Er mai ymdrin â thestun oedd y modelau hyn i ddechrau, maent bellach wedi datblygu i fod yn fodelau aml-ddull, gan integreiddio a phrosesu gwahanol fathau o ddulliau mewnbynnu, fel testun a delweddau, i gynhyrchu allbynnau cydlynol.

Ers ymddangosiad cyntaf systemau cynnar fel GPT-2 gan OpenAI yn 2019, mae'r maes wedi datblygu'n gyflym iawn, gan esgor ar gyfleoedd ym myd addysg a chodi ystyriaethau hollbwysig ar yr un pryd ynghylch moeseg, preifatrwydd data, a mynediad cyfartal.

Yn ôl Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein Ofcom 2024 mae mwy na 50% o blant wedi defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae pobl ifanc 13-15 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (66%) na'r rheini sy'n 8-12 oed (46%) a gan gyfuno'r ddau grŵp oedran, mae dros hanner (53%) wedi defnyddio deallusrwydd artiffisial i'w helpu i wneud gwaith cartref. Mae plant yn defnyddio deallusrwydd artiffisial at amrywiaeth eang o ddibenion gan gynnwys dod o hyd i wybodaeth, creu delweddau/fideos, chwilio am gyngor a chrynhoi testun. Yr adnodd mwyaf poblogaidd ymysg y grŵp oedran 8-15 oed ydy ChatGPT (37%) yna Snapchat My AI (30%).

Mae'n rhaid i ysgolion nawr droedi'r dirwedd hon yn ofalus, gan greu polisïau sy'n harneisio manteision AI cynhyrchiol ar gyfer creadigrwydd a dysgu gan roi blaenoriaeth ar yr un pryd ddiogelu data a diogelwch a llesiant dysgwyr.

## Polisi ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) mewn Ysgolion

### Datganiad o fwriad

Mae technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) eisoes yn cael ei defnyddio'n eang mewn amgylcheddau masnachol ac mae'n dod yn fwyfwy cyffredin ym myd addysg. Rydym yn cydnabod bod integreiddio adnoddau AI cynhyrchiol mewn addysg yn rhoi inni lawer o gyfleoedd, gan gynnwys y potensial i wella profiadau addysgol a helpu staff gyda rhai tasgau gweinyddol. Fodd bynnag, wrth eu defnyddio, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, cyfrifoldeb, moeseg, ymddiriedaeth, diogelu data a chynwysoldeb.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod i systemau AI cynhyrchiol eu risgiau eu hunain, ond bod modd lliniaru'r rhain drwy ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol, gan ddiwygio'r rhain yn ôl yr angen i roi sylw i'r risgiau hyn.

Byddwn yn addysgu staff a dysgwyr am sut i ddefnyddio AI cynhyrchiol mewn ffordd ddiogel a moesegol, gan eu paratoi ar gyfer dyfodol lle mae technolegau deallusrwydd artiffisial yn debygol o chwarae rhan gynyddol.

Fel bob amser, diogelu staff a dysgwyr fydd yn flaenllaw yn ein polisi a'n hymarfer.

## Polisïau cysylltiedig

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill yr ysgol:

- Polisi Diogelu Data
- Polisi Disgyblu staff a chodau ymddygiad
- Polisi ymddygiad
- Polisi gwrth-fwlio
- Polisi diogelwch ar-lein
- Cytundebau Defnydd Derbyniol
- *Polisïau'r Cwricwlwm*
- Ychwanegwch unrhyw bolisïau eraill a allai fod yn berthnasol

### Datganiadau Polisi

Mae'r ysgol yn cydnabod manteision posibl defnyddio AI cynhyrchiol mewn cyd-destun addysgol - gan gynnwys gwella dysgu ac addysgu, gwella prosesau gweinyddol, rheoli llwyth gwaith, a pharatoi staff a dysgwyr am ddyfodol y bydd technoleg deallusrwydd artiffisial yn rhan annatod ohono. Anogir staff i ddefnyddio adnoddau sy'n seiliedig ar AI cynhyrchiol i'w helpu gyda'u gwaith lle bo hynny'n briodol, o fewn y fframweithiau isod ac mae gofyn iddynt fod yn broffesiynol-gyfrifol ac atebol am y maes hwn o'u gwaith.

- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol, gan gyfeirio at y canllawiau yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant perthnasol i staff *a llywodraethwyr* ar fanteision defnyddio AI cynhyrchiol, sut gellir ei ddefnyddio a'r risgiau posibl. Byddwn yn helpu staff i weld pa anghenion hyfforddi a datblygu sydd ganddynt er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd perthnasol.
- Byddwn yn ceisio cynnwys gwersi am AI cynhyrchiol fel y bo'n briodol yn arlwy'r cwricwlwm, gan helpu dysgwyr i ddeall sut mae AI cynhyrchiol yn gweithio, beth yw ei fanteision, ei risgiau a'i effeithiau moesegol a chymdeithasol posibl. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd paratoi dysgwyr drwy roi iddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r strategaethau i allu defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol yn gyfrifol.
- Fel y nodir yn y cytundeb defnydd derbyniol gan staff, bydd staff yn cael eu cefnogi i ymgysylltu ag adnoddau AI cynhyrchiol yn gyfrifol, gan sicrhau bod data personol a sensitif yn cael ei ddiogelu.
- Bydd staff bob amser yn sicrhau bod adnoddau AI cynhyrchiol a ddefnyddir yn cydymffurfio â GDPR y DU a rheoliadau diogelu data eraill, gan wirio gyda'r Swyddog Diogelu Data fod yr adnoddau'n cydymffurfio â safonau a osodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) cyn eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â'r ysgol.
- Bydd gofyn i'r holl staff ystyried yn ofalus cyn defnyddio unrhyw adnodd AI cynhyrchiol a gofyn am farn uwch arweinwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd.

- Dylai staff bob amser ddefnyddio cyfrifon a ddarperir gan yr ysgol at ddibenion gwaith. Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu ffurfweddu i gydymffurfio â gofynion diogelwch a goruchwyliaeth y sefydliad, gan leihau'r risg y bydd rheolau data'n cael eu torri.
- Byddwn yn diogelu gwybodaeth sensitif. Ni fydd ysgolion nac ymarferwyr yn mewnbynnu unrhyw ddata personol, data dysgwyr neu wybodaeth sensitif neu gyfrinachol arall i adnoddau AI cynhyrchiol.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau, pan gaiff AI cynhyrchiol ei ddefnyddio, na fydd yn tramgwyddo cytundebau eiddo deallusol na hawlfraint. Cymerir gofal i geisio sicrhau nad yw eiddo deallusol, gan gynnwys eiddo deallusol y dysgwyr, yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi modelau AI cynhyrchiol heb ganiatâd priodol.
- Rhaid i'r staff roi gwybod i'r timau mewnol perthnasol ar unwaith am unrhyw achosion o gamddefnyddio AI cynhyrchiol, torri rheolau data neu allbynnau amhriodol.
- Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r holl adnoddau sy'n cael eu defnyddio, eu diben a'u risgiau posibl. (Mae matricsau asesu risgiau ynghlwm fel atodiad)
- Rydym yn ymwybodol o'r risg bosibl o ragfarn a gwahaniaethu yn yr allbynnau gan adnoddau deallusrwydd artiffisial ac rydym wedi sefydlu ymyraethau a phrotocolau i ddelio ag unrhyw faterion a allai godi. Pan fyddwn yn caffael ac yn gweithredu systemau AI cynhyrchiol, byddwn yn dilyn gofal a diwydrwydd dyladwy i flaenoriaethu tegwch a diogelwch.
- *Bydd yr ysgol yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut caiff AI cynhyrchiol ei ddefnyddio yn yr ysgol (gallai hyn fod drwy'r "Canllaw Deallusrwydd Artiffisial yn ein Hysgol")*
- *Os bydd staff yn defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol i'w helpu yn eu hymarfer dysgu ac addysgu, gwneir hyn mewn ffordd bwrpasol, ystyriol, gyda ffocws clir ar sicrhau effaith a dealltwriaeth a lliniaru risgiau.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod dogfennau negeseuon e-bost, cyflwyniadau ac allbynnau eraill dan ddylanwad deallusrwydd artiffisial yn cynnwys labeli neu nodiadau clir sy'n nodi y cafwyd cymorth deallusrwydd artiffisial i'w cynhyrchu.*
- *Bydd staff yn sicrhau bod yr holl gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei wirio a'i adolygu cyn cael ei rannu neu ei gyhoeddi er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gywir.*
- Bydd defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol mewn ffordd amhriodol, gan gynnwys torri safonau diogelu data, camddefnyddio gwybodaeth sensitif, neu fethu â glynu wrth y cytundeb hwn, yn arwain at gamau disgyblu fel y diffinnir yn y Polisi Disgyblu Staff.

## Cyfrifoldebau

### Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr

Mae Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn gyfrifol am greu cynlluniau strategol ar gyfer sut bydd AI cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol, gan sefydlu polisïau a gweithdrefnau deallusrwydd artiffisial a sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant perthnasol a'u bod yn eu deall.

### Person Diogelu Dynodedig / Arweinydd Diogelwch Ar-lein

Mae ein Person Diogelu Dynodedig / Arweinydd Diogelwch Ar-lein yn gyfrifol am ddiogelwch ar-lein yn yr ysgol. Disgwylir iddynt fod â gwybodaeth am AI cynhyrchiol a'i oblygiadau diogelu a gwybodaeth

ymarferol fanwl am y canllawiau allweddol. Rydym yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant arbenigol priodol, sy'n gymesur â'u rôl a bod hyfforddiant parhaus yn cael ei roi i holl staff yr ysgol.

### Swyddog Diogelu Data

Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad ar rwymedigaethau diogelu data o safbwynt defnyddio AI cynhyrchiol, gan gynnwys unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a gaiff eu cynnal wrth ystyried defnyddio adnoddau a gwasanaethau digidol a allai ddefnyddio data personol. Lle bo posibilrwydd y gallai data personol gael ei ddefnyddio, neu ei ddefnyddio'n anfwriadol, bydd yr ysgol yn sicrhau bod hawliau gwrthrychau data yn cael eu cynnal. Yn yr achosion hyn, darperir hysbysiadau preifatrwydd.

### Staff Technegol

Staff Technegol / Arweinwyr TG sy'n gyfrifol am roi arweiniad a chymorth technegol, yn benodol o safbwynt seiberddiogelwch ac effeithiolrwydd systemau hidlo a monitro. (Rhaid i ysgolion sydd â chontractau allanol ar gyfer cymorth technegol sicrhau bod eu Partner Cymorth Technoleg Addysg yn ymwybodol o ofynion yr ysgol ynghylch AI cynhyrchiol a chydymffurfio â pholisïau ysgolion. Dylai'r ysgolion hyn hefyd archwilio'r gwasanaethau hyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio)

### Staff

Mae'n gyfrifoldeb i'r holl staff ddarllen a deall y polisi hwn a'r Cytundebau Defnydd Derbyniol cysylltiedig. Rhaid i'r holl staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau amheus sy'n ymwneud â defnyddio AI cynhyrchiol, yn unol â pholisi'r ysgol. Bydd yr holl staff yn herio unrhyw ymddygiad amhriodol. Mae gan y staff ddyletswydd i sicrhau'r canlynol:

- bod amgylchedd yr ysgol yn ddiogel
- bod yr holl ddata/gwybodaeth bersonol, sensitif a chyfrinachol yn ddiogel
- nad ydynt yn gwneud dim a fydd yn peryglu enw da'r ysgol, a bod
- dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau

### Llywodraethwyr

Rydym yn sicrhau bod gan ein corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o sut mae AI cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun yr ysgol a beth yw manteision a risgiau ei ddefnyddio. Maent yn cael hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd, gan eu galluogi i gefnogi'r ysgol a herio lle bo angen. Gallai hyn gynnwys gwerthuso sut caiff AI cynhyrchiol ei ddefnyddio yn y cwricwlwm, i weinyddu a chyfathrebu, gan sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn cael eu nodi, bod llwybrau adrodd ar gael, a bod y risgiau'n cael eu lliniaru'n effeithiol. (Efallai yr hoffai ysgolion ychwanegu yma unrhyw bwyllgor Llywodraethwyr penodol a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb arweiniol e.e., Pwyllgor Risg ac Archwilio)

### Rhieni/gofalwyr

Rydym yn gweithio'n galed i gynnwys rhieni a gofalwyr drwy wneud y canlynol:

- *cynnal sesiynau rheolaidd yn yr ysgol*
- *rhannu cylchlythyrau*
- *rhannu gwybodaeth ar-lein e.e., gwefan, cyfryngau cymdeithasol*
- *rhannu gwybodaeth am y cwricwlwm*
- Rhestrwch unrhyw ffyrdd eraill o gynnwys rhieni a gofalwyr

Rydym yn rhoi gwybod i'n rhieni a'n gofalwyr sut mae AI cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol a chânt arweiniad ar yr arferion da wrth ei ddefnyddio ac ar y risgiau a allai effeithio ar ddysgu neu ddiogelwch eu plentyn o'i gamddefnyddio. Cânt eu hannog i roi gwybod i'r ysgol am unrhyw bryderon a chânt wybod y bydd pob digwyddiad yn cael ei drin yn ofalus ac yn sensitif.

### Grwpiau agored i niwed

Rydym yn cydnabod bod dysgwyr agored i niwed yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gamddefnyddio AI cynhyrchiol (wrth iddyn nhw eu hunain ei ddefnyddio neu drwy weithredoedd pobl eraill). Rydym yn sicrhau bod dysgwyr agored i niwed yn cael cynnig cymorth priodol i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio AI cynhyrchiol, gan fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl.

Mae plant yn cael eu hystyried yn wrthrychau data agored i niwed ac felly mae unrhyw broses sy'n ymwneud â'u data personol yn debygol o fod yn "risg uchel". Fel y nodir uchod, rhaid cynnal Asesiad Effaith trylwyr.

## Adrodd

Mae ein systemau adrodd yn cael eu hyrwyddo'n dda, yn hawdd i staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr eu deall a'u defnyddio yn hyderus i adrodd am broblemau neu bryderon, gan wybod y bydd y rhain yn cael eu cymryd o ddifrif. Bydd pob adroddiad yn cael sylw yn gyflym ac yn sensitif a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn ymateb i adroddiadau dienw, neu i adroddiadau a wneir gan drydydd partïon. Gellir gwneud hyn drwy: (diwygiwch fel bo angen)

- aelod staff enwebedig
- peirianweithiau sefydledig yr ysgol ar gyfer adrodd
- adnodd adrodd ar-lein/all-lein
- llwybrau adrodd dienw/cyfrinachol
- cysylltiadau â mudiadau cenedlaethol neu leol
- *rhestrwch unrhyw systemau eraill yma*
- 

## Ymateb i ddigwyddiad neu ddatgeliad

Mae ein hymateb bob amser yn seiliedig ar egwyddorion diogelu cadarn ac mae'n dilyn prosesau disgyblu a diogelu'r ysgol. Mae'n ddigynnwrf, yn ystyriol ac yn briodol ac yn rhoi'r dysgwr yn gyntaf wrth wneud pob penderfyniad.

- Rhaid rhoi gwybod yn brydlon i'r timau mewnol perthnasol am bob digwyddiad sy'n ymwneud â AI cynhyrchiol (gan gynnwys achosion o dorri rheolau data a/neu allbynnau amhriodol). Mae rhoi gwybod ar unwaith yn helpu i liniaru'r risgiau ac yn galluogi'r timau i ymateb yn brydlon.
- Pan fydd yn berthnasol / gofynnol, bydd digwyddiadau'n cael eu hadrodd i asiantaethau allanol e.e., yr Heddlu, awdurdod lleol, Swyddog Diogelu Data, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn pen 72 awr ar ôl i'r ysgol ddod yn ymwybodol o unrhyw dramgwyddo.
- Bydd pob digwyddiad sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial yn cael ei gofnodi drwy gyfrwng systemau cofnodi arferol yr ysgol

Yn achos staff yn camddefnyddio AI cynhyrchiol, os oedd y camddefnydd yn cynnwys data personol a'i fod yn fwriadol/esgeulus, gallai hynny fod yn drosedd o dan Adran 170 Deddf Diogelu Data 2018.

## Asesu risg

Mae'n holl bwysig bod ein dull o reoli risg yn ategu ac yn cyd-fynd â'n dull diogelu ehangach.

Mae'r ysgol yn deall, er gwaethaf llawer o fanteision cadarnhaol a geir o ddefnyddio AI cynhyrchiol, y ceir rhai risgiau y bydd angen eu hadnabod a'u rheoli, gan gynnwys:

- Risgiau cyfreithiol, masnachol, diogelwch a moesegol
- Diogelu Data
- Seiberddiogelwch
- Twyll
- Diogelu a lles
- Dyletswydd gofalu

Gellir defnyddio'r matrics enghreifftiol sydd i'w gael ar ddiwedd y templed polisi hwn i werthuso risg yn yr ysgol a gellir ei olygu a'i addasu yn unol â hynny drwy weithdrefnau arferol yr ysgol

## Addysg a hyfforddiant

Nod dull addysgol ein hysgol yw ceisio meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnolegau digidol newydd, gan gynnwys AI cynhyrchiol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i integreiddio AI cynhyrchiol yn effeithiol yn amgylchedd ein hysgol. Byddwn yn defnyddio AI cynhyrchiol yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn bwrpasol i helpu gydag amrywiaeth o dasgau fel:

- cynorthwyo gyda rhai swyddogaethau gweinyddol arferol
- helpu i ddarparu profiadau dysgu mwy personol

- helpu i gynllunio gwersi, marcio, rhoi adborth a gwneud adroddiadau
- darparu cyd-destunau i helpu dysgwyr i feithrin sgiliau meddwl beirniadol
- helpu'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm ar lefel yr ysgol a'r asesiadau

Bydd llythrennedd deallusrwydd artiffisial, sy'n cynnwys gallu meddwl yn feirniadol, pwyso a mesur tystiolaeth a gwybodaeth, dilysu ffynonellau a defnyddio creadigrwydd, yn holl bwysig. Mae'r sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben, y dylid eu datblygu ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, yn canolbwyntio ar feithrin yr ymagweddau hyn. Nod ein hysgol yw darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon lle mae'n briodol ac yn berthnasol yn ein cwricwlwm.

Mae ein dull gweithredu yn cael yr amser mae'n ei haeddu ac mae'n ddilys h.y., yn seiliedig ar faterion cyfredol yn genedlaethol, yn lleol ac o fewn proffil risg ein lleoliad. Mae'n cael ei siapio a'i werthuso gan ddysgwyr ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol i sicrhau ei fod yn ddeinamig, yn datblygu ac yn seiliedig ar angen. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- *Cysylltu â dysgwyr*
- *Gwerthuso tueddiadau newydd a chanfyddiadau ymchwil yn feirniadol*
- *Gofyn am gyngor gan arbenigwyr technegol a'n Swyddog Diogelu Data.*
- *Arolygon*
- *Grwpiau ffocws*
- *Cysylltu â rhieni*
- *Ymgynghori â staff*
- *Hyfforddi staff*

Wrth i AI cynhyrchiol ddod yn rhan annatod o addysg fodern, mae'n bwysig bod staff yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau i integreiddio adnoddau AI cynhyrchiol yn gyfrifol i brosesau addysgu, dysgu a gweinyddu. Drwy feithrin llythrennedd deallusrwydd artiffisial, fe all staff baratoi dysgwyr yn hyderus ar gyfer dyfodol lle mae deallusrwydd artiffisial yn un o'r prif elfennau sy'n sbarduno datblygiadau arloesol a chyfleoedd.

- Byddwn yn cefnogi'r holl staff ac yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar hyfforddiant ar ddefnyddio technolegau newydd ym myd addysg mewn ffordd effeithiol, gyfrifol, cyfreithiol a moesegol.
- Byddwn yn integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial a mesurau diogelu mewn hyfforddiant diogelu blynyddol, gan gyd-fynd â'r canllawiau statudol, gan gynnwys 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'.
- Byddwn yn helpu staff i adnabod, asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thechnolegau AI cynhyrchiol, gan gynnwys materion fel algorithmau rhagfarnllyd, achosion o dramgwyddo preifatrwydd, a chynnwys niweidiol.
- Byddwn yn helpu staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR y DU a rheoliadau perthnasol eraill wrth ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol.
- Byddwn yn hyrwyddo arferion moesegol wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol, gan sicrhau bod y technolegau hyn yn cyfrannu at chwarae teg, tegwch, a chynwysoldeb mewn addysg.

- Byddwn yn grymuso staff i addysgu dysgwyr am sut i ddefnyddio AI cynhyrchiol yn ddiogel ac yn foesegol, gan feithrin diwylliant o ymwybyddiaeth, gwytnwch a phenderfyniadau gwybodus yn yr oes ddigidol.

Defnyddir yr adnoddau canlynol:

- AI Cynhyrchiol – Canllaw Hwb - Adnoddau, arweiniad a gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr addysg, dysgwyr a theuluoedd ar AI cynhyrchiol.
- Hwb - Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc
- Deunyddiau Common Sense Education Llythrennedd AI a dinasyddiaeth ddigidol
- Cwricwlwm i Gymru - Hwb
- Sylfeini AI: modiwl hyfforddi ar gyfer ymarferwyr addysg
- AI Cynhyrchiol – Canllaw Hwb - Adnoddau, arweiniad a gwybodaeth am AI cynhyrchiol ar gyfer ymarferwyr addysg, dysgwyr a theuluoedd.
- ICO adnoddau i ysgolion

## Dolenni ychwanegol

- SWGfL – Deallusrwydd Artiffisial a Diogelwch Ar-lein (Saesneg yn unig)
- Understanding AI for school – Tips for School Leaders - ASCL, NAHT, CST, ac eraill

## Atodiad C5a Matrics Asesu Risg ar gyfer Ysgolion sy'n Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol)

### Rhagarweiniad

Bwriedir i'r matrics asesu risg canlynol helpu ysgolion i adnabod, gwerthuso a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu AI cynhyrchiol mewn prosesau addysgol.

Mae'r matrics yn ystyried risgiau posibl ar draws amrywiol feysydd, gan gynnwys diogelu data, ystyriaethau moesegol, a gweithredu cyfannol. Rhoddir pwyslais penodol ar ystyriaethau lles a diogelu, tynnir sylw at risgiau posibl i les dysgwyr ac mae'n cynnig strategaethau i liniaru'r risgiau hyn yn effeithiol. Dylai ysgolion ddiwygio cynnwys y matrics yn ôl yr angen ac ystyried y proffil risg sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau eu hunain.

### Matrics Asesu Risg

| Maes Risg | Disgrifiad o'r Risg | Tebygolrwydd (Isel/Canolig/Uchel) | Effaith (Isel/Canolig/Uchel) | Lefel y Risg (Isel/Canolig/Uchel) | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant AI cynhyrchiol | Arweiniad neu hyfforddiant annigonol yn effeithio ar allu staff i fabwysiadu, defnyddio a monitro AI cynhyrchiol yn ddiogel ac yn foesegol yn eu hysgol. | | | | Sicrhau bod yr holl staff yn gallu cael hyfforddiant rheolaidd i'w helpu i ddefnyddio AI cynhyrchiol yn ddiogel ac yn foesegol wrth addysgu a dysgu. |
| Diogelu Data ac Achosion o Dorri Rheolau Preifatrwydd | Bydd cymhlethdod y dechnoleg a'r contractau yn ei gwneud yn anodd i ysgolion ddeall yn llwyr pa ddefnydd y bydd y darparwr AI cynhyrchiol yn ei wneud o'r data a fewnbynnir (gan gynnwys cyflwyno data personol yn anfwriadol).<br><br>Mynediad heb awdurdod at ddata sensitif neu wybodaeth bersonol, gan arwain at bryderon diogelu a risg fasnachol. | | | | Diwydrwydd dyladwy gan gynnwys cyngor gan y Swyddog Diogelu Data cyn llofnodi contract. Gweithredu trefniadau amgryptio cryf, polisïau rheoli data sy'n cydymffurfio â GDPR y DU, a chynnal archwiliadau preifatrwydd rheolaidd. |
| **Seiberfwlio** | Mwy o bosibiliadau bwlio drwy offer cyfathrebu sy'n cael eu cyflwyno drwy | | | | Monitro offer cyfathrebu AI cynhyrchiol, gweithredu peirianweithiau adrodd clir a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddeallusrwydd artiffisial. | | | | rhoi cymorth i ddysgwyr. |
| **Gorddibyniaeth ar AI cynhyrchiol** | Mae gorddibyniaeth ar AI cynhyrchiol yn arwain at ddysgwyr yn rhyngweithio llai â'i gilydd. Lleihau annibyniaeth athrawon a phrosesau gwneud penderfyniadau holl bwysig drwy orddefnyddio adnoddau AI cynhyrchiol. | | | | Annog gweithgareddau dysgu cydweithredol a chael cydbwysedd rhwng defnyddio AI cynhyrchiol â chyswllt cymdeithasol. Diffinio ffiniau clir ar gyfer defnyddio AI cynhyrchiol ac adolygu ei effaith ar addysgeg yn rheolaidd. |
| **Dylanwadu Emosiynol** | Systemau AI cynhyrchiol yn effeithio'n anfwriadol ar iechyd meddwl dysgwyr drwy gyfrwng cynnwys detholedig. | | | | Monitro cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, defnyddio gwasanaethau gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, a hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. |
| **Cynnwys neu Ymddygiad Amhriodol** | AI cynhyrchiol yn dangos deunyddiau / | | | | Cynnal profion trylwyr ar adnoddau AI |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymddygiad niweidiol neu anaddas i ddysgwyr | | | | cynhyrchiol, defnyddio prosesau hidlo a monitro effeithiol a sicrhau bod rhywun yn goruchwylio. |
| **Effeithiau ar Iechyd Meddwl** | Gorddefnyddio adnoddau AI cynhyrchiol yn achosi straen, gorbryder, neu ddibyniaeth ymysg dysgwyr. | | | | Monitro patrymau defnyddio, darparu adnoddau iechyd meddwl, a gosod disgwyliadau o ran defnyddio systemau AI cynhyrchiol. |
| **Rhagfarn a Gwahaniaethu** | Systemau AI cynhyrchiol yn lledaenu rhagfarnau sy'n effeithio ar gynhwysiant neu les dysgwyr. Modelau AI cynhyrchiol yn cynhyrchu canlyniadau gwahaniaethol neu ragfarnllyd. | | | | Archwilio algorithmau AI cynhyrchiol yn rheolaidd am ragfarn a darparu addysg a hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau sy'n gynhwysol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camddefnyddio deallusrwydd artiffisial** | Dysgwyr yn defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol at ddibenion niweidiol, anfoesol neu anghyfreithlon (e.e. dinoethi). | | | | Addysgu dysgwyr sut i ddefnyddio AI cynhyrchiol yn briodol a chyfrifol a sefydlu polisïau defnyddio clir. |
| **Camwybodaeth** | Creu neu ledaenu cynnwys niweidiol neu gamarweiniol sydd wedi'i greu drwy AI cynhyrchiol. | | | | Addysgu staff a dysgwyr i ddilysu'r hyn a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial a sefydlu polisïau clir i gadarnhau dilysrwydd cynnwys. |
| **Bwlch Digidol** | Mynediad anghyfartal at adnoddau AI cynhyrchiol ymysg dysgwyr o grwpiau demograffig amrywiol. | | | | Darparu mynediad teg at adnoddau AI cynhyrchiol a sicrhau bod atebion eraill ar gael. |
| **Ymwybyddiaeth o Foesau Deallusrwydd Artiffisial** | Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff a dysgwyr am oblygiadau moesegol AI cynhyrchiol. | | | | Darparu hyfforddiant ac addysg ar foeseg AI cynhyrchiol a sut i'w ddefnyddio'n gyfrifol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cywirdeb Data** | Systemau AI cynhyrchiol yn cynhyrchu argymhellion anghywir neu gamarweiniol. | | | | Dilysu allbynnau AI cynhyrchiol yn rheolaidd a sicrhau bod pobl yn goruchwylio unrhyw benderfyniadau a wneir. |
| **Cydymffurfiaeth Gyfreithiol** | Methu â chydymffurfio â chyfreithiau sy'n ymwneud â defnyddio AI cynhyrchiol a data dysgwyr. | | | | Deall y gofynion cyfreithiol. Cynnal adolygiadau cyfreithiol a gofyn i arbenigwyr ynghylch rheoliadau sy'n ymwneud â AI cynhyrchiol. |
| **Seiberddiogelwch** | Adnoddau AI cynhyrchiol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn ymosodiadau seiber sy'n targedu data a systemau ysgolion. | | | | Cryfhau protocolau seiberddiogelwch ac addysgu staff a dysgwyr am arferion diogel ar-lein. |

Diffiniadau o Debygolrwydd ac Effaith

- Tebygolrwydd: Y tebygolrwydd y bydd y risg a nodir yn digwydd.
    - Isel: Annhebygol o ddigwydd o dan amgylchiadau arferol.

- Canolig: Yn bosibl o ddigwydd yn seiliedig ar dueddiadau neu wendidau yn y gorffennol.
- Uchel: Yn debygol o ddigwydd heb ymyrraeth.

- Effaith: Difrifoldeb yr effaith os yw'r risg yn cael ei gwireddu.
  - Isel: Effaith fechan iawn gyda chanlyniadau cyfyngedig.
  - Canolig: Effaith gymedrol sy'n effeithio ar brosesau allweddol.
  - Uchel: Effaith sylweddol gyda chanlyniadau difrifol.

## Cynllun Gweithredu

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno creu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r matrics asesu risg. Dylai eich cynllun ystyried dull gweithredu cyn ac ar ôl y digwyddiad er mwyn dangos beth yw effaith arfaethedig y camau y bwriadwch eu cymryd. Gallai'r camau hyn gynnwys (diwygiwch fel y bo'n berthnasol).

1. *Penodi arweinydd diogelu a fydd yn gweithio'n agos â'r Swyddog Diogelu Data i oruchwylio'r gwaith o weithredu AI cynhyrchiol o safbwynt lles dysgwyr a sicrhau bod data personol dysgwyr a staff yn cael ei ddiogelu.*
2. *Rhoi hyfforddiant rheolaidd i staff ar ddiogelwch ar-lein, moeseg deallusrwydd artiffisial, a sut i'w ddefnyddio'n gyfrifol.*
3. *Adolygu arlwy'r cwricwlwm i weld lle gellid cynnwys materion sy'n gysylltiedig â AI cynhyrchiol yn y dysgu mewn rhannau perthnasol a phriodol o'r cwricwlwm.*
4. *Sefydlu mecanweithiau adrodd tryloyw ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu neu les sy'n gysylltiedig â AI cynhyrchiol, yn ogystal ag unrhyw ddigwyddiadau diogelu data sy'n cynnwys data personol.*
5. *Cydweithio â rhieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth am y risgiau a'r arferion gorau wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol.*
6. *Gwneud adolygiadau blynyddol o adnoddau AI cynhyrchiol a'u heffaith ar les dysgwyr, gan ddiweddaru'r matrics risgiau yn ôl yr angen.*

## Adolygu a Diweddaru

Bydd yr ysgol yn adolygu ac yn diweddaru'r matrics hwn yn flynyddol neu pryd bynnag y bydd technolegau deallusrwydd artiffisial newydd neu heriau diogelu yn codi.

# Atodiad C5b Templed: Cytundeb Defnydd Derbyniol o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol) i Staff a Gwirfoddolwyr

## Polisi'r Ysgol

Mae technolegau newydd, gan gynnwys AI cynhyrchiol, yn cael eu hintegreiddio fwyfwy mewn lleoliadau addysgol ac ym mywydau staff a dysgwyr. Mae gan y technolegau hyn y potensial i wella creadigrwydd, hybu dysgu mwy personol, a gwella effeithlonrwydd gweithredol. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r rhain, fe geir hefyd risgiau sy'n gofyn am bolisïau ac arferion clir er mwyn sicrhau diogelwch, defnydd moesegol a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

Diben y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau'r canlynol:

- Mae staff a gwirfoddolwyr yn defnyddio AI cynhyrchiol a thechnolegau newydd yn gyfrifol, gan roi blaenoriaeth i ystyriaethau diogelwch a moesegol.
- Mae systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag iddynt gael eu camddefnyddio a rhag iddynt gael niwed yn sgil defnyddio AI cynhyrchiol.
- Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau'n llwyr wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol a thechnolegau newydd mewn cyd-destunau proffesiynol a phersonol.

## Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Rydw i'n deall bod rhaid i mi ddefnyddio AI cynhyrchiol a thechnolegau newydd mewn ffordd gyfrifol, er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch neu breifatrwydd cymuned yr ysgol a'i systemau. Rydw i'n cydnabod potensial y technolegau hyn ar gyfer gwella'r broses ddysgu, a byddaf yn ymdrechu i'w cynnwys mewn ffordd sy'n cyd-fynd â pholisi, ethos a gwerthoedd yr ysgol.

## Er lles fy niogelwch proffesiynol a phersonol:

- Rydw i'n deall y bydd yr ysgol yn fy monitro wrth imi ddefnyddio adnoddau a thechnolegau AI cynhyrchiol.
- Ni fyddaf ond yn defnyddio adnoddau a thechnolegau AI cynhyrchiol at y dibenion a awdurdodir gan yr ysgol y byddaf yn sicrhau fy mod yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data (e.e. GDPR y DU) wrth ymdrin â data personol.
- Byddaf yn sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth sensitif neu wybodaeth sy'n datgelu pwy yw'r staff, y dysgwyr, neu'r rhieni/gofalwyr dan sylw ddim ond yn cael ei chofnodi ar systemau AI cynhyrchiol sydd wedi bod drwy broses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.
- Byddaf yn rhoi gwybod i'r unigolyn priodol ar unwaith am unrhyw anghysondebau neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â AI cynhyrchiol a allai awgrymu camddefnydd, rhagfarn neu niwed.

Wrth gyfathrebu a gweithredu:

- Byddaf yn parchu hawlfraint, eiddo deallusol a safonau moesegol wrth lwytho cynnwys i fyny i ysgogi allbynnau AI cynhyrchiol.
- Byddaf yn gwerthuso allbynnau systemau AI cynhyrchiol er mwyn osgoi lledaenu camwybodaeth neu gynnwys rhagfarnllyd a byddaf yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir drwy gymorth deallusrwydd artiffisial yn cael eu gwneud gyda goruchwyliaeth briodol gan bobl ac yn unol â GDPR y DU.
- Byddaf yn cyfathrebu'n broffesiynol ac yn gyfrifol wrth ddefnyddio systemau AI cynhyrchiol.
- Byddaf yn sicrhau tryloywder drwy briodoli'r defnydd o AI cynhyrchiol ac yn darparu hysbysiad preifatrwydd os yw data personol wedi cael ei ddefnyddio.

Pan fyddaf yn addysgu:

- Byddaf yn helpu dysgwyr i ddefnyddio AI cynhyrchiol yn ddiogel, yn foesegol, yn briodol ac yn effeithiol.
- Byddaf yn defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol gyda dysgwyr mewn ffyrdd sy'n cynnal ac yn gwella eu preifatrwydd, eu lles a'u hymddiriedaeth.

**Wrth ddefnyddio systemau ac adnoddau'r ysgol:**

- Byddaf yn defnyddio systemau AI cynhyrchiol gan gydymffurfio â phrotocolau mynediad a mesurau diogelwch sefydledig.
- Byddaf yn sicrhau bod unrhyw raglenni AI cynhyrchiol a ddefnyddir wrth addysgu neu weinyddu yn cael eu fetio gan y Swyddog Diogelu Data a'u bod yn cydymffurfio â pholisïau'r ysgol.
- Byddaf yn sicrhau nad yw adnoddau AI cynhyrchiol yn cael eu defnyddio i esgus bod yn rhywun arall nac i greu cynnwys twyllodrus neu niweidiol.

Wrth drin data:

- Byddaf yn sicrhau fy mod yn cydymffurfio â pholisïau diogelu data'r ysgol wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol at unrhyw ddiben.
- Byddaf yn sicrhau bod sail gyfreithiol ar gyfer llwytho i fyny gwybodaeth sensitif sy'n gysylltiedig â'r ysgol i systemau AI cynhyrchiol. Caiff hyn ei sefydlu fel rhan o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd:

- Byddaf yn defnyddio adnoddau AI cynhyrchiol yn gyfrifol i greu cynnwys dilys a buddiol, gan sicrhau bod manylion a llesiant unigolion yn cael eu parchu.
- Rwy'n deall y gallai camddefnyddio AI cynhyrchiol neu dechnolegau newydd arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys rhybuddion, atal dros dro, neu gyfeirio at yr awdurdodau priodol.
- Rwy'n cydnabod bod y cytundeb hwn yn berthnasol i'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â AI cynhyrchiol y tu mewn a'r tu allan i'r adeiladau ysgol sy'n gysylltiedig â'm cyfrifoldebau proffesiynol.

## Atodiad C5c

## Ffurflen Gais Offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI cynhyrchiol)

Argymhellir na ddylai ysgolion roi caniatâd i'w staff a'u disgyblion ddefnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial, oni bai fod yr offer/adnodd dan sylw wedi ei gymeradwyo gan yr ysgol. Mae'r ffurflen hon yn galluogi staff i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio offer sydd wedi bod o ddefnydd iddynt ac sy'n debygol o fodloni meini prawf yr ysgol.

Unigolyn Cyswllt:

Swydd:

Dyddiad y cais:

### Manylion yr Offer/Adnodd AI cynhyrchiol

Enw'r offer/adnodd Deallusrwydd Artiffisial:

Pwrpas defnyddio'r adnodd/offer:

Manteision disgwyliedig:

Peryglon posib:

Ydy'r pwyntiau canlynol wedi eu cydnabod? (cylchwch **DO / NADDO**)

- **Cydymffurfedd â GDPR y Deyrnas Unedig**: Rhaid i'r rhai sy'n defnyddio AI cynhyrchiol gadw at eu cyfrifoldebau diogelu data yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

- **Cytundeb Defnydd Derbyniol**: Rhaid i'r rhai sy'n defnyddio AI cynhyrchiol sicrhau bod y defnydd hwnnw yn cydymffurfio â Chytundeb Defnydd Derbyniol Staff yr ysgol. Mae'n bwysig eu bod yn deall beth yw eu cyfrifoldebau o ran lliniaru'r peryglon sydd ynghlwm â defnyddio'r offer. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu hamlinellu yma: [Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg - Hwb]

- **Pwrpas defnyddio AI cynhyrchiol:** Rhaid i ddefnyddwyr gyflwyno achos clir dros ddewis defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial, gan ddangos eu bod yn ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol a moesol.

Ydy'r Pennaeth wedi cymeradwyo? (cylchwch - **DO / NADDO**)

Dyddiad Cymeradwyo:

Cydnabyddiaeth: Mae'r ffurflen hon yn deillio o un y mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn ei defnyddio mewn ysgolion.

# Deddfwriaeth

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaeth a gafodd ei defnyddio i gynhyrchu'r templed Polisi Diogelwch Ar-lein a'r canllaw hwn. Mae'n bwysig nodi, yn gyffredinol, bod gweithred sy'n anghyfreithlon all-lein hefyd yn anghyfreithlon ar-lein.

Awgrymir i chi gael cyngor cyfreithiol yn achos mater neu ddigwyddiad diogelwch ar-lein.

### Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990

O dan y Ddeddf hon, bydd yn drosedd i wneud y canlynol:

- dileu neu newid data neu raglenni heb awdurdod;
- cael mynediad anawdurdodedig i gyfrifiadur;
- "clustfeinio" ar gyfrifiadur;
- gwneud defnydd anawdurdodedig o amser neu gyfleusterau cyfrifiadurol;
- llygru neu ddileu data neu raglenni yn faleisus;
- gwrthod mynediad i ddefnyddwyr awdurdodedig.

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno edrych ar wefan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth am "Cyber Choices: Helping you choose the right and legal path". Erbyn hyn, mae gan Uned Seiberdrosedd Ranbarthol TARIAN (RCCU) swyddogion 'Prevent Seiberdroseddu' sy'n gyfrifol am atal pobl ifanc rhag cyflawni seiberdroseddau a/neu aildroseddu. Mae adnoddau cynorthwyol ar gael ar Hwb ac mae crynodeb defnyddiol o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron ar wefan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

### Deddf Diogelu Data 2018:

**Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn diweddaru Deddf 1998, yn cynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn y Deyrnas unedig, a'i nod yw:**

- hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel yn y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
- atal pobl neu sefydliadau rhag cadw a defnyddio gwybodaeth anghywir am unigolion. Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth am fywyd preifat a sefydliad
- rhoi hyder i'r cyhoedd ynghylch sut y gall sefydliadau ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol
- rhoi hawl gyfreithiol i wrthrychau'r data weld pa wybodaeth sydd gan sefydliadau amdanynt. Gallant hefyd ofyn i'r rheolydd data ei ddinistrio
- rhoi mwy o reolaeth i wrthrychau'r data o ran sut mae rheolyddion data'n ymdrin â'u data

- rhoi pwyslais ar atebolrwydd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau roi prosesau ar waith sy'n dangos sut maen nhw'n trin data'n ddiogel
- ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw data personol pobl yn saff a diogel. Rhaid i reolyddion data sicrhau nad yw'n cael ei gamddefnyddio
- ei gwneud yn ofynnol i'r defnyddiwr data neu ddaliwr gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae gan bob gwrthrych data yr hawl i'r canlynol:

- derbyn gwybodaeth glir ynglŷn â sut y byddwch yn defnyddio ei ddata
- mynediad at wybodaeth bersonol amdano
- gofyn i'w ddata gael ei ddiwygio os yw'n hen neu ei ddileu. Yr hawl i gywiro a'r hawl i ddileu yw'r enw ar y rhain
- gofyn am wybodaeth am y rhesymeg y tu ôl i unrhyw benderfyniadau a wneir yn awtomatig, er enghraifft os ydy meddalwedd cyfrifiadurol yn gwrthod benthyciad iddynt
- atal neu holi ynghylch prosesu eu data personol yn awtomatig.

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i unigolion wneud cais am wybodaeth sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus. Mae gan yr holl awdurdodau cyhoeddus, a chwmnïau sydd ym mherchnogaeth lwyr awdurdodau cyhoeddus, oblygiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Wrth ymateb i geisiadau, mae'n rhaid iddynt ddilyn nifer o weithdrefnau a therfynau amser cadarn.

## Deddf Cyfathrebiadau 2003

Mae anfon neges neu ddeunydd arall drwy'r rhyngrwyd sy'n ddychrynllyd o sarhaus neu o natur anweddus, anllad neu fygythiol; neu anfon neges gamarweiniol trwy'r rhyngrwyd, neu ddefnyddio'r rhyngrwyd yn barhaus er mwyn peri poen, anhwylustod neu bryder diangen, yn drosedd a allai arwain at gyfnod yn y carchar o gael eich canfod yn euog. Bydd y geiriad hwn yn bwysig oherwydd mae trosedd wedi'i chwblhau unwaith y bydd y neges wedi'i hanfon yno: nid oes rhaid profi diben na phwrpas.

## Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988

Mae'n drosedd anfon llythyr, cyfathrebiad electroneg neu unrhyw erthygl anweddus, ymosodol, neu fygythiol i berson arall.

## Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Mae'n drosedd i unrhyw berson ryng-gipio unrhyw gyfathrebiadau yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithlon. Caniateir monitro neu gadw cofnod o unrhyw ffurf o gyfathrebiadau electroneg er mwyn gwneud y canlynol:

- sefydlu'r ffeithiau
- gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio ag arferion neu weithdrefnau hunanreoleiddiol

- arddangos safonau, sydd yn, neu ddylai, gael eu cyflawni gan bersonau sy'n defnyddio'r system
- canfod neu ymchwilio i ddefnydd anawdurdodedig o'r system gyfathrebu
- atal neu ganfod troseddau neu rywbeth sydd o ddiddordeb i ddiogelwch gwladol
- sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu'n effeithiol
- er na cheir cofnodi, caniateir monitro er mwyn:
    - canfod os yw cyfathrebu yn fusnes neu'n bersonol
    - amddiffyn neu gefnogi staff llinellau cymorth
- mae'r ysgol yn cadw'r hawl i fonitro ei systemau a'i chyfathrebiadau yn unol â'i hawliau o dan y ddeddf hon.

### Deddf Nodau Masnach 1994

Mae'r Ddeddf hon yn amddiffyn Nodau Masnach Cofrestredig, a allai fod yn unrhyw symbol (geiriau, siapiau neu ddelweddau) sy'n gysylltiedig â set o nwyddau neu wasanaethau penodol. Ni ddylid defnyddio Nodau Masnach Cofrestredig heb ganiatâd. Gallai hyn hefyd godi wrth ddefnyddio Nod sy'n ddryslyd o debyg i Nod sydd eisoes yn bodoli.

### Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

Mae'n drosedd copïo gwaith, neu ran sylweddol o waith dan hawlfraint. Fodd bynnag, caniateir rhai defnyddiau cyfyngedig penodol, megis dibenion teg, sy'n golygu nad oes angen caniatâd o dan rai amodau i gopïo darnau bach ar gyfer ymchwil anfasnachol neu astudiaeth breifat. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu Hawliau Moesol, lle gall awdur erlyn os nad yw ei enw'n cael ei gynnwys mewn gwaith sydd wedi'i ysgrifennu ganddo, neu os yw'r gwaith wedi cael ei newid mewn ffordd a allai greu amheuaeth i'w enw da. Mae hawlfraint yn berthnasol i ddeunydd mewn print ac ar ffurf electroneg, ac yn cynnwys geiriau, delweddau, a sain, delweddau sy'n symud, darllediad teledu a chyfryngau eraill (ee YouTube).

### Deddf Cyfathrebiadau 1984

Mae'n drosedd anfon neges neu fater arall sy'n ddychrynllyd o sarhaus neu o natur anweddus, anllad neu fygythiol. Mae hefyd yn drosedd anfon neges â'r bwriad o beri poen, anhwylustod neu bryder diangen i rywun os yw'r sawl sy'n ei anfon yn gwybod nad yw'n wir.

### Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Mae'r Deddfau hyn yn diffinio trosedd o aflonyddu bwriadol, sy'n cyfeirio at bob ffurf o aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Bydd person yn euog o drosedd os bydd yn ceisio achosi aflonyddwch, braw neu drallod drwy wneud y canlynol:

- defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus; neu
- yn arddangos unrhyw ysgrifen, arwydd neu gynrychiolaeth weledol arall, sydd yn fygythiol, ymosodol neu sarhaus, a thrwy hynny yn achosi aflonyddwch, braw neu drallod i'r person hwnnw neu i rywun arall.

### Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i fygwth pobl am eu ffydd, neu i ysgogi casineb crefyddol wrth arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sydd yn fygythiol. Mae cyfreithiau eraill yn amddiffyn pobl rhag bygythiadau oherwydd eu hil, cenedligrwydd neu gefndir ethnig yn barod.

### Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997

Ni ddylai person ymddwyn mewn ffordd sy'n aflonyddu ar rywun arall os yw'n gwybod neu os dylai wybod y byddai hynny'n aflonyddu arno. Mae person sy'n gwneud i rywun arall ofni y defnyddir trais yn ei erbyn ar o leiaf ddau achlysur, yn euog o drosedd os yw'n gwybod neu os dylai wybod y byddai ymddwyn fel hyn yn peri ofn i'r llall ar y ddau achlysur.

### Deddf Amddiffyn Plant 1978

Mae'n drosedd tynnu, caniatáu i rywun dynnu, gwneud, meddiannu, dangos, dosbarthu neu hysbysebu delweddau anweddus o blant yn y Deyrnas Unedig. Mae plentyn yn yr achos hwn yn cyfeirio at unrhyw un dan 18 oed. Mae edrych ar ddelwedd anweddus o blentyn ar eich cyfrifiadur yn golygu eich bod wedi creu delwedd ddigidol. Mae delwedd o blentyn hefyd yn golygu lluniau ffug (wedi'u creu yn ddigidol neu fel arall). Gall person a geir yn euog o drosedd o'r fath wynebu hyd at 10 mlynedd yn y carchar

### Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Cyflawnir trosedd meithrin perthynas i bwrpas rhyw (*grooming*) os yw person dros 18 oed yn cyfathrebu â phlentyn dan 16 o leiaf ddwywaith (yn cynnwys ar y ffôn neu drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd) ac yn cwrdd â'r plentyn neu'n teithio i gwrdd â'r plentyn unrhyw le yn y byd â'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol. Mae gwneud i blentyn dan 16 oed wylio gweithred rywiol yn anghyfreithlon, gan gynnwys edrych ar ddelweddau megis fideos, lluniau neu we-gamerâu, er mwyn boddhad personol. Mae hefyd yn drosedd i unigolyn sydd mewn swydd o ymddiriedaeth gymryd rhan mewn gweithred rywiol gyda pherson dan 18, pan fydd y person hwnnw'n ymddiried ynddynt. (Fel arfer, mae athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, staff Gyrfa Cymru yn y categori ymddiriedaeth hwn). Bydd unrhyw gyfathrach rywiol gyda phlentyn dan 13 oed yn cyflawni trosedd o drais rhywiol.

### Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd ysgogi casineb hiliol wrth arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol. Fel y Ddeddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006 mae'r Ddeddf hon hefyd yn gwneud meddu ar ddeunydd ymfflamychol gyda'r golwg o'i ryddhau yn anghyfreithlon. Y Gyfarwyddiaeth Plant, Teuluoedd ac Addysg, tudalen 38, Ebrill 2007.

### Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 a 1964

Mae cyhoeddi erthygl "anllad" yn drosedd. Mae cyhoeddi yn cynnwys trosglwyddo yn electroneg.

### Deddf Hawliau Dynol 1998

Nid yw'r Ddeddf hon yn ymdrin ag unrhyw fater arbennig yn benodol nac unrhyw faes pwnc ar wahân o fewn y gyfraith. Mae'n fath o "uwch gyfraith", sy'n effeithio ar y cyfreithiau eraill i gyd. Yng nghyd-destun yr ysgol, dyma rai o'r hawliau dynol y dylid bod yn ymwybodol ohonynt:

- yr hawl i dreial teg
- yr hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth
- rhyddid syniadau, cydwybod a chrefydd
- rhyddid mynegiant
- rhyddid i gynnull
- gwahardd gwahaniaethu
- yr hawl i gael addysg.

Nid yw'r hawliau hyn yn absoliwt. Mae gorfodaeth ar yr ysgol i barchu'r hawliau a'r rhyddidau hyn, a'u cydbwyso â'r hawliau, y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau hynny, sy'n codi o ddeddfwriaethau perthnasol eraill.

### Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Rhaid i ysgolion gael caniatâd rhiant neu ofalwr i ddefnyddio systemau Biometrig

### Deddf Troseddu Difrifol 2015

Cyflwynodd y Ddeddf hon drosedd newydd sef cyfnewid negeseuon rhywiol â phlentyn. Hefyd, creodd droseddau a gorchmynion newydd yn ymwneud â throseddau cysylltiedig â gangiau (gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant).

### Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015

Mae defnyddio porn i ddial ar rywun yn golygu dosbarthu delweddau neu fideos rhywiol preifat a phersonol o oedolyn heb ganiatâd, gyda'r bwriad o beri embaras a gofid iddynt. Yn aml, defnyddir y ffordd hon o ddial yn faleisus i godi cywilydd ar gyn-bartneriaid. Cafodd dial drwy porn ei wneud yn drosedd benodol o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015. Mae'r Ddeddf yn nodi os cewch eich cyhuddo o ddefnyddio porn i ddial a chael eich dyfarnu'n euog o'r drosedd, y gallech gael eich erlyn ac wynebu dedfryd o hyd at ddwy flynedd yn y carchar. I gael rhagor o arweiniad neu gymorth cysylltwch â'r Llinell Gymorth Defnyddio Porn i Ddial

### Deddf Diogelwch Ar-lein 2023

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gwella diogelwch defnyddwyr ar y rhyngrwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu plant ac unigolion agored i niwed rhag cynnwys niweidiol ar-lein. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn diffinio 'troseddau blaenoriaeth' fel:

- camfanteisio/cam-drin plant yn rhywiol
- annog neu helpu rhywun i ladd ei hun neu niweidio ei hun yn ddifrifol
- aflonyddu, stelcio, bygwth a cham-drin
- ymddygiad sy'n rheoli neu ymddygiad sy'n gorfodi

- camddefnyddio lluniau personol
- camfanteisio'n rhywiol ar oedolion.

Mae'n canolbwyntio ar wasanaethau ar-lein sy'n caniatáu i bobl rannu cynnwys ("gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr" fel Facebook, Instagram a Twitter), a gwasanaethau chwilio (fel Google, Yahoo a Bing). Mae gan y Bil wahanol lefelau o ddiogelwch ar gyfer plant ac oedolion.

### Diogelu pobl ifanc

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn creu cyfrifoldeb cyfreithiol ("dyletswydd gofal") i weithredwyr gwasanaethau defnyddwyr ddiogelu defnyddwyr dan 18 oed rhag cynnwys niweidiol, yn benodol

- Gorfodi gofynion isafswm oedran
- Cyhoeddi asesiadau risg
- Diogelu plant rhag cynnwys niweidiol sy'n cael ei gyhoeddi ar y gwasanaeth
- Defnyddio'r Telerau ac Amodau yn briodol

### Diogelu oedolion

Er bod y Bil yn canolbwyntio ar yr angen i ddiogelu pobl ifanc ar-lein, mae rhai darpariaethau yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion (a fydd o fudd i bob defnyddiwr) gan gynnwys

- Gallu personoli eich ffrwd
- Rhwystro trolio ar-lein
- Adnabod cynnwys penodol fel trosedd
- Tynnu cynnwys sydd eisoes yn anghyfreithlon

### Gorfodi

Mae Ofcom wedi cael ei benodi'n rheoleiddiwr ac mae ganddo bwerau i gael gwybodaeth gan weithredwyr gwefannau am sut maent yn delio â niwed ar-lein ac i weithredu os nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd, gan gynnwys

- Ymchwilio i weithredwyr gwefannau ac a ydynt yn cydymffurfio â'r Bil
- Rhoi cosbau ariannol i gwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau
- Cyhoeddi canllawiau ar gydymffurfio
- Cyhoeddi hysbysiadau sy'n mynnu bod gweithredwyr gwefannau yn rhoi gwybodaeth neu'n cydweithredu ag ymchwiliad gan Ofcom

### Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae Adran 69 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn sefydlu'r drosedd gyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r bygythiad o ddatgelu lluniau neu fideos rhywiol preifat sy'n cynnwys unigolyn arall. Mae'r drosedd

hon yn digwydd pan fydd rhywun yn bygwth rhannu cynnwys o'r fath gyda'r bwriad o beri gofid i'r unigolyn dan sylw, a'u rhannu heb ganiatâd yr unigolyn hwnnw.

# Dolenni i sefydliadau a dogfennau eraill

Gallai'r dolenni canlynol helpu'r rheini sy'n datblygu neu'n adolygu Polisi Diogelwch Ar-lein yr ysgol ac yn creu eu darpariaeth diogelwch ar-lein:

**Llywodraeth Cymru**

Diogelu plant (gan gynnwys Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a Gwrthsafiad a pharch: datblygu cydlyniant cymunedol)

Cyngor ar fwlio yn yr ysgol

**Hwb**

Hafan Hwb

Cadw'n ddiogel ar-lein

Canolfan Cymorth Hwb

Canolfan Cymeradwyo Hwb

Safon Digidol Addysg

Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein - 2020

Diogelwch ar-lein: Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles

Modiwlau 4 a 5 Cadw dysgwyr yn ddiogel: Diogelwch Ar-lein ar gyfer Ymarferwyr a Llywodraethwyr

Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu

Adnoddau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel

Hwb – adnoddau i lywodraethwyr

Cyngor i ysgolion ar baratoi ar gyfer heriau niweidiol feirol ar-lein a storïau celwydd ac ymateb iddynt

Arferion ac egwyddorion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

**Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU**

Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU (Saesneg yn unig)

South West Grid for Learning (Saesneg yn unig)

Childnet (Saesneg yn unig)

Llinell Gymorth i Weithwyr Proffesiynol ar Ddiogelwch Ar-lein (Saesneg yn unig)

Internet Watch Foundation(Saesneg yn unig)

Riportio Cynnwys Niweidiol

Canolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU – Crynodebau Ymchwil (Saesneg yn unig)

**Eraill**

CEOP (Saesneg yn unig)

Addysg CEOP (Saesneg yn unig)

INSAFE/Better Internet for Kids (Saesneg yn unig)

Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCIS) (Saesneg yn unig)

**Adnoddau ar gyfer Ysgolion**

Prawf Hidlo SWGfL (Saesneg yn unig)

Fframwaith Cadernid Digidol UKCIS (Saesneg yn unig)

SWGfL Swiggle - Peiriant Chwilio sy'n Ystyriol o Blant

**Bwlio/Bwlio ar-lein/Secstio/Aflonyddu Rhywiol**

Childnet – Project deSHAME – Aflonyddu Rhywiol Ar-lein (Saesneg yn unig)

Hwb Canllaw i athrawon ar adnabod a herio bwlio ar-lein

Estyn – Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon - Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru

**Diogelu Data**

Cymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sefydliadau (Saesneg yn unig)

IRMS - Pecyn Rheoli Cofnodion ar gyfer Ysgolion (Saesneg yn unig)

Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu lluniau mewn ysgolion (Saesneg yn unig)

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Data Addysg (Saesneg yn unig)

NCSC – Addysg a Sgiliau - Ysgolion (Saesneg yn unig)

**Cymorth Seilwaith/Technegol**

UKSIC – Hidlo a Monitro'n Briodol (Saesneg yn unig)

Safonau a argymhellir gan Hwb ar gyfer hidlo yn ysgolion Cymru

Canllaw'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ar y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (Saesneg yn unig)

Nodiadau Cyngor a Chyfarwyddyd NEN (Saesneg yn unig)

**Gweithio gyda rhieni a gofalwyr**

Tudalennau Gwe Childnet i Rieni a Gofalwyr (Saesneg yn unig)

Get Safe Online - adnoddau i rieni

Internet Matters (Saesneg yn unig)

Canllawiau Hwb ynghylch apiau i deuluoedd

**Prevent**

Canllawiau ar y Ddyletswydd Prevent

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol – CyberChoices (Saesneg yn unig)

Uned Seiberdrosedd Ranbarthol TARIAN (RCCU)

Hwb - Ymddiried ynof fi Cymru

Hwb - Canllaw i athrawon ar ddeall rôl y rhyngrwyd mewn radicaleiddio ac eithafiaeth

**Ymchwil**

Ofcom – Ein hymchwil i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (Saesneg yn unig)

Cedwir hawlfraint Templedi Polisi Diogelwch Ar-lein Ysgolion SWGfL gan SWGfL. Caniateir i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill ddefnyddio'r templedi am ddim. Dylai unrhyw berson neu sefydliad sy'n dymuno defnyddio'r ddogfen at ddibenion eraill ofyn am ganiatâd SWGfL a chydnabod ei ddefnydd. Gwnaed pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth yn y templed hwn yn fanwl gywir, fel ar y dyddiad cyhoeddi ym mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, ni all SWGfL warantu ei manwl gywirdeb ac ni all dderbyn cyfrifoldeb mewn perthynas â'r defnydd o'r deunydd, boed yn llawn neu'n rhannol a boed wedi'i addasu ai peidio. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol/proffesiynol addas os bydd unrhyw anhawster yn codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth newydd hon neu'n ymwneud yn gyffredinol ag ymddygiad neu ddisgyblaeth yn yr ysgol.

© SWGfL 2025